# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Asesiad Digonolrwydd Chwarae

Mehefin 2022

## Tabl y Cynnwys

*Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau* ........ 3

*1. Datganiad Egwyddor* ........ 8

*2. Cyd-destun* ........ 12

*3. Gweithio mewn Partneriaeth* ........ 14

*4. Ymgynghori a Chyfranogi* ........ 20

*5. Uchafu Adnoddau* ........ 49

*6. Yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a Chynlluniau Llesiant Lleol* ........ 54

*7. Monitro Digonolrwydd Chwarae* ........ 58

*8. Mewnwelediadau o'r Pandemig* ........ 61

*9. Materion* ........ 63

*10. Casgliad* ........ 152

*11. Y Ffordd Ymlaen* ........ 153

*12. Cynllun Gweithredu* ........ 154

*Atodiad* ........ 162

# Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau

**Crynodeb o Ganfyddiadau'r Ymgynghoriad**

**Cryfderau:**

- Mae'r mwyafrif llethol o blant a phobl ifanc (CYP) a arolygwyd yn hapus yn bennaf neu'n hapus iawn â'r cyfleoedd i chwarae ym Merthyr Tudful. Adroddodd ymatebwyr hefyd adborth cadarnhaol iawn gan rieni ar y cyfleoedd i chwarae a chofnododd arsylwadau a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad brofiadau cadarnhaol oddi wrth blant mewn amgylcheddau chwarae.
- Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae ym Merthyr Tudful, ar draws pob grŵp oedran
- Mae proffil chwarae gweithredol gan gynnwys chwaraeon a gweithgareddau awyr agored wedi cael ei godi. Mae gan holl ddarparwyr chwarae ym Merthyr Tudful ddarpariaeth awyr agored neu'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol agos a siaradon nhw am chwaraeon a gweithgareddau awyr agored fel y rhai mwyaf poblogaidd Dewisodd y palnt a arolygwyd weithgareddau chwaraeon nhefyd fel y math o chwarae roeddent yn ei fwynhau fwyaf, ar draws pob grŵp oedran. Mae Heini Merthyr yn cefnogi darparu gweithgareddau chwaraeon a hamdden, gan weithio'n agos ag ysgolion i uwchsgilio staff a chynorthwyo plant hŷn fel arweinyddion ifanc mewn chwaraeon.
- Ers yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADC) blaenorol, mae'r Awdurdod Lleol wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i godi proffil chwarae a chynnal gweithgareddau sydd o fudd i'r cymunedau lleol, megis yr Haf o Chwaraer, Gaeaf Llesiant a gweithgareddau Playfest. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiant digamsyniol â theuluoedd a phlant, yn enwedig i ddod â digwyddiadau chwarae yn y cnawd yn ôl ar ôl y pandemig, gydag adborth cadarnhaol a phresenoldeb da.
- Mae adborth gan randdeiliaid yn awgrymu bod chwarae ym Merthyr Tudful yn gynhwysol o holl grwpiau plant. Mae grwpiau o blant a phobl ifanc ar y cyrion yn gallu cyrchu grwpiau a mannau lle maen nhw'n teimlo wedi'u cynorthwyo, â mynediad at weithgareddau sydd o fudd i'w datblygiad megis dysgu Saesneg lle bo angen, ac yn gallu chwarae ag amrywiaeth o blant.
- Ers yr Asesiad Digonolrwydd Chwaraeon blaenorol, mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithio i sicrhau bod y Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae yn cwmpasu'r holl feysydd perthnasol gan gynnwys adrannau gwahanol yr Awdurdod Lleol a sefydliadau trydydd sector. Mae Pencampwr Plant wedi cael ei benodi. Mae'r Tîm Chwarae yn gweithio'n agos ac yn effeithiol â phartneriaid i sicrhau digonolrwydd ac amrywiaeth chwarae.
- Mae cyllid sylweddol wedi cael ei ymrwymo'n ddiweddar i wella'r cyfarpar chwarae sefydlog sydd ar gael ym Mwrdeistrewf Sirol Merthyr Tudful. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf.

**Diffygion:**

- Er bod amrywiaeth daearyddol boddhaol o ymatebwyr wedi cael eu cofnodi, roedd rhai wardiau oedd wedi'u tangynrychioli gan blant a phobl ifanc (PPI), megis Bedlinog, Ynysowen a Threharris.
- Er bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel yn chwarae ym Merthyr Tudful, nid yw'r rhan fwyaf o rieni yn teimlo'n ddiogel yn gadael i'w plant chwarae heb oruchwyliaeth oedolion. Nododd rhai darparwyr hefyd fod angen lle diogel ar blant ar gyfer chwarae digymell, wrth i ffyrdd ddod yn brysurach ac ardaloedd yn fwy adeiledig.
- Adroddodd bron traean o blant oed uwchradd nad ydynt byth neu brin byth yn mynd allan i chwarae, gydag aros gartref a defnyddio technoleg i chwarae yn rheswm am hyn.
- Heb syndod, mae'r pandemig Covis-19 wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd mae plant yn meddwl am chwarae. Er y gall fod wedi darparu cyfleoedd ychwanegol neu hybu chwarae y tu allan mewn rhai ardaloedd, adroddodd llawer o rieni fod eu plant yn teimlo'n bryderus yn awr i fynd allan i chware oherwydd cymdeithasu gostyngol yn ystod y cyfyngiadau symud.
- Nododd darparwyr chwarae effaith y pandemig ar y niferoedd oedd yn cyrchu eu darpariaeth, gyda rhai yn adrodd bod niferoedd wedi gostwng yn ddifrifol wrth i blant a phobl ifanc beidio dychwelyd neu eu bod wedi tyfu allan o'r ddarpariaeth erbyn yr adeg yr ailagorodd ar ôl y cyfyngiadau symud. Adroddodd bron pumed ran o'r plant a arolygwyd nad ydynt yn mwynhau chwarae y tu allan cymaint ers y pandemig.
- Mae 50% o ddarparwyr wedi profi plant yn cael anhawster i ymuno â gweithgareddau penodol oherwydd Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) neu anabledd. Cafodd chwaraeon anabledd eu codi fel maes sydd ddim yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol gan weithwyr chwarae yn ogystal â rhieni, ac felly mae plant a phobl ifanc yn colli ar y cyfleoedd hyn. Adroddodd rhieni hefyd am ddiffyg cyfarpar sefydlog addas ar gyfer plant ag ADY ac anableddau, ac nad oes staff hyfforddedig digonol ar gael bob amser mewn lleoliadau chwarae i ddarparu ar gyfer holl anghenion plant.
- Mae'n ymddangos bod llai o glybiau ar ôl ysgol nac oedd wedi bod o'r blaen, a dim ond un ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol i blant ag ADY.
- Mae'r digwyddiadau chwarae llwyddiannus sydd wedi cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol dros y 2-3 blynedd diwethaf wedi cael eu gwneud yn bosibl oherwydd cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Er bod grant flynyddol yn cael ei darparu yn awr ar gyfer gwaith chwarae gwyliau, mae capasiti'r Tîm Chwarae yn gyfyngedig, a bydd yr Awdurdod Lleol ond yn gallu parhau i gynnal a hyrwyddo'r fath ddigwyddiadau os yw cyllid yn cael ei ddarparu. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol bob amser o bryd neu sut fydd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu sy'n ei gwneud hi'n anodd i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Teimlai darparwyr yn ogystal â theuluoedd nad yw darpariaeth gwyliau yn fforddiadwy na hygyrch bob amser, ac nid yw cyllid yn cael ei ddarparu bob amser ar adegau penodol o'r flwyddyn, er enghraifft ar hanner tymor Hydref.

**<u>Cynnydd ar Faterion</u>**

**Meysydd gwelliant yn ystod 2019-2022:**

Symudodd y meini prawf canlynol o statws RAG Coch i Wyrdd yn ystod y cyfnod:

- Mae gofynion chwarae plant o gefndir diwylliannol gwahanol yn cael eu deall a darperir ar eu cyfer.
- Mae unigolyn wedi'i enwi ar y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Lleol sy'n bencampwr chwarae plant ac sy'n sicrhau bod yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a Chynllun Gweithredu yn cyfrannu at ac yn cael eu hymgorrffori o fewn y Cynllun Llesiant

Symudodd y meini prawf canlynol o statws RAG Oren i Wyrdd yn ystod y cyfnod:

- Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu a chytuno ar safon darparu chwarae sefydlog newydd
- Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at gyfarwyddyd ynghylch creu gofod chwarae hygyrch wrth adnewyddu neu ddatblygu meysydd chwarae
- Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod partneriaid yn cynnig darpariaeth gwaith chwarae i gynnig amgylcheddau chwarae cyfoethog fel y disgrifiwyd yn y Cyfarwyddyd Statudol
- Mae darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio mae partneriaid yr Awdurdod lleol yn ei darparu yn ateb y gofynion rheolaethol a'r Isafswm Safonau Cenedlaethol
- Mae'r agenda ddiwylliannol a chelfyddydau yn cyfrannu at ddarparu gweithgareddau hamdden digonol i blant
- Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel
- Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi'r darpariaethau lle mae grantiau neu gymorthdaliadau ar gael i ddarparwyr chwarae
- Mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun(iau) i leihau effaith negyddol ffyrdd a chyffyrdd prysur trwy gyflwyno mesurau lleihau cyflymder a darpariaeth o fannau/llwybrau croesi i gerddwyr a seiclwyr
- Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio grantiau diogelwch ffyrdd a/neu gyllid arall i gynorthwyo darparu hyfforddiant seiclo i blant i safonau cenedlaethol
- Mae gan yr Awdurdod Lleol ffordd hygyrch ac adnabyddus o drefnu cau ffyrdd dros dro, i gynorthwyo rhagor o blant i chwarae y tu allan i'w cartrefi
- Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio data damweiniau plant sy'n cerdded ar ffyrdd i ffurfio lleoliad a chynllun ymyriadau sy'n helpu plant i fynd o gwmpas yn annibynnol yn eu cymunedau.
- Mae gofynion plant anabl yn cael eu deall a darperir ar eu cyfer o fewn cynlluniau traffig a thrafnidiaeth.
- Mae gan yr Awdurdod Lleol adran wedi'i hadnabod yn glir ar ei wefan sy'n rhoi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae fel y disgrifir yn y Cyfarwyddyd Statudol ( ardaloedd chwarae, darpariaeth chwarae, clybiau a'u hygyrchedd)
- Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth ar fynediad at gyfleoedd chwarae a chyswllt ar gyfer cymorth os oes angen
- Mae gan yr Awdurdod Lleol gyllideb datblygu staff wedi'i chlustnodi ar gyfer chwarae, gan gynnwys gwaith chwarae
- Mae hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr a rhieni i ddatblygu eu gwybodaeth ar sgiliau mewn gwaith chwarae
- Mae'r Awdurdod Lleol yn cynorthwyo partneriaid i ddarparu hyfforddiant priodol i grwpiau cymunedol, rhieni a gwirfoddolwyr
- Mae amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd CPD ar gyfer amrywaieth o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant

- Mae sesiynau ymwybyddiaeth o hyfforddiant ar gael i weithwyr proffesiynol a gwneuthurwyr penderfyniadau y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd i chwarae
- Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol mewn:
    - trefnu bod mannau ar gael ac yn addas ar gyfer chwarae
    - trefnu digwyddiadau chwarae
    - agweddau cadarnhaol at blant a chwarae
    - hyfforddiant ar y pwysigrwydd o chwarae.
- Mae ysgolion yn sicrhau bod amgylchedd chwarae cyfoethog yn cael ei ddarparu i blant ar gyfer seibiau yn ystod diwrnod yr ysgol
- Mae cynlluniau a gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog i blant iau
- Mae'r polisïau Iechyd a Diogelwch yn cydnabod yn benodol gwerth plant yn gallu profi risg a her

**Meysydd ffocws ar gyfer 2022-2025:**

Arhosodd y meini prawf canlynol yn statws RAG Coch yn ystod y cyfnod:

- Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu trafnidiaeth a chymorthdal i blant sy'n teithio i gyfleoedd chwarae
- Mae'r Awdurdod Lleol wedi codi arwyddion megis Arwyddion Blaenoriaeth Chwarae i annog rhagor o blant i chwarae yn y gymuned
- Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio arwyddion cyfeirio ar safle i ddiogelu a hyrwyddo chwarae

Symudodd y meini prawf canlynol o statws RAG Gwyrdd i Oren yn ystod y cyfnod:

- Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgymryd ag Asesiad Mannau Agored (OSA) sy'n mapio ardaloedd sy'n cael eu defnyddio, neu a allai gael eu defnyddio ar gyfer chwarae fel y rhestrir yn y Cyfarwyddyd Statudol
- Mae gan brosiectau chwarae a darparwyr fynediad at amrediad o adnoddau sy'n cefnogi cynhwysiant
- Mae mecanwaith adnabyddus a chytunedig sy'n cael ei ddefnyddio i adnabod yr angen am ddarpariaeth ar wahân i blant anabl
- Mae'r Awdurdod Lleol yn asesu mannau chwarae am werth chwarae a photensial i gynyddu mewn defnydd chwarae fel yr amlinellir yn y Cyfarwyddyd Statudol
- Mae chwaraeon, gweithgaredd corfforol a chynlluniau hamdden gweithredol awdurdod Lleol yn cyfrannu at gynyddu gweithgareddau chwarae a hamdden am ddim
- Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgysylltu â'r cyfryngau i annog y portread cadarnhaol o blant yn chwarae yn yr ardal leol
- Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cyfarwyddyd i sicrhau bod ysgolion yn deall ac yn sicrhau nad yw chwarae y tu allan yn rheolaidd yn cael ei gwtogi

Er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella, mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn gweithredu'r canlynol:

- Mae'r OSA ar hyn o bryd yn y broses o gael ei adolygu, i sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir i chwarae yn cael eu hystyried
- Er nad oes mecanwaith ffurfiol ar waith, mae'r Awdurdod Lleol wedi canolbwyntio ar gynhwysiant ers y ADC diwethaf i sicrhau bod adnoddau a chyfarpar addas yn eu lle i blant ag ADY ac anableddau, a bydd yn parhau i hyrwyddo'r gwaith hwn
- Er nad oes gan y Tîm Chwarae y cyllid na'r capasiti angenrheidiol ar hyn o bryd i hyrwyddo chwarae trwy gyfryngau taledig, mae gwaith arwyddocaol yn cael ei wneud i sicrhau bod y 30 diwrnod o ymgyrch a digwyddiadau chwarae megis Playfest yn cael eu hyrwyddo i deuluoedd o bob cefndir.
- Mae'r pandemig wedi rhoi straen ar allu'r Awdurdod Lleol i weithio mor agos ag ysgolion. Fodd bynnag, bydd prosiectau a gafodd eu dechrau cyn y pandemig, megis y prosiect peilot Ysgolion Cymunedol a ddarperir gan Chwarae Cymru, yn awr yn parhau i sicrhau bod chwarae y tu allan yn rheolaidd yn uchel ar yr agenda

Mae'r tabl Materion yn Adran 9 a'r Cynllun Gweithredu yn Adran 12 yn manylu ar weithredoedd i ymgymryd â hwy yn dilyn y ADC.

# 1. Datganiad Egwyddor

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc sy'n byw yn y sir â mynediad at brofiadau chwarae cyffrous, ysgogol a chreadigol, trwy ddarparu darpariaeth chwarae wedi'i goruchwylio a heb ei goruchwylio sy'n rhoi cyfle am her. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn yn cyfrannau at liniaru effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant a phobl ifanc ac yn cyfrannu at ddatblygu gwytnwch sydd yn ei dro yn helpu i liniaru effeithiau negyddol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEau). Mae chwarae hefyd yn ffordd o leihau'r anghydraddoldebau rhwng plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n gallu fforddio gweithgareddau chwarae costus a'r rheini sydd ddim yn gallu ac felly'n lleihau tlodi profiad i bob plentyn.

Yn  benodol rydym ni, fel Awdurdod Lleol, am gynnal diwylliant o ‘chwarae allan’ ym Merthyr Tudful a chydnabod bod gallu plant i chwarae allan ac o gwmpas yn eu cymunedau lleol yn ddangosydd da o lesiant cymunedol a chanfyddiadau pobl o ddiogelwch. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y dylai plant gael eu galluogi i chwarae mewn llawer o gyd-destunau gwahanol gan gynnwys yagolion, lleoliadau gofal plant ac o fewn gweithgareddau a chyfleusterau hamdden eraill. Mae'r Awdurdod Lleol yn dyheu i Ferthyr Tudful fod yn fan lle mae'r holl blant yn adrodd lefelau uchel o foddhad â'u cyfleoedd i chwarae, lle maen nhw'n dweud bod eu hamser, lle a chaniatâd i chwarae nid yn unig yn dda, ond yn wych.

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yn torri ar draws llawer o agweddau o waith yr Awdurdod Lleol ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i ddeall yn well ac i ymateb i hawl plant i chwarae. Wrth wneud hynny mae gwaith CBSMT mewn perthynas â'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yn cael ei lywio gan gyfarwyddyd statudol Llywodraeth Cymru (LlC), Sylw Cyffredinol 17 gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig a'r canfyddiadau o'n hasesiadau digonolrwydd chwarae ein hunain.

**<u>Deall y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae</u>**

Yn 2012, daeth Cymru'n wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu'n benodol i gynorthwyo hawl plentyn i chwarae pan gyflwynodd LlC Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae Cymru. Mae'r ddyletswydd yn gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gwblhau asesiad o gyfleoedd plant i chwarae bob tair blynedd a, rhwng adegau, gweithredu i sicrhau digon o gyfleoedd i chwarae mor belled ag y mae'n rhesymol ymarferol (Llywodraeth Cymru, 2014).

Mae'r Ddylteswydd Digonolrwydd Chwarae yn ymwneud â sicrhau digon o amser, mannau a chaniatâd i chwarae o fewn cymunedau lleol, gwasanaethau a chyfleusterau wedi'u rhedeg gan oedolion, a darpariaeth chwarae ddynodedig. Mae'r broses barhaus hon yn gofyn i oedolion dalu sylw agos at y lliaws o ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae ac mae'n ymwneud â diogelu a chynnal cyfleoedd presennol gymaint ag y mae am eu gwella lle'n bosibl

Mae hawl plant i chwarae wedi'i gorffori yn Erthygl 31 ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989). Yn fuan ar ôl i Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae Cymru gael ei chyflwyno, cyhoeddodd Pwyllgor Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig Sylw Cyffredinol 17 (2013) ar Erthygl 31 â'r nod o egluro a phwysleisio rôl llywodraethau mewn ategu hawl plant i chwarae:

> "Mae'r Pwyllgor, yn ei adolygiadau o weithredu hawliau'r plentyn o dan y Confensiwn, yn bryderus am y gydnabyddiaeth wael a roddir gan Wladwriaethau i hawliau Erthygl 31. Mae cydnabyddiaeth wael o'u harwyddocâd ym mywydau plant yn arwain at ddiffyg buddsoddi mewn darpariaeth briodol, deddfwriaeth warchodol wan neu sydd ddim yn bodoli ac anweladwyedd plant mewn cynllunio cenedlaethol ac ar lefel leol. Yn gyffredinol, lle mae buddsoddiad yn cael ei wneud, mae yn y ddarpariaeth o weithgareddau strwythuredig ac wedi'u trefnu **Yr un mor bwysig yw'r angen i greu amser a gofod ar gyfer chwarae digymell, hamdden a chreadigrwydd, a hyrwyddo agweddau cymdeithasol sy'n cefnogi ac yn annog y fath weithgaredd**."

Er mwyn deall yn glir, mae CBSMT yn cefnogi'r diffiniad o chwarae a gynhwyswyd yn Sylw Cyffredinol 17, sy'n datgan:

> "Mae chwarae plant yn unrhyw ymddygiad, gweithgaredd neu broses a gychwynnir, rheolir a strwythurir gan blant eu hunain; mae'n digwydd pryd bynnag a lle bynnag y bydd cyfleoedd yn codi. Mae rhoddwyr gofal yn gallu cyfrannu at greu amgylcheddau lle mae chwarae'n digwydd, ond nid yw chwarae ei hun yn orfodol, wedi'i yrru gan gymhelliad cynhenid ac wedi ymgymryd ag ef er ei fwyn ei hun, yn hytrach nac er mwyn diben".

Mae'r Sylw Cyffredinol yn gwahaniaethu chwarae o weithgareddau hamdden eraill, y mae'n cydnabod sy'n gallu cael eu trefnu a'u rheoli gan oedolion, ond mae'n awgrymu hefyd y dylai ymgysylltiad plant ag unrhyw ffurf o hamdden fod yn wirfoddol.

Prif nod y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yw "creu amgylchedd lle mae  plant yn gallu chwarae'n rhydd" (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod gwerth gweithgareddau hamdden eraill, y mae'n gofyn i awdurdodau lleol eu hystyried wrth gynhyrchu eu hasesiadau digonolrwydd chwarae. Fodd bynnag, er eu bod yn gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, ni ddylid rhagdybio bod gweithgareddau wedi'u trefnu gan oedolion yn gefnogol i chwarae plant. Mewn perthynas â'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae, mae'n ffocws fel Awdurdod Lleol ar sut mae'r gweithgareddau ar gael a drefnwyd yn effeithio ar allu plant i ganfod amser a mannau ar gyfer chwarae.

Mae'n bwysig hefyd i gydnabod bod y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gymwys i bob unigolyn o dan 18 oed ac maen nhw felly'n ymwneud ag anghenion chwarae amrediad eang o blant o oedran gwahanol, gan gynnwys y rheini ym mlynyddoedd eu harddegau. Felly, Mae CBSMT yn cydnabod gwerth plant yn chwarae

gyda *a* heb oedolion ac, wrth iddynt dyfu'n hŷn, bydd gofyn am raddfa gynyddol o ryddid ac annibyniaeth ar blant o'u rhieni a rhoddwyr gofal eraill.

Er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau, cyflwynodd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru eu Hasesiad Digonolrwydd Chwarae a Chynllun Gweithredu Chwarae cyntaf i Weinidogion LlC ym Mawrth 2013 ac maen nhw wedi cyflwyno dau ers hynny, yn 2016 ac yn fwyaf diweddar 2019.

**Chwarae a Gweithgaredd Corfforol**

Mae Chwarae Cymru yn datgan bod chwarae yn un  o'r ffyrdd hawddaf a mwyaf naturiol mae plant o unrhyw oedran yn gallu cymryd rhan mewn lefelau angenrheidiol o weithgaredd corfforol. Pwysau Iach Llywodraeth Cymru: Mae rhestrau ymgynghori Cymru Iach yn rhestru chwarae fel prif ddylanwadwr ar ymddygiadau pwysau iach plant.

Cafodd y papur 'Gweithgaredd Corfforol Plant a Phobl Ifanc' ei ysgrifennu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2019; mae'n gweld y cwricwlwm newydd fel cyfle i gynyddu gweithgaredd corfforol o fewn ysgolion, ynghyd â buddion eraill.

Mae'r papur yn argymell y dylai pob ysgol ddarparu mynediad ehangach at eu cyfleusterau i gymunedau lleol, fydd yn annog rhagor o weithgaredd corfforol a gofod hygyrch y tu allan i diwrnod yr ysgol.

**Chwarae a Llesiant**

Mae chwarae yn ganolog i brofiad a mwynhad plant o fyw, a bydd eu cyfleoedd i wneud hynny yn effeithio'n uniongyrchol ar sut maen nhw'n teimlo am eu hunain ac agweddau eraill o'u bywydau. Ymhellach, mae gan chwarae nodweddion ymddygiadol unigryw (gan gynnwys rheolaeth bersonol, cymhelliad cynhenid, ei natur amrywiol, esgus ac ansicrwydd sy'n benthyg eu hunain i greu profiadau sy'n hanfodol i lesiant a datblygiad plant ar hyn o bryd ac yn y tymor hirach.

> "Gall chwarae gyfrannu at ddatblygu gwytnwch, wedi'i ddefnyddio yma fel mynegiant o ddyfeisgarwch plant mewn gallu canfod neu adhawlio amser a mannau ar gyfer chwarae i gynhyrchu eiliadau pan fydd bywyd yn fwy bywiog a phleserus, gyda buddion cysylltiedig yn nhermau llesiant."
>
> Lester a Russell, 2014

O ystyried buddion chwarae, mae'n dilyn y gallai peidio chwarae arwain at rai canlyniadau enbyd, gan gynnwys anallu i reoli emosiynau, ymdopi â straen, ffurfio ymlyniadau, addasu i newid, teimlo'n dda ac yn y blaen (Grey, 2011). Dylai cael eich amddifadu o gyfleoedd i chwarae yndo'i hun gael ei gydnabod fel profiad niweidiol yn ystod plentyndod Fodd bynnag, trwy alluogi plant i chwarae rydym yn gallu eu cynorthwyo i ymdopi â phwysau a straeniau eu bywydau bob dydd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i blant sy'n profi profiadau niwediol eraill yn ystod plentyndod a'r rheini sy'n byw ag effeithiau niweidiol tlodi; mae cydnabod bod â mynediad at gyfleoedd da i chwarae mae plant yn gallu mwynhau eu plentyndod er gwaethaf profi anfantais ariannol neu gymdeithasol (Long, 2017).

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yn alinio'n agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Yn benodol, mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â sicrhau cyfleoedd digonol ar gyfer chwarae yn adlewyrchu'r pump ffordd at weithio a ddisgrifir o fewn 'egwyddor datblygu cynaliadwy' Llywodraeth Cymru ac mae'n cynrychioli ymagwedd seiliedig ar asedau wedi'i chanolbwyntio ar ddiogelu a gwella cyfleoedd sy'n galluogi plant i gynorthwyo eu hiechyd a llesiant eu hunain trwy chwarae.

**<u>Cyfeiriadau:</u>**


- Grey, P. (2011) The decline of play and the rise of psychopathology in children and adolescents. American Journal of Play 3: 443-463
- Lester, S. & Russell, W. (2014) Towards Securing Sufficient Play Opportunities: A short study into the preparation undertaken for the commencement of the second part of the Welsh Government's Play Sufficiency Duty to secure sufficient play opportunities. Prifysgol Sir Gaerloyw
- Long, A.M. (2017) It's not just about 'more'. A research project exploring satisfaction with opportunities to play for children in two Welsh neighboring communities. International Journal of Play, 6(1): 24-39
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2019) Gweithgaredd Corfforol Plant a Phobl Ifanc
- UNCRC, (2013) General Comment No. 17 on the Right of the Child to Rest, Leisure, Play, Recreational Activities, Cultural Life and the Arts (art. 31. Genefa: Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC).
- Llywodraeth Cymru (2014) Cymru - Gwlad Gyfeillgar at Chwarae: Cyfarwyddyd Statudol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

## 2. Cyd-destun

Comisiynodd CBSMT Premier Advisory Group (PAG) i gwblhau'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADC). I sicrhau bod PAG wedi ateb gofynion manyleb ADC CBSMT, cafodd methodoleg dulliau cymysg trwyadl ei defnyddio oedd yn cynnwys casglu a dadansoddi prif ddata a data eilaidd, ansoddol a meintiol. Thema yn llywio trwy gydol casglu a dadansoddi data oedd sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, ac felly ategwyd at ymchwil pen desg gan arolygon plant a phobl ifanc (CYP), rhieni, rhanddeiliaid a darparwyr, yn ogystal ag arsylwi ar chwarae rhydd. Cafodd cyfweliadau 1 i 1 eu cynnal hefyd â gweithwyr chwarae a chynrychiolwyr penodol Awdurdod lleol, i ddeall chwarae o bersbectif gweithwyr proffesiynol ledled y wlad.

Cafodd y gwaith maes ac ymchwil a ffurfiodd ADC CBSMT 2022 ei gynnal yn ystod y cyfnod Tachwedd 2021- Ebrill 2022. Ymgymerwyd â mathau lluosog o ymchwil a dadansoddi:

- Ymchwil strwythuredig pen desg
- 13 o Gyfweliadau Teleffon Wedi'u Cynorthwyo gan Gyfrifiadaur (CATI) â gweithwyr chwarae
- Holiadur Survey Monkey Ar-lein â phrif randdeiliaid
- Holiadur Survey Monkey Ar-lein â rhieni/gofalwyr
- Arolwg ar bapur i blant ysgol gynradd
- Arolwg ar bapur i blant o dan 5 oed
- Arolwg ar bapur i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Holiadur Survey Monkey ar-lein â phlant oedran ysgol uwchradd
- Grŵp ffocws â gofalwyr ifanc
- Cyfweliadau 1 i 1 ag unigolion allweddol o'r Awdurdod Lleol
- Ffurflenni ymgynghori 'Arsylwi ar chwarae'.

### 1. Ymchwil pen desg

Ar y lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), cafodd data eu casglu trwy ymchwil pen desg gan ddefnyddio ffynonellau data eilaidd i fapio'r gofyn am chwarae a chyffredinrwydd plant a phobl ifanc ar draws yr Awdurdod Lleol. Canolbwyntiodd ymchwil ar ragamcanion poblogaeth, mudo a mynychter grwpiau allweddol, i fapio galw presennol a disgwyliedig am chwarae. Cafodd ymdrech bendant ei gwneud i gael y data ymarferol mwyaf cyfredol o'r ffynhonnell fwyaf priodol, a rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i amserlenni ar gyfer rhyddhau'r data mwyaf perthnasol. Fel y cyfryw, cafwyd data yn bennaf o Swyddfa'r Ystadegau Gwladol a'u hategu a 'u cefnogi gan ddata o PLASC, y Cyfrifiad Cenedlaethol, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a'r Asesiad o Lesiant Lleol.

### 2. Ymgynghori â grwpiau allweddol

Yn dilyn dadansoddi data pen desg, ymgynghorodd PAG ag amrediad o grwpiau allweddol, gan gynnwys plant/pobl ifanc 0-18 oed, rhieni/gofalwyr ar draws CBSMT, gweithwyr chwarae yn gweithio ar hyn o bryd mewn amrywiaeth o ddarpariaethau ieuenctid ac ar ôl ysgol ac unigolion allweddol o'r Awdurdod Lleol.

Yn y lle cyntaf, creodd PAG arolwg ar-lein priodol i blant ar gyfer plant a phobl ifanc 11-18 oed i'w gwblhau. Yn ogystal â hyn, cafodd arolwg ar bapur i balnt ysgol gynradd, plant o dan 5, a phlant ag

ADY eu dosbarthu hefyd ar draws Merthyr Tudful. Oherwydd effaith COVID-19, roedd cyfleoedd ar gyfer ymgynghori yn y cnawd yn gyfyngedig. O ganlyniad, ymgynghorodd PAG â phlant a phobl ifanc trwy grwpiau ffocws a thaflen 'arsylwi chwarae', a gafodd ei chwblhau gan weithwyr chwarae i wneud sylwadau ar y chwarae oedd yn cael ei fwynhau gan blant a phobl ifanc mewn lleoliadau.

Cafodd arolwg byr, gwirfoddol a dienw ar-lein ei rannu â rhieni/gofalwyr yn yr ardal, oedd yn casglu barn am eu canfyddiad o fwynhad plant o chwarae, ochr yn ochr â'u diogelwch a mynediad at chwarae. Cwblhaodd PAG hefyd 13 o gyfweliadau byr, strwythuredig â sampl o weithwyr chwarae ledled Merthyr Tudful.

**3. Ymgynghori â rhanddeiliaid a phartneriaid ehangach**

Er mwyn ategu at ein hymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, ymgynghorwyd â rhieni/gofalwyr, a gweithwyr chwarae, amrywiaeth o randdeiliaid trwy arolwg byr, gwirfoddol ar-lein. Casglodd yr arolwg farn rhanddeiliad ar gyfleoedd presennol ar gyfer chwarae a chyrchu cyfleusterau chwarae, ochr yn ochr ag effaith/effeithiau COVID-19 ar chwarae dros y 2 flynedd ddiwethaf, a chafodd 22 ymateb.

Yn ogystal, cafodd cyfweliadau 1 i 1 eu cynnal ag aelodau o'r Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae i archwilio canfyddiadau o'r ymgynghoriadau â phlant a phobl ifanc a rhieni ac i drafod cynnydd ar y Cynllun Materiopn a gweithredu ers y ADC blaenorol, yn ogystal â chodi unrhyw rwystrau rhag cwblhau'r gweithredoedd hyn neu weithredoedd ychwanegol i'w harchwilio. Cafodd y data hyn eu defnyddio, ochr yn ochr â'r holl ddata ymgynghori eraill, i sicrhau statws RAG y Materion a phrif weithredoedd wrth symud ymlaen.

**4. Cynllun Adrodd a Gweithredu**

Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, cafodd data eu casglu a'u dadansoddi i ffurfio darlun cyffredinol o chwarae ym Merthyr Tudful, â chrynodeb o ganfyddiadau wedi'i ysgrifennu ynglŷn a digonolrwydd chwarae.

Mae'r tabl Materion yn Adran 9 wedi cael ei gwblhau i adlewyrchu statws Gweithredoedd Chwarae o fewn Merthyr Tudful ac mae hyn wedi cyfrannu at greu'r Cynllun Gweithredu.

## 3. Gweithio mewn Partneriaeth

Yn ogystal â 560 o arolygon â phlant a phobl ifanc a 215 o arolygon â rhieni, cafodd y grwpiau canlynol eu cynnwys yn yr ymgynghoriad a ffurfio'r Cynllun Gweithredu:

- Cynghorau Tref a Chumuned
- Sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys cymdeithasau chwarae a darparwyr chwarae
- Grwpiau cymunedol

Bydd ateb gofynion y cynllun gweithredu yn brif eitem agenda ar gyfer y Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae mewn adolygiadau chwarterol. Mae strwythur llywodraethiant y Grŵp Llywio a'r Cylch Gorchwyl yn galluogi cwmpasu pob agwedd o chwarae, ac mae arweinydd ffrwd waith wedi'i ddynodi i bob un o'r Materion ADC. Bydd cynnydd y Cynllun Gweithredu hefyd yn cael ei fonitro yn flynyddol gan Aelodau Cabinet CBSMT. Mae'r Cynllun Asesu a Gweithredu wedi cael ei rannu â'r cabinet ym Mai 2022 ac ymdrinnir ag unrhyw welliannau y gofynnwyd amdanynt yn y Tîm Chwarae, yn dilyn ymgynghori.

**Cynghorau Tref a Chumuned**

Mae'r aelodau canlynol o Grŵp Llywio Chwarae'r Cyngor a rhanddeiliaid ac adrannau perthnasol eraill o fewn yr Awdurdod Lleol wedi cyfrannu at yr asesiad hwn:

- Chris Hole, Pennaeth Gwasanaeth
- Chris Davies, Pencampwr Plant
- Diane Jones, Rheolwr Parth Cymunedol a Dysgu
- Julia Lewis, Swyddog Chwarae
- Robert Barnett, Adran Parciau
- Lillie Bramley, Rheolwr Safle Glynmill
- Tom Bramley, Gofod Agored a Thirwedd
- Dan Bufton, Datblygu Hamdden a Diwylliant
- Kate Gray, Datblygu Chwaraeon
- Stacey Chamberlain, Swyddog Blynyddoedd Cynnar a Datblygu Gofal Plant
- Helen Walters, Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg
- Lisa Emerson, Eiddo ac ystadau, Gwasanaethau Cymdogaeth
- Helen Griffiths, Swyddog Mynediad a Derbyniadau i Ysgolion
- Judith Jones, Gwasanaethau Cynllunio a chymdogaeth
- Julie Powell Jones, Cydlynydd Lleoliadau Addysg iach, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg
- Daniel Clayton, Iechyd Cyhjoeddus Cymru

- Joanne Webb, Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg
- Helen Lang, Gwasanaethau Cymdeithasol
- Jenna Hughes, Cydlynydd Cymorth Busnes Gofal Plant – Cymryd Rhan
- Marianne Mannello, Dirprwy Gyfarwyddwr – Chwarae Cymru
- Amy McNally, Diogelwch Cymuned/Priffyrdd a Pheirianneg, Adfywio Cymunedol
- Sarah Ostler, Cydlynydd Dechrau'n Deg
- Kelly Palmer, Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd
- Sarah Williams, Uwch Weithiwr Ieuenctid - Cartrefi Ynysowen (Gurnos)
- Matthew Davies, Tîm Anabledd Plant
- Jane Sellwood, Llesiant Merthyr – Rheolwr Gweithrediadau Llesiant
- Nigel Sheppard, Uwch Swyddog Ieuenctid a Chymuned
- Lisa Clement, Williams, Teithio Gweithredol
- Beth Jones, Teithio Gweithredol


Cafodd cyfweliadau manwl eu cynnal â nifer o'r unigolion penodol hyn i sicrhau gwybodaeth ychwanegol ar y dirwedd chwarae ym Merthyr Tudful, sy'n cael eu cynnwys yn y tabl Materion. Cwblhaodd rhai aelodau uchod yr arolwg rhanddeiliaid hefyd, y mae eu canfyddiadau'n cael eu dadansoddi yn Adran 4.

**Sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys cymdeithasau chwarae a darparwyr chwarae**

Yn ystod gwanwyn 2022, cafodd 13 o weithwyr chwarae o leoliadau ar draws Merthyr eu gwahodd i gwblhau Cyfweliad Teleffon Wedi'i Gynorthwyo gan Gyfrifiadur (CATI) i gasglu gwybodaeth ar sut maen nhw'n darparu chwarae, beth mae eu darpariaeth yn ei chynnig, rhwystrau i blant rhag cyrchu eu lleoliadau ac effaith COVID-19 ar eu darpariaeth. Derbyniodd y Cyngor ymateb gan chwech o'r gweithwyr chwarae (46.1%). Mae'r mathau o ddarparwr yn ymateb i'r arolwg yn cael eu dangos yn y tabl isod, a rhai darparwyr chwarae yn cwmpasu mathau lluosog.

| Math o Ddarpariaeth | Canran | Nifer |
|---|---:|---:|
| **Gofal plant** | 0.0% | 0 |
| **Clybiau ieuenctid** | 45.5% | 5 |
| **Clybiau chwaraeon** | 18.2% | 2 |
| **Chwarae mynediad agored** | 18.2% | 2 |
| **Clybiau y tu allan i'r ysgol** | 9.1% | 1 |
| **Arall** | 9.1% | 1 |

Roedd y rheini a ymatebodd 'Arall' yn cynnwys chwarae creadigol a grŵp garddio. Gofynnwyd i ddarparwyr hefyd pa fathau o chwarae maen nhw'n eu darparu ar hyn o bryd.




Yn ogystal â'r uchod, darparwyr yn cofnodi darparu addysg symudiad a chorfforol, coginio, pŵl, hoci aer a gweithgareddau amrywiol.

Roedd y nifer o blant oedd yn cyrchu'r darparwyr chwarae a gafodd eu cyfweld yn amrywio o 25 i 200, rhwng oedrannau 0-18. Plant 9-11 oed oedd yn cyrchu'r darpariaethau amlaf.

Dywedodd pob un ond un darparwr fod gan blant fynediad at ddarpariaeth chwarae y tu allan (e.e cae, maes chwaraeon) yn eu lleoliad. Mae gan yr un darparwr sydd heb fynediad ar hyn o bryd gynlluniau i ddarparu cyfleusterau awyr agored yn y dyfodol.

**Adborth ar weithgareddau**

Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ar gyfer plant a phobl ifanc, yn ôl y darparwyr chwarae a gyfwelwyd, yw:

- Chwaraeon, e.e pêl-droed, rygbi, dodgeball, dawnsio, pŵl, tenis bwrdd, seiclo
- Gweithgareddau awyr agored yn ystod misoedd yr haf, garddio
- Darpariaeth Addysg Gorfforol y tu mewn
- Gemau dŵr
- Defnyddio technoleg ar gyfer gemau e.e iPadiau a Xbox

Nododd un darparwr ers y pandemig, fod rhai plant wedi cael trafferth â 'sut i chwarae', yn enwedig pan oedd y chwarae'n llai strwythuredig.

Nododd rhai darparwyr eu bod yn bwriadu dod â gweithgareddau newydd i mewn, naill ai'n dymor byr neu'n dymor hir, megis:

- Clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol
- Setiau cyrlio dan do, bowls, saethyddiaeth
- Gwneud rhagor o ddefnydd o'r ardd a agorwyd yn ddiweddar mewn un lleoliad
- Rhagor o weithgareddau synhwyraidd i blant ag ADY
- Gweithgareddau mwy creadigol i osgoi dibyniaeth ar dechnoleg
- 'Gweithgareddau adfer o COVID-19' e.e. dod â rhagor o ddarpariaeth chwarae o dan do yn ôl a sesiynau chwarae mwy arbenigol ar gyfer plant ag anableddau

Teimlai hanner y darparwyr a arolygwyd fod rhai plant wedi cael anawsterau i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau. Rhesymau a roddwyd am hyn oedd:

- Mae plant ag ADY, yn benodol awtistiaeth, weithiau'n cael trafferth â gweithgareddau penodol a gall fod amgylchedd tawelach yn well ganddynt
- Yn dibynnu ar anabledd y plentyn, mae diffyg cymorth weithiau ar gyfer yr angen penodol
- Mae gweithgareddau a phroblemau synhwyraidd yn gallu golygu nad yw rhai plant yn mwynhau crefftau penodol e.e serameg

Gofynnwyd i ddarparwyr chwarae os oeeddent wedi derbyn unrhyw gwestiynau neu sylwadau gan rieni am ansawdd neu hygyrchedd y ddarpariaeth. Adroddodd darparwyr chwarae adborth cadarnhaol iawn gan rieni:

*" Mae pawb wrth eu bodd â hyn, gobeithio y bydd yn beth parhaol, does dim darpariaeth chwarae arall ar gael i blant."*

*"Adborth ar Palyfest - roedd rhieni'n meddwl ei fod yn wych,  ei gael yn ddiogel iawn."*

*"Hyfryd a rhyfeddol, adborth cadarnhaol."*


*"Mae rhieni'n hapus iawn, yn arbennig o hapus fod gan eu plant leoedd i fynd ar ôl Covid. Da i adfer. Ychydig o ymateb gafodd ffurflenni gwerthuso felly gofynnwyd iddynt wyneb yn wyneb."*

Dim ond un gweithiwr chwarae a adroddodd am gael ymholiadau gan rieni:

*"Mae eisiau darpariaeth ar rieni ym Medlinog i blant o dan 11 hefyd, ond mae'n pobl ifanc am gadw'r oedran yn 11 fel yr ieuengaf. Nid ydynt am gael plant oed cynradd gyda nhw."*

**Effaith COVID-19 ar ddarpariaeth chwarae**

Gofynnwyd i ddarparwyr chwarae hefyd os oedd eu darpariaeth wedi cael ei heffeithio gan Covid-19 dros y 2 flynedd ddiwethaf. Adroddodd pawb ei fod wedi mewn rhyw ffordd neu nad oeddent yn siwr.




Nododd darparwyr chwarae mewn rhai achosion, nad yw plant wedi dod yn ôl i chwarae yn eu lleoliad a bod niferoedd wedi syrthio'n eithafol, yn enwedig â phlant hŷn sydd wedi tyfu dros y pandemig ac sydd â llai o ddiddordeb yn awr yn narpariaeth y chwarae ac wedi peidio mynychu. Mae'n ymddangos bod eisiau rhagor o weithgareddau technoleg ar blant hŷn a nododd darparwyr eu bod yn gorfod trefnu a bod yn fwy creadigol i wrthweithio hynny. Nododd rhai lleoliadau eu bod wedi gorfod atal eu darpariaeth chwarae o dan do yn ystod y pandemig a gorfod gweithredu a niferoedd gostyngol o staff a gwirfoddolwyr.

**Adborth ar gymorth a ddarperir gan y Cyngor**

Gofynnwyd i ddarparwyr chwarae os oedd unrhyw beth arall y gallai'r Cyngor wneud i wella'r cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful. Atebodd yr holl weithwyr chwarae oedd, a chafodd y datganiadau ac awgrymiadau canlynol eu gwneud:

*"Gostyngwch yr oedran sy'n gallu cyrchu darpariaeth gwnewch e'n fwy hygyrch."* [Sylwer: Nid yw hyn yn rheolaeth y Cyngor gan ei fod yn dibynnu ar gofrestriad AGC].

*"Rhagor o gyllid, ymagwedd  adweitheddol ac unigolyddol."*

*Angen i ragor o arian fynd i'r clybiau ieuenctid."*

*"Dim darpariaeth mewn clwb gwyliau neu os oes mae'n ddrud, nid yw'r cyllid ar gyfer gwyliau hanner tymor yn gwneud synnwyr - nad ydyn nhw'n gallu cael y cyfleoedd hyn yn hanner tymor Hydref er enghraifft. Mae'n ymddangos nad ydyn nhw'n cymryd pobl a theuluoedd go iawn i ystyriaeth. Maen nhw'n gallu gwella ansawdd y cyllid sydd ar gael, y ceisiadau a'r polisïau deddfwriaeth."*

*"Cynnig cymhellion i agor darpariaethau newydd."*

*"Mae angen i chwarae'r tu allan gael ei archwilio mwy, yn enwedig ar ôl Covid, parciau hyfryd a mannau gwyrdd sydd ddim yn cael eu defnyddio, mae angen i'r Awdurdiod Lleol wneud mwy â chwarae cynhwysol."*

Gofynnwyd i weithwyr chwarae wedyn am sylwadau ychwanegol ynglŷn a chwarae.

*"Roedd y grant Haf o Hwyl yn adnodd gwych i'n galluogi ni i gyrraedd plant a phobl ifanc trwy gydol y gwyliau."*

*Nid yw chwaraeon anabledd yn cael digon, ac mae angen hysbysebu'n barod i rieni. Mae'n bwysig i blant chwarae ar bob oedran, nid i'r ysgol gynradd yn unig, mae ei angen ar blant hŷn hefyd."*

*"Angen rhagor o gyfleoedd, ni fydd rhieni yn gadael [eu plant] allan oni bai y byddant yn gallu mynd i leoliad braf. Mae rhywle fel hyn yn gallu eu hatal rhag troseddu yn y dyfodol, mae angen rhagor o ddarparwyr chwarae arnynt i wneud iddynt deimlo wedi'u cefnogi a'u hannog, eu helpu i ddewis y llwybr cywir trwy ymyrraeth gynnar."*

*"Dylai fod rhagor o gyllid ac mae angen chwarae am ddim ar rieni ar gyfer gwyliau'r haf a gwyliau hanner tymor. Byddai cyllid yn helpu darpariaethau i ddisgowntio'r chwarae [a'i gwneud] yn fwy hygyrch."*

*"nid oes swm enfawr o gyfleoedd ar gael, mae clybiau ar ôl ysgol yn lleihau. Yr unig reswm mae galw amdanyn nhw yw oherwydd eu bod yn ddarpariaeth ADY ac mae hyd yn oed llai i blant ag anghenion ychwanegol. Yn syml does dim dewis."*

**Gweithdai gweithwyr chwarae**

Yn ogystal â'r cyfweliadau, mae tri gweithdy wedi cael eu cyllido a'u cynnal yn 2022, i rannu gwybodaeth ar y lleoliadau chwarae gwahanol sy'n gweithredu.

Mynychwyd y gweithdai hyn gan Gellideg,, Bedlinog, Cartrefi Ynysowen, yr Urdd, TAG, Bridging the Gap a Dowlais Engine House. Rhoddodd gweithwyr chwarae fewnbwn cadarnhaol ar anghenion hyfforddiant, cymhwyso a statws cofrestru, ac mae capasiti wedi cael ei ennill. Cafodd mynychwyr eu cynorthwyo â £350 o gyllid cychwynnol bob un ar gyfer cyfarpar chwarae a gofynnwyd i glybiau gyflwyno syniadau am ffyrdd y gallent ddarparu sesiynau chwarae ynddynt yn ystod gwyliau'r Pasg.

**<u>Grwpiau Cymunedol a Phartneriaid Eraill</u>**

Ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol hefyd, naill ai trwy grwpiau ffocws, cyfweliadau anffurfiol neu arsylwi:

- 10 o blant a phobl ifanc o Grŵp Gofalwyr Ifanc Barnardo's, 8-15 oed a chymysgedd o fechgyn a merched
- Plant 3+ oed a rhieni/gofalwyr a fynychodd ddigwyddiad Playfest Dowlais Engine House 2022
- Clwb Ieuenctid Bridging the Gap

# 4. Ymgynghori a Chyfranogi

**Arolygon Plant**

Fel y nodwyd uchod, un o brif egwyddorion y ADC hwn oedd cynorthwyo cyfranogaeth wybodus plant a sicrhau bod o leiaf yr un pwysau yn cael eu rhoi i farn plant a phobl ifanc. Gyda hyn o dan ystyriaeth, creodd PAG arolwg priodol i blant ar-lein ac arolwg ar bapur i blant a phobl ifanc i'w cwblhau. Cafodd cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg eu darparu, a chafodd y cwestiynau eu cynllunio i fod yn hygyrch. Darparwyd arolwg ar-lein i blant ysgol uwchradd, a darparwyd arolygon ar bapur i blant o dan 5 oed, mewn ysgol gynradd, ac i'r rheini ag ADY. Mae canfyddiadau'r rhain yn cael eu manylu isod. Roedd 83 ymateb cyflawn i arolwg yr ysgolion cynradd, 448 o ymatebion cyflawn i arolwg yr ysgolion uwchradd a 29 ymateb cyflawn i arolwg y rhai o dan 5, gan roi cyfanswm o 560 ymateb gan blant a phobl ifanc ar draws Merthyr Tudful.

Mae'r holl ddata a gasglwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori trwy'r arolygon ar-lein sydd wedi cael eu defnyddio i gynhyrchu'r dadansoddiad isod i'w ganfod yn yr Atodiad.

**Arolwg Ysgolion Cynradd**

Roedd y rhan fwyaf o'r plant ysgolion cynradd a arolygwyd yn 10 oed, wedi'u dilyn gan rai 11 oed. Rhai 8 a 7 oed oedd y grwpiau opedran lleiaf gyda 4 ac i ymateb, yn eu tro.

Roedd yr ymatebwyr wedi'u lledaenu ar draws 8 allan o 11 ward. Y gynrychiolaeth uchaf oedd o ward Plymouth gyda 25% o'r ymatebion yn dod o'r ward hon. Ni dderbyniwyd arolygon o Gyfarthfa, Ynysowen, Treharris na'r Faenor, a ddylai gael ei gymryd i ystyriaeth yn nadansoddiad y data. Yn ogystal, daeth yr 83 ymateb o chwech ysgol gynradd wahanol ar draws Merthyr Tudful - er bod hyn yn cynrhychioli lledaeniad daearyddol nid yw'n gwbl gynrychioladol o'r Fwrdeistref Sirol.

Gofynnwyd i blant os oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i chwarae a rhoddwyd 5 'wyneb' neu 'emoticon' gwahanol iddynt ar raddfa o goch a thrist (1) gan gynrychioli 'dim o gwbl' a gwyrdd a hapus (5) gan gynrychioli 'oes, llwyth' (gweler delwedd isod). Yr ateb mwyaf cyffredin oedd y 4, yn cynrychioli 'oes, y rhan fwyaf o'r amser.' Teimlai plant oed cynradd a gwblhaodd yr arolwg, ar y cyfan, fod ganddynt ddigon o amser i chwarae.


Diagram 1 - Fformat cwestiwn enghreifftiol




Gofynnwyd i blant pa fathau o leoedd maen nhw'n mynd iddynt pan nad ydynt yn yr ysgol. Rhoddwyd y cyfle i blant roi cylch o gwmpas lleoliad penodol neu dynnu lluniau i esbonio'r lleoedd roedden nhw'n mwynhau chwarae y tu allan i'r ysgol. Disgrifiodd fwyafrif o'r plant chwarae 'yn fy nhŷ fy hun neu dŷ ffrind' a/neu 'yn fy ngardd neu ardd ffrind'. Nid yn bell y tu ôl i hyn roedd cae chwarae neu ardal chwarae ac roedd  parc neu ofod a gwair yn ateb cyffredin arall. Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu mai chwarae gartref neu yn nhŷ/gardd ffrind yw'r mwyaf cyffredin, wedi'i ddilyn gan ardaloedd chwarae y tu allan.

Gofynnwyd hefyd i blant roi cylch o gwmpas dewis neu dynnu llun i ddisgrifio lle maen nhw'n mwynhau chwarae fwyaf. Yn yr un modd â'r cwestiwn blaenorol, cylchodd y rhan fwyaf o blant 'yn fy ngardd neu un ffrind' ac 'yn fy nghartref fy hun neu dŷ ffrind', gan awgrymu bod y rhan fwyaf o blant yn gallu chwarae yn y lle maen nhw'n ei fwynhau fwyaf. Yn ddiddorol dewisodd mwy o blant 'mewn cyfleuster chwaraeon' nac yn y cwestiwn blaenorol.


Gofynnwyd i blant hefyd os oeddent yn gallu chwarae lle maen nhw'n hoffi. Oherwydd oedran y plant, nid yw'n syndod efallai mai'r ateb mwyaf cyffredin oedd 'rhai' o'r lleoedd.




Dewisodd plant weithgareddau chwaraeon yn fwyaf cyffredin fel y math o chwarae roedden nhw'n ei fwynhau fwyaf, gyda 29% o ymatebwyr yn dewis tynnu llun o weithgaredd chwaraeon fel ateb i'r cwestiwn hwn. Roedd gan 'Chwarae gartref neu yn nhŷ ffrind', ' Chwarae gêm fideo' a 'caeau chwarae' 13% yr un o'r ymatebion.  Dim ond un plentyn a fanylodd ar chwarae dychmygol neu esgus.

Pan ofynnwyd â phwy maen nhw'n chwarae, ymatebodd y rhan fwyaf o ddisgyblion (58%) â 'ffrindiau'.  Nid yn bell ar ôl hyn roedd 'teulu' a 47% o ymatebion. Datganodd 20% 'ar fy mhen fy hun'.

Mae'r siart isod yn dangos ymatebion i a yw plant yn cael eu caniatau i chwarae allan ar eu pennau'u hunain neu â ffrindiau, heb oedolyn.




Ynglŷn â sut mae plant yn cyrraedd ardaloedd chwarae, datganodd 41% o'r plant a ymatebodd: 'Dw i'n cerdded neun seiclo ar fy mhen fy hun, tra bo'r gweddill yn cerdded/seiclo gyda ffrind neu oedolyn neun cael eu gollwng gan oedolyn yn y car. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol o PSA 2019, lle nodwyd fod plant yn cael eu cymryd gan amlaf i ardaloedd chwarae ac roedd chwarae yn cael ei weld fel cyrchfan, yn hytrach na rhywbeth sy'n hygyrch unrhyw le neu heb ddarpariaeth chwarae penodol yn ei le.


Gofynnwyd yr un cvwestiwn ond gan gyfeirio at ddulliau o drafnidiaeth a ddefnyddir i fynd i'r ysgol. Datganodd y rhan fwyaf o blant fod 'oedolyn yn mynd â mi mewn car'. Mae gwahaniaeth clir yn nhermau cyrchu mannau chwarae ac ysgol, gyda'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn cael eu cymryd i'r ysgol yn y car gan oedolyn. Mae'r ymatebion isel i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn awgrymu nad yw hyn yn ddull effeithlon neu a anogir yn y Fwrdeistref Sirol; roedd y thema hon yn ailadrodd trwy gydol yr ymgynghoriad â grwpiau allweddol.

Gofynnwyd i blant dynnu llun neu ddisgrifio pethau roedden nhw'n meddwl oedd yn dda am chwarae yn eu hardal. Eto, cafodd y themâu cyffredin eu grwpio e.e. cyfleusterau chwaraeon, megis cyrtiau pêl-fasged a phyllau nofio. Rooedd parciau lleol a chaeau ym ymateb cyffredin, a chyfleusterau chwaraeon a 'lleoliad yn gyffredinol' (e.e. oherwydd ei bod yn dawel yng nghefn gwlad ac ati) yn dilyn hyn.

I'r gwrthwyneb, gofynnwyd i blant dynnu llun neu ddisgrifio pethau roedden nhw'n meddwl oedd yn ddrwg am y ddarpariaeth chwarae yn eu hardal neu bethau roedden nhw'n teimlo oedd angen eu gwella. Roedd glendid yn ymateb cyffredin gyda 32% yn manylu, er enghraifft, sbwriel a/neu wydr wedi torri fel problem. Roedd gwair wedi gordyfu ar gaeau chwaraeon neu chwarae yn ateb cyffredin arall gyda chwarter o ymatebwyr yn dangos hyn. Mae hyn yn awgrymu bod taclusrwydd ardaloedd chwarae lleol yn faes gwelliant pwysig i blant.

Gofynnwyd i blant raddio eu bodlonrwydd â chwarae yn eu hardal. Rhoddwyd 5 wyneb gwahanol i blant ar raddfa o goch a thrist (1) yn cynrychioli 'ddim yn hapus o gwbl' a gwyrdd a hapus (5) yn

cynrychioli 'hapus iawn'. Fel y dangosir isod, nid atebodd unrhyw blentyn â dim yn hapus o gwbl, tra bo'r 71% o blant a ddetholwyd yn hapus iawn neu'n hapus yn bennaf. Mae hyn yn welliant cadarnhaol ar llynedd, lle teimlai 7% nad oedd chwarae'n dda a bod angen ei wneud yn llawer gwell. Yn amlwg, mae plant yn hapus yn gyffredinol â chwarae allan ym Merthyr Tudful.




Eto, cafodd wynebau eu defyddio i bennu pa mor ddiogel mae plant yn teimlo yn chwarae'r tu allan ym Merthyr Tudful, gyda 1 yn cynrychioli 'dim yn ddiogel o gwbl' a 5 yn cynrychioli 'diogel iawn'. Teimlai 63% yn ddiogel iawn neu'n ddiogel yn bennaf, gyda 30% yn niwtral neu'n ansicr. Mae'n gadarnhaol i nodi bod y rhan fwyaf o blant oed cynradd a gwblhaodd yr arolwg yn teimlo'n ddiogel yn chwarae'r tu allan ym Merthyr Tudful.

Pan ofynnwyd i ddweud os oeddent yn dal i fwynhau chwarae'r tu allan ers cychwyn y pandemig COVID-19, dangosodd 43% o blant eu bod yn dal i fwynhau chwarae'r tu allan 'rhywfaint'. Fodd bynnag, ymatebodd bron bumed rhan o blant (18%) â 'Na ddim o gwbl' a 'Na, dim fel arfer', gan awgrymu bod effaith COVID- 19 wedi bod ar chwarae i rai plant. Gofynnwyd i blant hefyd ddatgan a oedden nhw'n dal i deimlo'n ddiogel yn chwarae'r tu allan pan mae COVID. Ymatebodd 33% o blant â'r opsiwn niwtral, wedi'i ddilyn yn agos gan rywfaint yn ddiogel. Dim ond 9% ddatganodd eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn.

**Prif Ddemograffeg Disgyblion**

Roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn ferched (54%). Roedd 39% o ymatebwyr yn fechgyn, a'r gweddill yn gadael y cwestiwn hwn yn wag neu'n dewis 'Gwell gennyf beidio dweud.' Dosbarthodd 2 ddisgybl a gwblhaodd yr arolwg eu hunain yn anabl.

Saesneg oedd y ddewis iaith fwyaf cyffredin, er bod cynrychiolaeth nodedig i Gymraeg a Phwyleg, fel y manylir isod

| Iaith | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Saesneg** | 63 |
| **Saesneg/Pwyleg** | 2 |
| **Saesneg/Cymraeg** | 4 |
| **Ffilipino** | 1 |
| **Malayalam** | 1 |
| **Pwyleg** | 3 |
| **Cymraeg** | 2 |

Cofnododd plant eu grŵp/cefndir ethnig.

| Cenedligrwydd | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Seisnig** | 27 |
| **Ffilipino Seisnig** | 2 |
| **Cymreig** | 17 |
| **Seisnig/Cymreig** | 3 |
| **Arall** | 4 |

**Arolwg y rhai Dan 5**

Gweler Atodiad am ddata ychwanegol.

Ochr yn ochr â'r arolwg cyntaf, llenwodd plant o dan 5 oed arolwg ar bapur wedi'i gynllunio i ddal eu hagweddau at, a mwynhad o, chwarae ym Merthyr Tudful trwy gyfuniad o dynnu llun a dewis opsiynau amlddewis. Cafodd yr arolwg ei gynllunio i gael ei lywio gan oedolyn gartref neu yn eu lleoliad Blynyddoedd Cynnar.

Roedd 29 o ymatebion i'r arolwg o dan 5, a'r rhain yn dod o 5 ward. Eto, roedd y gynrychiolaeth uchaf o ward Plymouth, gyda 34% o arolygon o'r ward hon. Nid oedd cynrychiolaeth o dan 5 o Fedlinog, Cyfarthfa, Dowlais, Gurnos, Treharris na'r Faenor.


Cyfarwyddywd plant i dynnu llun o'u hoff fath o chwarae, gan gynnwys eu hoff bobl a'u hoff le. Cafodd y lluniau mwyaf cyffredin eu grwpio â'i gilydd a'u categoreiddio (e.e. 'Chwaraeon' ar gyfer lluniau fel pêl-droed a phêl-fasged). Roedd chwareon y tu allan i'r ysgol gyda ffrindiau neu deulu yn

ymateb cyffredin, gyda 38% o blant yn ymateb yn tynnu llun o hyn. Roedd chwaraeon mewn ysgol gyda ffrindiau a chwarae gemau yn y parc hefyd yn ymatebion cyffredin. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys defnyddio teclynnau a theganau gartref.

Dywyedodd mwyafrif o blant o dan 5 eu bod yn gallu mynd a chwarae 'llawer' neu 'bryd bynnag dw i am wneud', a 59% o blant yn dewis yr ateb hwn. Ymatebodd 1 plentyn 'Byth.' Pan ofynnwyd a ydynt yn cael chwarae lle maen nhw'n dymuno bob amser, dywedodd 58% o blant o dan 5 yn ymateb 'Ddim yn aml'. Gwnaeth rhai ddatganiadau am beidio gallu chwarae lle maen nhw'n hoffi fel *"Na byddai'n well gen i fynd i'r parc."*

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i blant dynnu lluniau o leoedd yr hoffent chwarae fwyaf. Y parc oedd y dewis mwyaf poblogaidd, gyda bron chwarter o luniau plant yn manylu ar hyn. O'r ymatebion yn dangos 'Arall', disgrifiodd un plentyn y traeth tra disgrifiodd un arall barc sglefrio.

Er mwyn asesu bodlonrwydd chwarae rhai o dan 5, cymhellwyd y plant i roi cylch o gwmpas wyneb/emoticon i ddangos pa mor hapus oedden nhw'n chwarae'r tu allan. Roedd 1 yn wyneb trist, gan awgrymu eu bod yn anhapus wrth chwarae'r tu allan, tra bod 5 yn hapusaf. Mae'r siart isod yn adlewyrchu'r ymatebion i'r cwestiwn hwn:




Eto, ni ddangosodd unrhyw blant eu bod ddim yn hapus o gwbl â chwarae ym Methyr Tudful, a dangosodd y mwyafrif llethol o blant eu bod yn hapus iawn yn chwarae'r tu allan yn eu hardal.

**Demograffeg Plant o Dan 5**

Gofynnwyd i oedolion gofnodi data demograffig ar gyfer y plant oedd yn cwblhau'r arolwg. Mae'r tabl isod yn dangos data ar grwoiau ethnig y cyfanogwyr.

| Ethnigrwydd | Swm |
|---|---|
| **Gwyn - Pwylaidd** | 1 |
| **Gwyn - Cymreig/Seisnig/ Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig** | 27 |
| **Gwyn - Cymreig/Ffilipino** | 1 |

Mae'r tabl isod yn dangos faint o blant oedd ag ADY, a'r math o angen, ar adeg cwblhau'r arolwg.

| Ateb | Swm |
|---|---|
| **Awtistiaeth** | 2 |
| **Saesneg fel IaithYchwanegol** | 1 |
| **Anawsterau Dysgu Eang** | 1 |
| **Arall** | 1 |
| **Dim un** | 22 |


**Arolwg Ysgolion Uwchradd**

Gweler yr Atodiad am ddata ychwanegol.

Yn ogystal â'r arolygon ar bapur uchod, cafodd arolwg ar-lein ei redeg ar gyfer plant ysgol uwchradd 11-17 oed. Ymatebodd cyfanswm o 448 o blant, a'r mwyafrif o'r rhain (73%) yn 12-14 oed. Rhai 16 ac 17 oed gafodd eu cynrychioli leiaf.


Anelodd yr arolwg ar-lein at gasglu dadansoddiad o ddigonolrwydd chwarae ar draws y sir ar lefel seiliedig ar ward. Felly, gofynnwyd i blant ddarparu cod post eu cartref, a gafodd ei gydweddu â'u ward leol. Y ward a gafodd ei chynrychioli fwyaf oedd Gurnos, a'r ail a thrydydd mwyaf o ymatebion o Benydarren a Dowlais yn eu tro. Roedd cynrychiolaeth o bob ward heblaw am Fedlinog.

Gofynnwyd i ddisgyblion uwchradd pa mor aml maen nhw'n mynd allan i chwarae neu dreulio amser gyda ffrindiau.




Yr ateb mwyaf cyffredin oedd fod plant a phobl ifanc yn treulio amser gyda ffrindiau 'ychydig ddyddiau o'r wythnos gyda 35% o ymatebwyr yn datgan hyn. Cafodd hyn ei ddilyn yn agos gan 'y rhan fwyaf o ddyddiau' gyda 34% o blant yn darparu'r ymateb hwn. Yr ymateb lleiaf cyffredin oedd 'dw i ddim yn chwarae nac yn treulio amser gyda fy ffrindiau y tu allan' a ddywedwyd gan 5% o'r ymatebwyr yn unig.

Gofynnwyd i blant wedyn a oedden nhw'n cael digon o amser ar gyfer chwarae/treulio amser gyda'u ffrindiau,





Fel y dangosir uchod, teimlai'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc fod ganddynt lwyth neu ddigon o amser i chwarae a threulio amser gyda'u ffrindiau, a hyn/rhain yn atebion mwyaf cyffredin. Dim ond nifer fach o blant a phobl ifanc a ymatebodd 'na, mae angen llawer mwy o amser arnaf i'.

Mae atebion i hwn a'r cwestiwn blaenorol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc oed uwchradd ym Merthyr Tudful yn chwarae neu'n treulio amser gyda ffrindiau sawl gwaith yr wythnos ac yn teimlo'u bod yn cael digon o amser i wneud hynny. Fodd bynnag, mae tua 30% o blant a phobl ifanc naill ai bron byth neu byth yn mynd allan i chwarae, a thua 19% yn datgan y byddai angen naill ai ychydig mwy o amser neu lawer mwy i wneud hynny. Mae hyn yn awgrymu i'r 11% sy'n weddill bod rheswm nad ydynt yn chwarae gyda'u ffrindiau y tu allan heblaw am gyfyngiadau amser. Yn yr un modd, dywedodd tua 70% o blant a phobl ifanc eu bod yn chwarae'r tu allan gyda ffrindiau naill ai 'y rhan fwyaf o ddyddiau neu 'ychydig ddyddiau'r wythnos', tra dywedodd tua 80% eu bod yn teimlo bod ganddynt yr amser i wneud hynny. Mae hyn eto'n awgrymu ar gyfer y 10% o blant a phobl ifanc sy'n weddill sy'n teimlo bod ganddynt ddigon o amser i chwarae'r tu allan ond sydd ddim yn gwneud yn rheolaidd bod rheswm am hyn y tu hwnt i gyfyngiadau amser.

Y lle mwyaf cyffredin lle mae plant a phobl ifanc yn chwarae yw naill ai yn eu tŷ neu dŷ ffrind, â 70% o ymatebion. Atebion cyffredin eraill, yn nhrefn amlder, oedd yn y strydoedd yn agos at eu tŷ, ar ardal wair leol ac mewn ardal chwarae. Yr atebion lleiaf cyffredin oedd mewn gwasanaeth gwarchod plant, mewn cynllun chwarae ac mewn clwb gwyliau. Rhoddwyd y dewis hefyd i blant a phobl ifanc ysgrifennu lleoedd eraill maen nhw'n chwarae ynddynt. Datganodd 23% o blant a phobl ifanc eu bod yn chwarae mewn lleoliad arall ac roedd yr atebion a ddarparwyd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: ar fferm, mewn arcêd, y sinema, yn y dref, y traeth, siopau/canolfan siopa, parc sglefrio a chae pêl-droed.

Roedd y cwestiwn nesaf i blant a phobl ifanc a ymatebodd eu bod yn mynychu clwb brecwast neu glwb gwyliau, y gofynnwyd iddynt os oedd yn digwydd yn yr ysgol. Dywedodd 49% o blant ie, o gymharu â 51% o blant a ddywedodd na.

Gofynnwyd i blant wedyn os oedden nhw'n gallu chwarae yn yr holl leoedd yr hoffen nhw wneud.




Dywedodd bron hanner plant a phobl ifanc eu bod yn gallu chwarae yn yr holl leoedd yr hoffen nhw, a thros draean yn adrodd eu bod yn gallu chware yn y rhan fwyaf o leoedd maen nhw'n dymuno. Mae hyn yn awgrymu bod gan y mwyafrif o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg hwn fynediad at ardaloedd a lleoedd yr hoffen nhw chwarae ynddynt.


Gofynnwyd i blant a phobl ifanc a oedden nhw'n derbyn gofal y tu allan i'r ysgol gan rywun heblaw am ddarparwr chwarae neu ofal neu eu rhieni/gofalwr. Yr ateb mwyaf cyffredin â 55% o'r ymatebion oedd eu bod yn derbyn gofal gan datcu/mamgu. Yr atebion mwyaf cyffredin nesaf oedd brawd/chwaer hŷn neu rywun arall yn y teulu. Dywedodd 27% o ymatebwyr fod rhywun arall yn gofalu amdanynt, ond pan ofynnwyd i ddarparu rhagor o fanylion ar hyn dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr hyn mae eu rhieni/llys-rieni oedden nhw. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys ffrindiau/rhieni ffrindiau, modryb/ewythr, cefndryd, brodyr/chwiorydd neu *"Dw i'n gofalu am fy hun".* Mae hyn yn dangos bod mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn dibynnu ar aelodau'r teulu a ffrindiau i ddarparu gofal plant trwy gydol yr wythnos.

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc hefyd i enwi hyd at bump gweithgaredd/clwb maen nhw'n hoffi mynd iddynt pan nad ydynt yn yr ysgol. Cafodd amrywiaeth eang o atebion eu darparu sy'n awgrymu bod gan ymatebwyr opsiynau lluosog ar gyfer chwarae maen nhw'n ei fwynhau. Yr ateb mwyaf cyffredin oedd 'mynd y tu allan' gan 47% o ymatebwyr. Roedd yr ateb hwn yn cynnwys mynd i'r parc, mynd i'r dref, neu ddim ond treulio amser gyda ffrindiau y tu allan. Mae hyn yn awgrymu nad yw

plant a phobl ifanc bob amser yn gwneud gweithgareddau penodol wrth chwarae allan ac yn mwynhau bod y tu allan gyda'i gilydd. Eto, mae hyn yn newid ers y ADC blaenorol, lle dangosodd plant a phobl ifanc eu bod yn mwynhau gweithgareddau dan do fwyaf neu weithgareddau'n cynnwys technoleg. Yr ail ateb mwyaf cyffredin oedd gweithgareddau chwaraeon fel chwarae pêl-droed, gyda 28% o ymatebion a chwaraeon eraill fel nofio, sglefrfyrddio, rhedeg ac ati â 20% o ymatebion. Ymatebion llai cyffredin oedd arwain cymeradwo, coginio/pobi a drama/actio.


Yn yr un modd, i ddisgyblion ysgol gynradd, datganodd y mwyafrif o ddisgyblion ysgol uwchradd pan ofynnwyd iddynt sut maen nhw'n cyrraedd ardaloedd chwarae: 'Dw i'n cerdded neu seiclo ar fy mhen fy hun' neu 'Dw i'n cerdded neu seiclo gyda fy ffrindiau'. Mae 28% yn cael eu gollwng gan oedolyn yn y car. Eto, mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol o ADC 2019. Dywedodd bron 50% o ddisgyblion uwchradd, fodd bynnag, pan ofynnwyd sut maen nhw'n mynd i'r ysgol, fod oedolyn yn eu gollwng yn y car. Eto, dim ond canran fach o ddisgyblion sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gan amlygu angen posibl am wasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus gwell.

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc pa mor ddiogel maen nhw'n teimlo yn chwarae'r tu allan ym Merthyr Tudful. Mae 91% o ddisgyblion uwchradd yn teimlo'n ddiogel yn chwarae'r tu allan bob amser neu fel arfer. Yn drawiadol, ymatebodd 4% nad ydynt yn chwarae'r tu allan o gwbl; dywedodd tri chwarter o'r rhain fod hyn oherwydd 'nad ydynt yn cael' chwarae'r tu allan.




Yn ogystal, gofynnwyd i blant a phobl ifanc sut mae oedolion yn ymateb pan fyddant yn chwarae'r tu allan. Er yr adroddodd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc fod oedolion yn wych ac yn hapus i weld plant a phobl ifanc yn chwarae'r tu allan, neu roedden nhw'n iawn am hyn, teimlai 15% o ymatebwyr fod rhai neu'r rhan fwyaf o oedolion yn groes a ddim yn hoffi plant a phobl ifanc yn chwarae'r tu allan.

Yn debyg i'r arolwg o dan 5 a chynradd, roedd y mwyafrif llethol o ddisgyblion oed uwchradd yn hapus â'u cyfleoedd i chwarae ym Merthyr Tudful, fel y dangosir isod. Mae hyn yn paentio darlun cadarnhaol iawn yn gyffredinol yn nhermau bodlonrwydd plant  phobl ifanc â chwarae.




**Demograffeg Disgyblion Uwchradd**

Roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn ferched (57%). Roedd 43% o ymatebwyr yn fechgyn. Dosbarthodd 9% o ddisgyblion a gwblhaodd yr arolwg eu hunain yn anabl.

Saesneg oedd y ddewis iaith fwyaf cyffredin, er bod cynrychiolaeth nodedig i Gymraeg a Phwyleg, fel y manylir isod

| Iaith | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Saesneg** | 381 |
| **Saesneg/Pwyleg** | 4 |
| **Saesneg/Cymraeg** | 2 |
| **Sbaeneg** | 4 |
| **Iaith Arwyddion Prydain (BSL)** | 1 |
| **Pwyleg** | 3 |
| **Cymraeg** | 4 |
| **Arall** | 7 |

Cofnododd plant eu grŵp/cefndir ethnig hefyd.

| Cenedligrwydd | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Seisnig** | 27 |
| **Ffilipino Seisnig** | 2 |
| **Cymreig** | 17 |
| **Seisnig/Cymreig** | 3 |
| **Arall** | 4 |

**Grwpiau Ffocws ac Arsylwi â Phlant a Phobl Ifanc**

Fel parti allanol i roi'r cyfle i gyfranogwyr rannu'n agored, cynhaliodd PAG grŵp ffocws hefyd i gasglu barn plant a phobl ifanc ar chwarae a chynorthwyodd yr Awdurdod Lleol i ymgymryd ag arsylwi ar chwarae plant, ac yn enwedig grwpiau ar y cyrion neu anodd i'w cyrraedd. Mae'r canfyddiadau o'r grwpiau hyn ac arsylwadau yn cael eu crynhoi isod.

**Gofalwyr Ifanc Barnardo's**

Mynychodd 10 o ofalwyr ifanc y sesiwn, gydag oedrannu'n amrywio o 8-15. Gofynnwyd i blant a phobl ifanc yn y lle cyntaf beth mae chwarae yn ei olygu iddynt, ac roedd ataebion cyffredin iddynt yn cyfeirio at gymdeithasu a threulio amser gyda ffrindiau, yn ogystal â chwarae gemau a gweithgareddau fel lliwio. Y consenswς cyffredinol oedd fod chwarae yn rhywbeth rydych chi'n ei wneud gydag eraill, a all fod oherwydd amrediad oedran ychydig yn hŷn i'r grŵp.

Roedd natur cyfrifoldebau gofal plant a phobl ifanc yn golygu nad oedd llawer yn gallu mynd allan a chware cymaint ag yr hoffent, yn enwedig yn ystod y pandemig pan oedd rhaid cynnal grwpiau gofalwyr ar-lein. Fodd bynnag, gwnaeth plant a phobl ifanc gymryd rhan mewn amrediad eang o weithgareddau'n seiliedig ar chwarae, llawer ohonynt wedi'u hwyluso gan Barnardo's, ac roedden nhw hefyd wedi defnyddio'u sesiynau ar-lein yn ystod y pandemig i baratoi llyfr o farddoniaeth roedden nhw wedi ennill gwobr amdano. Roedd gweithgareddau mae aelodau'r grŵp yn cymryd rhan ynddynt yn cynnwys canu mewn côr, celf a chrefftau, chwarae offerynnau cerddorol, clwb drama, Cadetiaid Tân, cymdeithasu a defnyddio'r parc sglefrio, campfa neu bwll. Nodwyd fod gan y Sir gyfleusterau nofio cyfyngedig iawn ar hyn o bryd, y mae'r plant a'r bobl ifanc yn eu methu.

Roedd un o'r themâu cyffredin a ddigwyddodd yn y drafodaeth am chwarae yn cynnwys diogelwch. Teimlai rhai plant a phobl ifanc yn anniogel yn chwarae yn y parciau yn eu hardal neu'n chwarae'r tu allan ar eu pennau'u hunain/gyda ffrindiau, oherwydd bod rhai parciau mewn cyflwr gwael, yn ogystal â themlo dan fygythiad gan rai yn eu harddegau neu oedolion oedd yn y parciau. Cafodd sbwriel a gwydr wedi'i dorri ei grybwyll yn cael eu gweld yn y parciau a'r parc sglefrio. Nododd un cyfranogwr hefyd oherwydd methu â mynd allan a chymdeithasu'n gorfforol yn ystod y pandemig, fod ei iechyd meddwl wedi dioddef, a'i fod yn teimlo'n llai diogel yn awr i fynd allan i chwarae.

Thema arall oedd y diffyg trafnidiaeth ar gael i blant a phobl ifanc i gyrchu'r ddarpariaeth chwarae yr hoffent, a'u hysgolion. Roedd rhaid i'r grŵp gofalwyr ifanc ddibynnu ar yr oedolion oedd yn rhedeg y grwpiau i'w codi mewn bws mini neu gar a nodwyd bod yr amserlen bysiau wedi lleihau; mae'n cymryd amser hir iawn iddynt yn awr fynd i'w hysgolion.

Mae gan blant a phobl ifanc ddealtwriaeth dda o pam fod chwarae yn bwysig, a rhesymau a roddwyd yn cynnwys:

*"Fel nad yw gangiau o blant yn mynd o gwmpas yn creu trafferth."*
*"Cymdeithasu."*
*"Cael plant allan o'r tŷ ac i ymarfer."*
*I gael awyr iach ac i leddfu straen."*

Gofynnwyd hefyd i'r plant a phobl ifanc am eu meddyliau ar beth allai'r Cyngor wneud i'w cynorthwyo i gyrchu cyfleusterau chwarae gwell. Roedd awgrymiadau'n cynnwys:

- Plant hŷn neu oedolion ifanc yn dysgu/hyfforddi plant iau mewn chwaraeon
- Cael rhywle dan do ac wedi'i arolygu lle mae plant yn gallu mynd i chwarae'n rhydd, e.e. pan fydd y tywydd yn wael, ac er mwyn iddynt allu teimlo'n ddiogel yn chwarae'r tu allan gyda ffrindiau.
- Rhagor o finiau fel bod llai o sbwriel yn eu hardaloedd
- Mynediad at offerynnau cerddorol i'w rhentu neu am ddim, i blant a all fod heb yr arian i fynd i wersi.
- Dysgu ynghylch sut i reoli emosiynau a deall iechyd meddwl.

**Arsylwi**

Ym Mawrth 2022, cynhaliodd Engine House Dowlais ddiwrnod o weithgareddau chwarae fel rhan o Playfest 2022. Cafodd arsylwadau eu gwneud a rhannodd y plant eu barn ar y diwrnod. Roedd plant a fynychodd o 3 oed i fyny. Mae gan lawer o'r bobl ifanc a fynychodd ADY, a mynychodd llawer ysgolion Arbennig Greenfields. Angen mwyaf cyffredin y plant oedd Clwb ar ôl Ysgol.

Roedd gweithgareddau yn ystod y dydd yn cynnwys castell bownsio, bowls dan do, cyrlio, saethyddiaeth feddal, a sgitlau roedd y rhieni yn gallu ymuno ynddynt â'u plant. Roedd saethu targed pêl-droed, pêl-fasged bach, tenis bwrdd, pŵl a phêl-swingio, a chafodd pawb fwyd a diod am ddim, oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rheini a fynychodd. Roedd derbyniad da i'r holl weithgareddau a gafwyd ac a ddefnyddiwyd, a'r castell bownsio yn fwyaf poblogaidd ac yn cael ei ddefnyddio gan blant o bob oed. Nododd yr arsylwr fod:

*"Plant yn chwarae'n ardderchog â'i gilydd ac ymddangosai eu bod yn gwneud llawer o ffrindiau gwahanol. Nid oedd amser lle roedd unrhyw ddadleuon, roedd y plant yn wych."*

*"Cymerodd y rhieni ran yn y gweithgreddau ac ymuno â'u plant. Fodd bynnag, os oedd plant eraill yn dod ac am chwarae, rhoddodd y rhieni flaenoriaeth i'r plant.*

Ymddangosai'r plant a phobl ifanc eu bod wedi mwynhau'r diwrnod, gan wneud sylwadau fel:

*"Gawn ni gastell bownsio bob dydd?"*
*"Oes rhaid i ni fynd Mam?"*
*"Dw  i wrth fy modd fan hyn!"*


**Arolwg Rhieni/Gofalwyr**

Gweler yr Atodiad am ddata ychwanegol.

Er mwyn ategu data o arolygon y plant arolygodd PAG rieni lleol hefyd. Atebodd cyfanswm o 215 o rieni yr arolwg hwn. Mae dadansoddiad wardiau'r rhieni hyn yn cael ei gyflwyno isod. Cafodd pob ward ar draws y Fwrdeistref Sirol eu cynrychioli yn arolwg y rhieni, a'r swm uchaf (23%) o ymatebion yn dod o Ward Parc, a'r lleiaf o ymatebion (3%) o Ward Dowlais.

Y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd i rieni oedd faint o blant oedd ganddynt. Dywedodd y rhan fwyaf o rieni a ymatebodd (81%) fod ganddynt rhwng 1 a 2 blentyn. Dywedodd 16% o ymatebwyr fod ganddynt rhwng 3-4 plentyn.


Gofynnwyd i rieni wedyn faint o oriau chwarae roedden nhw'n caniatau i'w plant gael:




Yr atebion mwyaf cyffredin ar y cyd oedd 1-3 awr a 4+ awr, gyda 49% o ymatebwyr am bob un. Dim ond 1% o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn caniatáu llai nac un awr o chwarae y dydd. Mae hyn


yn cydberthyn yn bennaf i ymatebion plant i a oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i chwarae, gyda thua 80% o blant yn datgan bod ganddynt naill ai lwyth o amser i chwarae neu ddigon o amser.

Gofynnwyd i rieni a ydynt yn caniatáu i'w plant chwarae'r tu allan ar eu pennau'u hunain, neu gyda ffrindiau, heb oruchwyliaeth oedolyn.





Yr ateb mwyaf cyffredin oedd na fyddai rhieni'n caniatáu i'w plant chwarae'r tu allan heb oruchwyliaeth oedolyn, gyda 65% o rieni'n rhoi'r ymateb hwn. Dywedodd 11% o rieni ie ond yn anaml, dywedodd 17% ie weithiau a dim ond 7% o rieni ddywedodd ie yn aml.

Gofynnwyd i rieni wedyn pa mor aml mae eu plant yn chwarae gyda ffrindiau:





Yr atebion mwyaf cyffredin oedd yn aml a weithiau. Dim ond 1% ddywedodd dim o gwbl a dywedodd 14% yn anaml. Dywedodd tua 84% o rieni fod eu plant yn chwarae gyda'u ffrindiau naill ai'n aml neu weithiau, sy'n cydberthyn i blant yn dweud mai eu gweithgaredd mwyaf cyffredin yw treulio amser gyda ffrindiau.

Gofynnwyd i rieni hefyd pa mor aml mae eu plant yn mynd allan i chwarae bob wythnos:





Er syndod a mewn gwrthgyferbyniad â'r hyn a ymatebodd plant a phobl ifanc, ychydig iawn o rieni a deimlai fod eu plant yn 'ddiogel iawn' yn mynd allan i chwarae, fel y gellir gweld yn y siart isod:




Yr ateb mwyaf cyffredin oedd anniogel, gyda 37% o ymatebwyr yn datgan hyn, wedi'i ddilyn gan 29% o rieni a ddywedodd eu bod yn teimlo'n niwtral yngŷn â'u plant yn chwarae'r tu allan. Dywedodd 18% o rieni eu bod yn teimlo'n anniogel iawn ynglŷn â'u plant yn chwarae'r tu allan. Mae hyn yn golygu bod dros hanner rhieni yn teimlo naill ai'n anniogel neu'n anniogel iawn ynglŷn a'u plant yn chwarae'r tu allan. Mae hyn yn esbonio o bosibl pam na fyddai'r mwyafrif o rieni'n caniatáu i'w plant chwarae'r tu allan heb oruchwyliaeth oedolyn. Mae'n awgrymu hefyd bod rhieni yn bresennol yn y rhan fwyaf o weithgareddau chwarae plant a dim ond nifer fach o blant sy'n chwarae'r tu allan heb oedolyn yn bresennol.

Gofynnwyd i'r rheini a atebodd anniogel iawn ehangu ynglŷn â pham. Yr ateb mwyaf cyffredin oedd fod gan eu plant ADY neu anableddau oedd yn golygu bod angen goruchwyliaeth arnynt. Datganodd ymatebion cyffredin eraill ei bod oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal a phresenoldeb grwoiau ifanc o wrywod yn yfed ac yn cymryd cyffuriau. Rheswm arall a gafodd ei grybwyll oedd fod ffyrdd yn rhy brysur.  Datganodd eraill ei bod oherwydd bod eu plant yn rhy ifanc.

Gofynnwyd i rieni os oedd COVID-19 wedi effeithio ar ba mor ddiogel maen nhw'n teimlo ynglŷn â'u plant yn mynd allan i chwarae.




Dywedodd y mwyafrif 73% naddo, a 27% o rieni'n dweud do. Gofynnwyd i'r rheini a atebodd anniogel iawn ehangu ynglŷn â pham. Roedd atebion yn cynnwys ofn cynyddol am eu plant yn mynd yn sâl, pryderon am gymysgu cymdeithasol, pobl ddim yn dilyn y rheolau a gorfod cysgodi oherwydd bod yn agored i niwed.

Dywedodd un rhiant:

*"Collodd fy mhlentyn 3.5 oed hyder mewn chwarae gydag eraill yn y parc ac ati oherwydd cyfyngiadau symud. Yn bendant yn llawer mwy swil yn awr ac yn ei chael yn anoddach i wneud ffrindiau."*


Cafodd hyn ei adleisio gan rieni eraill, yn benodol dywedodd un fod COVID-19 wedi "gwneud ei [phlentyn] yn ansicr am fynd allan i chwarae neu wneud unrhyw beth. Mae wedi ei gwneud yn feudwyes". Mae hyn yn amlygu sut mae llawer o rieni yn teimlo mae COVID-19 wedi effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol eu plant, gyda rhai yn dweud bod eu plentyn wedi datblygu gorbryder o ganlyniad i ynysu. Crybwyllodd eraill sut, wrth i lawer o leoedd fod ar gau, roedd plant yn chwarae y tu mewn mwy ar ddyfeisiau electronig, ac roedd hyn wedi golygu eu bod yn llai parod i chwarae'r tu allan. Ar y llaw arall, nododd rhai rheini sut roedd gweithio o gartref wedi golygu bod ganddynt ragor a amser i dreulio gyda'u plant, sydd wedi arwain atynt yn chwarae mwy y tu allan.

Gofynnwyd i rieni wedyn pa fath o leoedd maen nhw'n caniatáu i'w plant chwarae neu dreulio amser. Yr ateb mwyaf cyffredin oedd gartref neu yn nhŷ ffrind, wedi'i ddilyn yn agos gan yn yr ardd neu yng ngardd ffrind. Mae hyn yn cydberthyn i arolygon y plant gan mai'r ateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn 'Pa fathau o leoedd ydych chi'n chwarae neu'n treulio amser ynddynt?' oedd yn eu tŷ neu dŷ ffrind. Mae hyn o bosibl oherwydd bod y rhan fwyaf o rieni'n dweud nad ydynt yn teimlo'n diogel am eu plant yn chwarae'r tu allan ac felly mae eu tŷ neu dŷ ffrind yn well ar gyfer chwarae gan eu bod yn teimlo'i fod yn amgylchedd diogelach. Fodd bynnag, ateb cyffredin arall oedd mewn maes chwarae/parc, gyda 122 ymateb. Roedd atebion eraill yn cynnwys mynd ar reidiau beic neu i'r parc sglefrio, gyda 32 ymateb, ar ardal â gwair yn lleol, gyda 44 ymateb, yn y strydoedd yn agos at ein tŷ, gyda 40 ymateb ac ar gae pêl-droed gerllaw, gyda 35 ymateb. Mae hyn yn awgrymu bod rhieni, er gwaethaf pryderon am ddiogelwch yn parhau i chwarae'r tu allan gyda'u plant ac yn gadael iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol y tu allan ar yr amod fod oedolyn yn bresennol. I'r rheini a ymatebodd, 'Rhywle arall', roedd atebion yn cynnwys clybiau chwaraeon fel karate, gymnasteg, dawns, pêl-droed, ar-lein gyda ffrindiau a chlybiau fel Beavers, Brownies a chlybiau drama.

Gofynnwyd i rieni wedyn pa weithgareddau chwarae maen nhw'n canfod sy'n fwyaf poblogaidd gyda'u plant. Yr ateb mwyaf cyffredin oedd bod y tu allan yn gyffredinol neu fynd i'r parc/am dro. Mae hyn yn cydberthyn eto i'r ateb mwyaf cyffredin a roddwyd gan blant a dywedodd hefyd dim ond bod tu allan gyda ffrindiau/mynd i'r parc. Yr ateb mwyaf cyffredin nesaf oedd chwarae pêl-droed gyda 35 ymateb. Gweithgareddau llai poblogaidd oedd dawnsio, clybiau ieuenctid, gwylio'r teledu a phobi/coginio. Ychwanegodd nifer o rieni at eu hymatebion y byddent yn hoffi rhagor o barciau oedd wedi'u cyfarparu'n well ag aparatws diogel ac ardaloedd diogelach i'w plant ddysgu sut i reidio beic. Mae hyn yn awgrymu mai un o'r rhesymau mae rhieni'n teimlo'n anniogel am eu plant yn chwarae'r tu allan yw diffyg cyfleusterau modern ac wedi'u cynnal mewn parciau lleol. Nododd rhai rhieni a grybwyllodd nofio hefyd ddiffyg pyllau nofio ar gael i blant yn yr ardal.

Gofynnwyd iddynt wedyn pa weithgareddau oedden nhw'n canfod yn lleiaf poblogaidd gyda'u plant. Ymatebodd llawer llai o rieni i'r cwestiwn hwn gyda dim ond 38 ymateb, a sawl rhiant yn rhoi yn y sylwadau bod eu plant yn mwynhau'r rhan fwyaf o weithgareddau chwarae. Yr ateb mwyaf cyffredin nesaf oedd chwarae'r tu allan gyda 10 ymateb. Roedd sylwadau ychwanegol yn dod gyda'r atebion hyn yn aml am fod yn well gan eu plant aros y tu mewn a chwarae ar ddyfeisiau electronig. Yr ateb mwyaf cyffredin nesaf oedd mewn parciau lleol, roedd yr atebion hyn eto'n dod gan rieni yn dweud bod hyn oherwydd cyfleusterau gwael. Yn benodol, cafodd Parc Cyfarthfa a Pharc Coffa Aberfan eu crybwyll gan lawer o rieni fel rhai â phrinder cyfleusterau addas. Mae'n werth nodi, er bod parc Cyfarthfa wedi cael buddsoddiad diweddar, mae rhannau o'r parc fel y pad sblasio wedi bod yn segur yn ystod gwanwyn a haf 2021 oherwydd gwaith cynnal a chadw.


Yn olaf, gofynnwyd i rieni a oes gan unrhyw un o'u plant anhawster mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol? (e.e oherwydd anabledd).




Dywedodd y rhan fwyaf o rieni na. O'r 16% o rieni a dywedodd ydi/ydynt, ADY ac anableddau oedd y rhesymau mwyaf.

Roedd atebion yn cynnwys:

*"Mae fy mab yn awtistig, ddim yn siarad, mae ganddo oediad datblygu eang ac anableddau dysgu eraill ac mae ganddo anawsterau synhwyraidd."*
*"Oherwydd yr ASD nid yw'n hoffi ardaloedd gorlawn. Mae'i broblemau synhwyraidd yn gorlwytho ac mae'n mynd yn ofidus."*
*"Mae gan fy mab Syndrom Down ac mae'n cymryd rhan yn y sesiynau pêl-droed ar ddydd Iau ond ar wahân i hynny nid oes dim byd, yn enwedig yn y gwyliau sy'n ofnadwy."*




**Arolwg Rhanddeiliaid**


Fel rhan o'r ADC hwn, arolygodd PAG randdeiliaid lleol hefyd. Cymerodd cyfanswm o 22 unigolyn ran. Y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd i randdeiliaid oedd y sefyllfa oedd yn eu disgrifio orau.

| Dewisiadau Ateb | Ymatebion |
|---|---|
| **Preswylydd lleol** | 4 |
| **Pennaeth Ysgol Uwchradd** | 0 |
| **Pennaeth Ysgol Gynradd** | 2 |
| **Gweithiwr arall mewn lleoliad addysgol (e.e. ysgol, meithrinfa, coleg)** | 1 |
| **Gweithiwr ym maes llywodraeth leol** | 9 |
| **Aelod neu Ymddiriedolwr o sefydliad neu elusen sy'n ymwneud â chwarae** | 1 |
| **Arall (nodwch beth)** | 5 |

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn weithwyr llywodraeth leol a 9 yn cymryd rhan yn yr arolwg. Y grŵp uchaf nesaf oedd preswylwyr lleol â 4 ymatebwr. O'r 5 ymatebwr a atebodd arall, roedd atebion yn cynnwys ymarferydd cyn-ysgol, Cynrychiolydd Ymddiriedolaeth Hamdden a darpariaeth ieuenctid.

Gofynnwyd i randdeiliaid os oeddent yn teimlo bod mannau digonol i blant chware yn eu hardal. Dywedodd 23% o ymatebwyr ydw, o gymharu â 27% a ddywedodd nac ydw. Dywedod 18% o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod. Mae hyn yn dangos diffyg consensws ynghylch a yw rhanddeiliaid yn teimlo bod mannau digonol i blant chwarae ym Merthyr Tudful.

Gofynnwyd i randdeiliaid wedyn os oeddent yn teimlo bod COVID-19 wedi effeithio ar ba mor ddiogel mae plant yn teimlo wrth fynd allan i chwarae.




Y consensws llethol gan 92% o ymatebwyr oedd eu bod yn teimlo nad oedd COVID-19 wedi effeithio ar ba mor ddiogel mae plant yn teimlo wrth fynd allan i chwarae. Mae hyn yn cydberthyn i'r arolwg rhieni gan i'r mwyafrif hefyd ddweud y teimlent nad oedd wedi effeithio ar ba mor ddiogel mae plant yn teimlo pan fyddant yn mynd allan i chwarae. Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn ehangu ar eu hatebion. Adleisiodd dau ymateb bryderon a godwyd yn yr arolwg rhieni ynghylch sut mae'r pandemig wedi effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol plant gyda'r cyntaf yn datgan:

*"Nid yw pobl ifanc yn mynychu clwb ieuenctid ac mae ofn arnynt i wneud hynny. Mae rhai wedi'u cyflyru yn awr i aros gartref ac nid ydyn t am adael yr hyn maen nhw wedi'i adnabod dros y 2 flynedd ddiwethaf. Y rhai sydd wedi mynychu yw'r rhai sydd â rhywbeth adeiladol i'w gyflawni o ganlyniad i fynychu."*


Ehangodd sylw arall ar hyn:

*"Mae'n ymddangos bod plant yn chwarae mwy ar-lein ac mae llai o gyfle wedi bod am chwarae wyneb yn wyneb. O ganlyniad, mae sgiliau cymdeithasol plant yn gyffredinol heb eu datblygu gystal, ac maen nhw'n cael trafferth weithiau i ddatrys gwahaniaethau dros eu hunain."*

Fodd bynnag, teimlai un ymatebwr i'r gwrthwyneb a chredai fod y pandemig wedi golygu bod mwy o bobl yn chwarae allan gan ddatgan:

*"Yn ystod cyfyngiadau symud roedd mwy o blant y tu allan yn chwarae, cerdded a seiclo nac arfer."*

Gofynnwyd i randdeiliaid wedyn yn eu profiad, a yw plant yn wynebu anawsterau mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol? (e.e. oherwydd anabledd).




Yn drawiadol, dywedodd mwyafrif o ymatebwyr ydynt. Y rheswm a grybwyllwyd fwyaf oedd oherwydd ADY neu anabledd a diffyg cyfleoedd chwarae i blant ag DY neu anabledd, sydd yn unol a'r arolwg rhieni. Dywedodd un ymatebwr:

*" Nid yw pob ardal yn hygyrch, ac mae gwybodaeth am anabledd yn gyfyngedig, hynny yw, nid oes darpariaeth ar gyfer golwg neu glyw gostyngol."*


Tra datganodd un arall fod *"diffyg cyfleoedd i blant ag ADY neu gyfleoedd gwael."*

Dywedodd un rhanddeiliad: *"Nid yw rhai'n hoffi chwarae mewn tyrfaoedd, nid yw rhai'n hoffi chwarae ar eu pennau'u hunain. Mae'n rhaid i chi ganfod cydbwysedd o'r hyn maen nhw'n hoffi a ddim yn hoffi."*

Crybwyllodd un rhanddeiliad hefyd faterion ynghylch hygyrchedd ariannol:

*"Mae rhwystrau rhag rhywfaint o chwarae a gweithgareddau (ariannol, trafnidiaeth ac ati) sy'n cael effeithiau negyddol ar blant yn gallu eu cyrchu. Mae hyn yn neilltuol o wir i blant sydd heb symiau enfawr o gymorth rhieni i gyrchu gweithgareddau gwahanol."*

Gofynnwyd i randdeiliaid os ydynt erioed wedi cael adborth neu gwestiynau gan rieni/gofalwyr am y ddarpariaeth chwarae yn eu hardal?




Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr na. Gofynnwyd i'r rheini ddywedodd do fanylu ar y mathau o adborth maen nhw wedi'i dderbyn Roedd atebion yn cynnwys:

*"Mae rhai am i bethau barhau pan nad oes cyllid i wneud hynny. Mae gan rai lawer o ganmoliaeth am y gweithgareddau. Mae eisiau dod i ddigwyddiadau/teithiau rydym yn eu rhedeg ar rai."*


*"Byddai'r bobl ifanc yn hoffi rhywle cynnes a golau i dreulio amser ym misoedd y gaeaf - byddai rhieni'n hoffi cael cyfleuster chwarae i ollwng plentyn - mae gardd gymunedol yn cael ei hystyried â chyfarpar statig posibl."*

*"Diffyg darpariaeth ADY neu gyfleusterau ADY gwael a phryderon ynghylch hyn."*

*"Mae meysydd chwarae'n rhy hen neu beryglus hyd yn oed ac maen nhw wedi gofyn am gyfarpar yn eu lle."*

*"Darpariaeth chwarae annigonol yn gyffredinol. Diffyg cyfleusterau toiled."*

Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid wedyn os oeddent yn teimlo bod unrhyw beth arall y gallai'r Awdurdod Lleol wneud i wella'r cyfleoedd chwarae presennol ym Merthyr Tudful.




Dyweodd y rhan fwyaf o ymatebion oes teimlent fod rhagor y gallai CBSMT fod yn ei wneud. Dywedodd 0% o ymatebwyr nac oes, tra dywedodd dros draean eu bod yn ansicr. O'r rheini a ddywedodd oes, roedd atebion yn cynnwys:

*" Mae'r Awdurdod Lleol wedi cymryd camau gwirioneddol i geisio ymateb i farn plant yn nhermau'r cyfleoedd i chwarae mae'n ei gefnogi a'i gynllunio. Mae gweithio da mewn partneriaeth. Mae cynnal yr ymgysylltu â phlant a rhanddeiliaid yn hanfodol."*

*"Mwy o fuddsodiad mewn arweinyddiaeth chwarae, chwarae sefydlog a chyfarpar gwell, rheolaeth helaethach i greu gofodau diogelach, opsiynau mwy dychmygus.*

*Cyllid ychwanegol ar gyfer cyfarpar, staff arbenigol. Cyfleoedd hefyd ar gyfer mynediad am ddim i gyfleusterau hamdden am ddarpariaethau ieuenctid i fynd â phobl ifanc bob wythnos neu bythefnos. Man lle gallem fenthyg cyfarpar i'w ddefnyddio am sesiwn untro neu gwpl o sesiynau fel llyfrgell fenthyg ar gyfer darpariaethau."*

*"Cyfleoedd adeg tymor i greu cynaliadwyedd i deuluoedd tlotach sydd ddim yn ardaloedd Dechrau'n Deg."*

Yn olaf, gofynnwyd i randdeiliaid os oedd ganddynt unrhyw sylw arall. Datganodd ymatebion y dylai ardaloedd chwarae digonol fod yn flaenoriaeth ym mhob ardal, datganodd un arall fod angen cyfranogaeth helaethach yn yr amgylchedd naturiol, tra yr ymatebodd un arall:

*"Mae angen mannau diogel ar blant i chwarae, mae hyn yn fwy gwir yn awr nac erioed lle mae strydoedd yn llawn o geir wedi'u parcio ac mae cyfleoedd am chwarae digymell wedi'u lleihau".*

## 5. Uchafu Adnoddau

Mae gan yr Awdurdod Lleol fformat wedi'i ddatblygu'n dda a phroses o ddosbarthu grantiau a buddsoddiad blaenorol a phresennol i gynllun gweithredu'r PSA. Mae'r enghreifftiau isod yn benodol i'r cynllun gweithredu.

**<u>Cyllid ar gyfer Cyfarpar Chwarae Sefydlog ac Ardaloedd Chwarae Mynediad Agored</u>**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgymryd yn ddiweddar ag arolwg o gyfarpar chwarae sefydlog ac wedi dechrau gweithredu rhaglen 5 mlynedd dreigl, fydd yn adnewyddu'r rhan fwyaf o ardaloedd a safleoedd chwarae sefydlog, yn enwedig y rheini sydd wedi bod yn eu lle ers y 1990au a sydd ag angen sylw arwyddocaol. Mae £280,000 wedi cael ei wario mor belled ar bedwar safle newydd fel rhan o'r rhaglen £580,000.

Rhoddwyd £50,000 i'r Awdurdod Lleol hefyd i wario ar ddatblygu parciau llai, oedd yn cael eu hanwybyddu ac enillodd adnoddau i wella'r parciau hyn oedd wedi bod yn brin o fuddsoddiadau yn flaenorol. Paratodd yr Awdurdod lleol raglen o ddigwyddiadau gyda'r cyllid hwn mewn golwg; fodd bynnag, mae hyn wedi dod i ben oherwydd Covid-19 ac mae'r arian hwn wedi cael ei fuddsoddi yn hytrach yn y parciau. Mae pedwar allan o'r pum parc hyn wedi gwella gydag un yn ennill graddfa Baner Werdd.

Yn ogystal, mae Cyllid Partneriaeth Natur Lleol gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio i weithredu tri phrosiect yn llwyddiannus, yn cynnwys Parc Trelewis, gan ddatblygu ardaloedd gwlyptir, creu seddi ychwanegol a llwybr troed, drysfa helyg a gardd rhoddion natur. Cafodd £140,000 ei ddarparu hefyd i Ysbyty'r Tywysog Charles sy'n cynnwys rhwydwaith o lwybrau troed a seddi.

Cafodd tua £3,000 ei ddarparu hefyd gan y Tîm Chwarae i'r adran Barciau wario ar gyfarpar chware; roedd hyn yn cynnwys cyfarpar chwarae cerddorol y tu allan.

Blaenoriaeth barhaol ar gyfer 2022 fydd buddsoddi mewn cyfarpar chwarae sefydlog ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.

**<u>Trosolwg o Gyfarfod Diweddaraf y Grŵp Llywio Chwarae</u>**

Yn nhrafodaethau diweddaraf y Grŵp Llywio Chwarae yn Chwefror 2022, cafodd diweddariad ei ddarparu ar y prosiect chwarae sy'n cael ei gynnal â Chwarae Cymru. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) wedi gofyn i Chwarae Cymru weithio yn ei ranbarth ar brosiectau chwarae penodol yn yr awyr agored. Fel rhan o hyn, mae BIPCTM wedi gofyn i Chwarae Cymru gynnal cynllun peilot ac ymchwilio i brosiectau chwarae stryd yn BIPCTM. Mae'r ysgolion canlynol wedi cael eu dewis mewn cysylltiad â'r adran Addysg i gynorthwyo'r prosiect a dylanwadu ar ysgolion eraill, yn seiliedig ar eu derbyngarwch a'u potensial i gyflawni:

- Ysgol Gynradd Pantysgallog
- Ysgol Gynradd Gellifaelog
- Ysgol Gynradd St Aloysius
- Ysgol Gynradd Goetre
- Ysgol Gynradd Gymunedol Coed-Y-Dderwen

Cafodd diweddariad ar gyllid ei roi hefyd yn y cyfarfod. Cafodd CBSMT gynnig am £58,148 mewn cyllid cyfalaf wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a £10,000 mewn arian refeniw oiedd wedi'i fwriadu i gyllido cynlluniau gwyliau Chwefror a'r Pasg. Nododd y Cyngor fod cynigion wedi cael eu derbyn am bron dwbl y swm ar gael (£108.110) gan arwain at benderfyniadau anodd ynghylch pa gynigion i'w cefnogi.

Mae saith prosiect ledled y wlad yn cael eu cefnogi yn awr o ganlyniad i'r cyllid hwn, gan gynnwys meysydd ysgol Bedlinog, Greenfield, Uwchradd Cyfarthfa ac Ysgol y Graig, Cymryd Rhan, Hyb Cymunedol Twyn a chylchfannau hygyrch ar gyfer yr adran Parciau.

Yn ogystal, ar adeg y cyfarfod roedd cynnig i ddatblygu'r ganolfan gymunedol yn nhermau diogelwch a system boeler ar y gweill. Roedd y Rhwydwaith Rhieni hefyd wedi derbyn grant ICF i gynorthwyo iechyd meddwl yn ystod y pandemig ac roedd yn ei ddefnyddio ar gyfer pecynnau llesiant mewn cydweithrediad â Head4Arts, gan anelu at ddarparu bag o offer chwarae i blant adnabyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol, Hyb Help Cynnar ac asiantaethau lleol, yn ogystal â cheisio partneriaid ar gyfer y dyfodol i helpu cyflenwi'r pecynnau hyn.

**Haf o Hwyl**

Cafodd y cyllid ar gyfer Haf o Hwyl Merthyr Tudful ei ddosbarthu i'r awdurdod fel rhan o Grant Cyfle Chwarae Cymru Gyfan, yn dod â'i delerau ac amodau ei hun ac yn amodol ar werthusiad annibynnol cenedlaethol. Y dyraniad i Ferthyr Tudful oedd £87,000 a galluogodd yr awdurdod i gydlynu cynigion gwasanaethau mewn ymateb i'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Haf (RCGH), y rhaglen Fit and Fed a'r rhaglen Gemau Stryd. Roedd y cynllun i fod i gael ei gefnogi gan ymagwedd ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ac wedi'i gysylltu ag ymgyrch debyg wedi'i harwain gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Oherwydd yr amserlenni cafodd grŵp cynllunio bach ei gynnull i gytuno ar ffyrdd ymlaen yn unol ag amodau'r grant. Yr hyn y cytunwyd i ganolbwyntio arno oedd:

- Cynorthwyo'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau seiliedig ar y gymuned â mynediad agored i blant a phobl ifanc 8 i 25 oed o fewn lleoliadau chwarae ac ieuenctid sy'n bodoli ar draws y fwrdeistref sirol

- Cynorthwyo mynediad at ofal plant cofrestredig yn ariannol mewn amrediad o ddarparwyr ar draws y fwrdeistref sirol gan gynorthwyo plant ag anableddau fel y mabwysiadwyd yn ystod cyfyngiadau symud Covid.

- Cynorthwyo teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn cymorth Tîm o gwmpas y Teulu yn ariannol i gyrchu gofal plant.

**Darparu'r Rhaglen**

Yn ystod y Prosiect Rhaglen Haf o Hwyl, ymgysylltwyd ag 17 darparwr, â nod o ymgysylltu ag 841 o blant a phobl ifanc, aed ymhellach na'r nod wrth i'r cynllun ymgysylltu â 1,242. Roedd 117 o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg a chymerodd 96 o blant a phobl ifanc ag ADY ran. Gofynnwyd i'r holl ddarparwyr hefyd gwblhau gwerthusiad Llywodraeth Cymru ac ar adeg ysgrifennu roedd 14 o'r 17 o ddarparwyr wedi ymateb; dangosodd hyn y canlynol.

- Y dadansoddiad rhywiau oedd tua 52% bechgyn a 48% merched
- Disgrifiodd darpariaethau eu darparu fel 21% yn cynnig rhywfaint o wasanaeth dwyieithog, 7% cyfrwng Cymraeg a'r gweddill yn ddarpariaeth cyfrwng Saesneg
- Roedd 42% o'r ddarpariaeth a gomisiynwyd yn newydd ar gyfer yr haf a'r gweddill yn estyn cynnig eu gwasanaeth ac ar gyfer 28% o ddarparwyr galluogodd yr adnodd hwn iddynt gaffael arbenigedd penodol.
- Disgrifiodd darparwyr (43%) eu hunain yn cynnig cymysgedd o chwaraeon, chwarae, a gweithgareddau diwylliant a 14% ychwanegol yn cynnig gweithgaredd diwylliant yn unig
- Ymgysylltodd 21% o wasanaethau hefyd â rhieni yn ystod yr haf trwy weithgareddau teulu.

Cafodd plant a phobl ifanc fudd mewn llawer o ffyrdd. Roedd pob gweithgaredd am ddim a gwnaethant ddarparu amrywiaeth o brofiadau chwarae cadarnhaol oedd yn cyfoethogi a chyfleoedd i blant a phobl ifanc helpu i wella'u creadigrwydd a hunanhyder a datblygu'u sgiliau perthnasoedd â'u cyfoedion. Roedd sylwadau gan ddarparwyr, rhieni a phlant a phobl ifanc yn cynnwys:

*"Galluogodd y cyllid Haf o Hwyl a dderbyniom ni i adeiladu ar fuddsoddiad AWPOG blaenorol ym mhryniant offerynnau cerddorol a chyflwyno sesiynau Cerddoriaeth a Symudiad a hefyd sesiynau Gweithdy Drymiau ac Offer Taro."*

*""Rydych chi wedi rhoi'r gwyliau 6 wythnos gorau erioed i'r plant, maen nhw wedi gwneud atgofion fydd yn parhau am byth!"*

*"Roeddwn i'n nerfus iawn pan gyrhaeddais i ond dw i wedi gwneud llwyth o ffrindiau ac wedi cael yr hwyl gorau erioed."*

Cryfhaodd y cynllun gysylltiadau partneriaeth a darparwyr chwarae presennol a ffurfiodd bartneriaethau newydd a darparwyr chwarae newydd yn yr ardal. Mae'r cynllun hwn wedi cynorthwyo cynllun y ADC i ymgysylltu a gweithio â darparwyr yn y sector a datblygu proses sicrwydd ansawdd. Elwodd darparwyr chwarae lleol yn enfawr o'r buddsoddiad ac roeddent yn gallu cynnal neu dyfu eu darpariaeth.

Yn gadarnhaol, arweiniodd yr ymagwedd gynllunio gydweithredol at ymgyrch lwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol, a bydd gwaddol hynny'n cael ei adeiladu arno wrth gyflwyno Gaeaf Llesiant.

Mae detholiad o sut y cafodd y cyllid hwn ei ddefnyddio gan bartneriaid yn cael ei ddarparu isod:

**Cynorthwyo Plant a phobl Ifanc ag ADY ac anableddau**

Defnyddiodd Tîm Plant ag Anableddau CBSMT arian Haf o Hwyl i sicrhau y cafodd pobl ifanc y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, o fewn y gymuned a chlybiau ieuenctid yn ystod gwyliau'r haf. Yn ogystal, cafodd lleoedd eu prynu mewn darparwr gofal plant cofrestredig a darparodd gymorth saib i deuluoedd trwy gymorth personoledig i gyrchu gweithgareddau cymunedol. Adeiladodd yr ymagwedd ar waith blaenorol yn ystod covid a golygai nad oedd teuluoedd yn wynebu'r pwysau ariannol o gyrchu gwasanaethau. Cynorthwyodd yr ymagwedd hon 30 o blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a 4 ag anableddau corfforol.

Cydweithiodd**Ymddiriedolaeth Datblygu 3Gs** â Cherdd Gymunedol Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu rhaglen o weithgareddau creadigol dros wyliau'r haf i bobl ifanc a theuluoedd yn y Clinig Creadigol yn y Gurnos. Cafodd y dosbarthiadau eu cynnal i ddarparu amgylchedd hwyliog a diogel lle gallai plant ddysgu sgiliau newydd a gwella gweithgaredd corfforol. Ymgysylltodd gweithgareddau â thros 100 o blant a phobl ifanc gan gynnwys:

- Sesiynau roc / pop ac ysgrifennu caneuon
- Cynhyrchu cerddoriaeth ddigidol
- Cerddoriaeth yn y parciau
- Dawns Stryd

Gweithiodd **Cymdeithas Tai Merthyr Tudful** â Chwarae Cymru i adeiladu ar y gwaith peilot i ddatblygu ymagweddau cau strydoedd trwy ddarparu chwarae stryd mewn tair stryd – Navigation Close, Treharris, Thomas Dyke Close, Penydarren a Glynne Jones Court, Dowlais. Parhaodd y sesiynau hyn am 1awr a 30 munud a chawsant eu lleoli ar gerrig drysau eu cyfranogwyr. Amrywiai gweithgareddau o gemau parasiwt, gemau traddodiadol fel "hwyaden, hwyaden gwydd," esgil, celf sialc, saethyddiaeth, lliwio crysau, brwydrau dŵr, hwyl swigod, a chodi sbwriel a chynorthwyodd y 40 o blant a gymerodd ran.

**<u>Diffygion</u>**

Er bod yr Awdurdod Lleol wedi uchafu'r grantiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ers y ADC diwethaf (e.e. y rheini a ddefnyddiwyd ar gyfer Haf o Hwyl a Gaeaf Llesiant) ac wedi gweld effaith gadarnhaol o allu cynnal digwyddiadau chwarae ychwanegol o fewn ei gymuned, mae'r digwyddiadau hyn yn bosibl oherwydd y cyllid hwn yn unig. Mae'r ansicrwydd ynghylch cyllid rheolaidd, wedi'i waranatu yn golygu nad yw'r Awdurdod Lleol yn gallu cynllunio'n arwyddocaol y tu hwnt i'r grant Gwaith Chwarae gwyliau, sydd er yn cael ei wethfawrogi yn fach iawn o gymharu â'r rheini a ddarperir i gynlluniau chwarae eraill a grybwyllir uchod.

Awgrymodd yr adborth a dderbyniwyd yn ystod ymgynghori gan rieni fod prinder cyfarpar chwarae sefydlog neu ardaloedd chwarae hygyrch yn eu lle i blant ag ADY neu anableddau o hyd. Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried hyn yn flaenoriaeth am gyllid dros y 2 flynedd nesaf.

Dangosodd adborth o ymgynghori hefyd y byddai rhai plant a phobl ifanc a rhieni yn hoffi gweld cyfarpar chwarae sydd  ar gael i'w fenthyg am ddim o fewn eu cymuned, megis cyfarpar chwarae cerddorol neu gyfarpar chwarae darnau rhydd.

Nid oes proses benodol ar hyn o bryd yn ei lle ar gyfer cau ffyrdd at ddibenion Chwarae. Mae Teithio Gweithredol a'r Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae mewn trafodaeth ar hyn o bryd i ddatrys materion ynghylch sut y bydd hyn yn rhedeg wrth edrych ymaen a sut y bydd hyn yn cael ei gyllido.

# 6. Yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a Chynlluniau Llesiant Lleol

Ers y ADC blaenorol yn 2019, gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr iechyd Cyhoeddus hyrwyddo chwarae plant a sicrhau bod yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a Chynllun Gweithredu yn cyfrannu at ac yn cael eu hymgorffori o fewn y Cynllun Llesiant. Digwyddodd yr adnabyddiaeth hon cyn y pandemig ac mae angen i hyn gael ei adolygu. Mae cynlluniau Byrddau Gwasanaeth Lleol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ac edrychir arnynt i sicrhau ymgorffori chwarae.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi newid sut mae'n gweithio er mwyn darparu ei 4 amcan llesiant yn well :

Diagram 2: Amcanion Llesiant (Ffynhonnell: https://www.merthyr.gov.uk/media/8049/statement-of-well-being-2022.pdf)

| Well being Theme | Objective | Primary Outcome |
|---|---|---|
| Best Start | Children and young people get the best start to life and are equipped with the skills they need to be successful learners and confident individuals. | Improve the educational outcomes for all children and young people |
| Working Life | People feel supported to develop the skills required to meet the needs of businesses, with a developing, safe infrastructure which makes Merthyr Tydfil an attractive destination. | Developing the environment and infrastructure for businesses to flourish |
| Environmental Well-being | Communities protect, enhance, and promote our environment and countryside. | Maximise the amount of material and resources reused and recycled in line with the waste hierarchy |
| Living Well | People are empowered to live independently within their communities, where they are safe and enjoy good physical and mental health. | Ensure people are able to live independently and safely within their communities |

Nid yw'r amcanion llesiant hyn wedi newid ers 2018 ond maen nhw wedi datblygu rhagor o ffocws. Mae CBSMT yn parhau'n hyderus fod yr amcanion llesiant yn gosod y sylfaen ar gyfer Cynllun Cyngor effeithiol. Mae gan y Tîm Chwarae ran arwyddocaol yn narpariaeth Cychwyn Gorau, amcanion Llesiant Amgylcheddol a Byw'n Dda.

Mae'r amcanion llesiant yn ceisio sicrhau gwelliannau parhaol a theg yn llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol plant a phobl ifanc ac oedolion sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r ffocws yn parhau ar gynorthwyo pobl pan fydd ei angen arnynt fwyaf a'u harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau bodlon. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy newid ymagwedd y Cyngor i ganolbwyntio ar y 5 ffordd o weithio fel y datgenir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Diagram 3 – 5 Ffyrdd o Weithio




Mae'r amcanion llesiant wedi cael eu paratoi ac maen nhw'n cael eu darparu ar adeg o her a newid; yn enwedig mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws ac wrth i'r Fwrseistref Sirol drawsnewid at adferiad. Nid yw gwneud pethau gwahanol, gwneud defnydd gwell o asedau ac adnoddau CBSMT a

gweithio'n glyfrach, nid yn galetach erioed wedi bod mor bwysig. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ddiogelu llesiant plant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful yn awr ac i'r dyfodol.

Mae'r Cyngor yn adolygu ac adnewyddu ei Gynllun Llesiant Corfforaethol i sicrhau bod CBSMT yn parhau i ateb anghenion ei gymunedau. Bydd y canfyddiadau o ymgysylltu ac ymgynghori a gafodd eu gwneud o fewn y rhanbarth yn cael eu defnyddio i adeiladu ar hyn. Bydd y Cyngor hefyd yn cynhyrchu ei 'Adroddiad Hunanasesu' cyntaf i ateb ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) newydd 2021. Bydd yr adroddiad hwn yn cymryd lle'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

Fel y datganwyd yn Natganiad Llesiant 2022, mae llesiant plant a phobl ifanc o'r pwys mwyaf, hyd yn oed mwy felly wrth i ni symud allan o'r pandemig coronafeirws. Pan fydd gan blant a phobl ifanc iechyd a llesiant gwell maen nhw'n fwy tebygol o ddysgu ac yn y pen draw cyflawni safonau academaidd gwell. Mae codi safonau cyrhaeddiad yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ond mae'n rhaid gosod hyn yng nghyd-destun adferiad ar ôl y pandemig a gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys trwy sicrhau bod darpariaeth chwarae ddigonol ar waith i gyfoethogi dysgu'r plant yn gyfannol. O'r cyfle cynharaf posibl, rydym yn cydnabod yr angen i weithio â theuluoedd i sicrhau bod ein plant yn cael y cymorth gorau i gael eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyrraedd eu nodau a'u potensial academaidd. Mae'n bwysig i sylweddoli bod yr uchelgais hon yn fusnes i bawb, a bydd Chwarae yn cydweithio â lleoliadau Blynyddoedd Cynnar; teuluoedd, lleoliadau ieuenctid, ysgolion, a phartneriaid ehangach, pob un ohonynt â rôl allweddol mewn cynorthwyo'n plant i gyflawni'r Dechrau Gorau un i Fywyd.

Yn ogystal, mae'n cael ei dderbyn yn eang bod gwerth i ysgolion hyrwyddo iechyd a llesiant ymhlith disgyblion. Mae disgyblion â iechyd a llesiant gwell yn fwy tebygol o fod yn barod i ddysgu a chyflawni'n well yn academaidd. Mae'r amcan llesiant Dechrau Gorau yn cynnig ymagwedd gyfannol a chynaliadwy at ddiwallu anghenion llesiant plant a phobl ifanc. Er bod yr ymagwedd hon yn bwysig i bob plentyn, bydd o fudd neilltuol i blant sy'n wynebu anfantais neu sydd â risg uchel o ganlyniadau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae Chwarae yn gweithio â'i bartneriaid tuag at y prif ganlyniadau ar gyfer Dechrau Gorau i Fywyd:

- Gwella'r canlyniadau addysgol i'r holl blant a phobl ifanc
- Plant yn byw mewn amgylchedd cartref meithringar ac ysgogol
- Plant yn cael mynediad at addysg cyn-ysgol ac ysgol o ansawdd uchel
- Plant a phobl ifanc yn cael iechyd a llesiant emosiynol da

Mae amgylchedd a chefn gwlad naturiol iach yn darparu llawer o fuddion i bobl a bywyd gwyllt o ansawdd aer, dŵr a thir gwell, diogelu cynefin a bioamrywiaeth well i oblygiadau buddiol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol (Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol 2014-15; Cwrs Bywyd, Gofod gwyrdd ac iechyd, 2016). Ffocws yr amcan llesiant Amgylcheddol yw'r gwaith mae'r Cyngor yn ei wneud â'i gymunedau i ddiogelu, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad. Mae'r amgylchedd yn cael ei ddifinio fel cefn gwlad a phob man gwyrdd (amgylchedd naturiol) a lleoliadau trefol (amgylchedd trefol) o fewn y Fwrdeistref Sirol.  Mae'r diffiniad eang hwn o'r amgylchedd yn cydnabod pwysigrwydd natur mewn amgylcheddau gwledig yn ogystal a threfol.

Y prif ganlyniadau, y bydd cyflwyno Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored a Mannau Agored ar eu cyfer yn hollbwysig, ar gyfer Llesiant Amgylcheddol yw:

- Mae gan dreulio amser mewn mannau gwyrdd neu naturiol fuddion gwych i lesiant corfforol a meddyliol.
- Mae gan Ferthyr Tudful seilwaith gwyrdd bioamrywiol a chysylltiedig a mannau agored o ansawdd da.

Mae'r amcan Byw'n Dda, yn ceisio sicrhau bod 'pobl yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau, lle maen nhw'n ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da', gan ganolbwyntio ar dri phrif ganlyniad:

- Pobl yn byw'n annibynnol o fewn eu cymunedau
- Plant ac oedolion yn cael eu diogelu rhag niwed ac yn teimlo'n diogel
- Plant a phobl ifanc yn byw'n ddiogel â'u teulu neu'n agos at gartref ac wedi symud i fod yn oedolyn yn dda.

Mae'r canfyddiadau o'r ADC hwn yn dangos bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael eu gwneud i deimlo'n ddiogel wrth chwarae'r tu allan; fodd bynnag, mae gwaith partneriaeth i'w wneud o hyd i sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu gan rieni a gofalwyr o fewn cymunedau CBSMT.

**<u>Llesiant Cwm Taf</u>**

Mae Cynllun Llesiant rhanbarthol Cwm Taf 2018 i 2023, yn datgan bod: *“Plant yn treulio llai o amser y tu allan ond mae mynediad at fannau chwarae diogel, naturiol wedi cael ei ddangos i wella llesiant corfforol ac emosiynol plant".* Mae'n mynd ati i adnabod amrediad o faterion ar draws themâu llesiant diwylliannol, amgylcheddol, cymdeithasol a meddyliol y gellid mynd i'r afael â hwy trwy ddiogelu a gwella cyfleoedd pobl i chwarae. Maen disgrifio ymagwedd seiliedig ar asedau hefyd sydd wedi'i halinio â nodau'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yn nhermau diogelu a gwella asedau cymunedol ar gyfer chwarae, â gweledigaeth dymor hir o ddatblygu: "dealltwriaeth well o'n hasedau naturiol a sut mae'n gweithredoedd yn cael effaith arnynt." Ers i'r Cynllun Gwelliant gael ei ysgrifennu, mae COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar sut mae plant yn chwarae, a fanylir ymhellach yn Adran 8, ac er, o ganfyddiadau'r ymgynghoriad ei bod yn ymddangos bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn treulio mwy o amser y tu allan mewn mannau agored, mae wedi cael effaith ar lesiant corfforol ac emosiynol plant a phobl ifanc heb amheuaeth ac mae hynny'n rhywbeth y bydd angen ei fonitro'n ofalus o bersbectif Chwarae yn ogystal a Llesiant.

Cafodd yr asesiad amghenion llesiant a gyflawnwyd yn 2021 (ac a fydd yn cael ei ddefnyddio yng nghynlluniau'r dyfodol) ei gynnal ar draws Cwm Taf Morgannwg (CTM). Dylid nodi bod CwmTaf Morgannwg yn cynnwys 3 ardal Awdurdod Lleol, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Cyn gynted ag y byddant wedi'u ddadansoddi, bydd asesiadau anghenion 2021 yn cael eu defnyddio i lunio cynllun llesiant corfforaethol CTM a chynlluniau strategol eraill, fydd yn cael eu hystyried wrth adolygu Cynllun Gweithredu'r ADC. Bydd hyn yn cynnwys Strategaeth Pwysau Iach, y bydd y Bwrdd Iechyd Cyhoeddus yn annog cynrychiolaeth y Tîm Chwarae ar y grŵp llywio ynddi.

**Diffygion**

Er bod cynllun Ffocws ar Lesiant y Dyfodol CBSMT[1] yn cysylltu Chwarae yn uniongyrchol â rhan hanfodol i'w chwarae yn narpariaeth yr amcan Dechrau Gorau i Fywyd , ni chrybwyllir y Tîm Chwarae na'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yn benodol yn unrhyw un o'r 3 amcan, er eu bod yn cydweithio i gynorthwyo'r amcanion Amgylcheddol a Byw yn Dda. Mae'r cynllun yn methu cydnabod sut y gallai gwella amodau ar gyfer chwarae helpu mynd i'r afael â blaenoriaethau'r cynllun.

**Argymhelliad: Dylai'r Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae adolygu cynllun llesiant corfforaethol Cwm Taf Morgannwg a ddiweddarwyd a chynlluniau strategol eraill, pan yn barod, wrth asesu effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu.**

[1] https://www.merthyr.gov.uk/media/8051/focus-on-the-future-wellbeing-in-our-communities-2022-2023.pdf

# 7. Monitro Digonolrwydd Chwarae

Cafodd y Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae ei sefydlu yn 2013 o ganlyniad i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae. Mae'r Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae yn darparu seilwaith strategol i sicrhau bod chwarae yn cael ei gydnabod o fewn prif strategaethau a pholisïau o fewn yr Awdurdod Lleol a bod gyriant strategol clir i wella cydlyniad er budd gwella cyfleoedd chwarae plant ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae wedi diffinio'r Cylch Gorchwyl, cynrychiolaeth ar draws cyfawyddiaethau, cynrychiolaeth o Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau trydydd sector eraill a mecanweithiau adrodd clir yn eglur. Mae aelodau o'r grŵp llywio wedi dyrannu meysydd cyfrifoldeb cysylltiedig â'r Materion PSA yr ymdrinnir â hwy yn y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae ac yn cydweithio i ddatblygu ac adrodd ar weithredoedd sy'n gysylltiedig â'u maes cyfrifoldeb.

Mae'r grŵp yn cyfarfod yn chwarterol ac yn monitro cynnydd y Cynllun Gweithredu Asesu Digonolrwydd Chwarae blynyddol. Mae'r Rheolwr Parth Cymunedol a Dysgu yn gyfrifol am gadeirio'r cyfarfodydd ac mae cofnodion cynhwysfawr yn cael eu dosbarthu i bob aelod ynghyd ag agenda fanwl cyn pob cyfarfod. Budd cyfarfod grŵp o'r fath yw'r gallu i ennill persbectifau amrywiol ac i ddeall y ffordd mae pob adran a sefydliad yn gweithio ynddi, eu blaenoriaethau a bod unrhyw ddatblygiadau newydd sy'n digwydd yn cael eu rhannu. Mae cyfrifoldeb dros y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae wedi'i leoli'n dda mewn Llesiant Cymunedol ochr yn ochr â gwasanaethau cymorth ieuenctid, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Pharthau Cymunedol.

Mae rhestr lawn o aelodaeth grŵp llywio chwaraer Awdurdod Lleol i'w chanfod isod:

| Aelod | Teitl | Atebolrwydd o dan Faterion yn PSA |
|---|---|---|
| **Chris Hole** | Pennaeth Gwasanaeth CBSMT | |
| **Lisa Mytton** | Cynghorydd CBSMT - Pencampwr Plant | |
| **Diane Jones** | Rheolwr Parth Cymunedol a Dysgu CBSMT | Pob un |
| **Julia Lewis** | Swyddog Chwarae CBSMT | Pob un |
| **Robert Barnett** | Adran Parciau CBSMT | Mater C: Mannau ar gael i blant chwarae |
| **Lillie Bramley** | Rheolwr Safle Glynmill | Mater B: Darparu ar gyfer anghenion amrywiol |
| **Tom Bramley** | Mannau Agored a Thirwedd CBSMT | Mater C: Mannau ar gael i blant chwarae |
| **Dan Bufton** | Datblygu Hamdden a Diwylliant | Mater D: Darpariaeth dan oruchwyliaeth |
| **Kate Gray** | Datblygu Chwaraeon | |
| **Stacey Chamberlain** | Swyddog Blynyddoedd Cynnar a Datblygu Gofal Plant CBSMT | Mater D: Darpariaeth dan oruchwyliaeth<br>Mater F: Mynediad at le/darpariaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mater G Sicrhau a datblygu'r gweithlu<br>Mater I: Chwarae o fewn gweithlu agendâu pob polisi a gweithredu perthnasol |
| **Helen Walters** | Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg | Mater I: Chwarae o fewn agendâu pob polisi a gweithredu perthnasol |
| **Lisa Emerson** | Eiddo ac Ystadau, Gwasanaethau Cymdogaeth CBSMT | Mater C: Mannau ar gael i blant chwarae<br>Mater I: Chwarae o fewn agendâu pob polisi a gweithredu perthnasol |
| **Helen Griffiths** | Swyddog Mynediad a Derbyniadau Ysgolion CBSMT | |
| **Judith Jones** | Gwasanaethau Cynllunio a chymdogaeth CBSMT | |
| **Julie Powell Jones** | Cydlynydd Lleoliadau Addysg Iach, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg | |
| **Joanne Webb** | Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg | Mater I: Chwarae o fewn agendâu pob polisi a gweithredu perthnasol |
| **Helen Lang** | Gwasanaethau Cymdeithasol CBSMT | Mater B: Darparu ar gyfer anghenion amrywiol |
| **Jenna Hughes** | Cydlynydd Cymorth Busnes Gofal Plant – Cymryd Rhan | |
| **Marianne Mannello** | Dirprwy Gyfarwyddwr – Chwarae Cymru | |
| **Amy McNally** | Diogelwch Cymuned/Priffyrdd a Pheirianneg, Adfywio Cymunedol CBSMT | Mater F: Mynediad at fannau/darpariaeth |
| **Sarah Ostler** | Cydlynydd Dechrau'n Deg | Mater D: Darpariaeth dan oruchwyliaeth<br>Mater F: Mynediad at fannau/darpariaeth<br>Mater G Sicrhau a datblygu'r gweithlu<br>Mater I: Chwarae o fewn agendâu pob polisi a gweithredu perthnasol |
| **Kelly Palmer** | Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd CBSMT | Mater C: Lle ar gael i blant chwarae<br>Mater F: Mynediad at fannau/darpariaeth |

| | | |
|---|---|---|
| **Sarah Williams** | Uwch Weithiwr Ieuenctid - Cartrefi Ynysowen (Gurnos) | Mater D: Darpariaeth dan oruchwyliaeth<br>Mater H: Ymgysylltu a chyfranogaeth gymunedol |
| **Matthew Davies** | Tîm Anabledd Plant CBSMT | Mater B: Darparu ar gyfer anghenion amrywiol |
| **Jane Sellwood** | Llesiant Merthyr – Rheolwr Gweithrediadau Llesiant | Mater I: Chwarae o fewn agendâu pob polisi a gweithredu perthnasol |
| **Nigel Sheppard** | Uwch Swyddog Ieuenctid a Chymuned CBSMT | Mater D: Darpariaeth dan oruchwyliaeth<br>Mater H: Ymgysylltu a chyfranogaeth gymunedol |
| **Lisa Clement Williams** | Teithio Gweithredol CBSMT | Mater F: Mynediad at fannau/darpariaeth |

**<u>Diffygion</u>**

Yr heriau a wynebwyd o fewn y grŵp yw swyddogion ddim yn gallu neilltuo amser bob amser i fynychu cyfarfodydd perthynol i ddigonolrwydd chwarae ar ben eu beichiau gwaith cynyddol o ganlyniad i dimau llai. Yn ogystal, mae diffyg capasit arweinydd chwarae'r Awdurdod Lleol yn destun pryder.

Mae'n anodd hefyd i barhau i fonitro Cynllun Gweithredu yn flynyddol pan fo absenoldeb unrhyw gyllid wedi'i gynllunio'n rheolaidd, neu ddiffyg ymwybyddiaeth o pan fydd y cyllid hwn yn debygol o gael ei dderbyn, i fynd i'r afael â gweithredoedd tymor hirach.

# 8. Mewnwelediadau o'r Pandemig

Mae'r pandemig COVID-19 heb os wedi cael effaith ar fywydau plant a phobl ifanc ledled Merthyr Tudful a bydd effeithiau hyn yn parhau i gael eu teimlo yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Y ffocws mewn rhoi'r gweithredoedd o'r Gweithredu 2022 ar waith fydd cydblethu adferiad COVID-19 i bod gweithred berthynol i chwarae a gymerir er budd llesiant meddyliol a chorfforol plant a phobl ifanc ac i barhau i weithio tuag at flaenoriaethau CBSMT.

Yn anffodus, cafodd rhai o'r gweithredoedd arfaethedig o'r PSA blaenorol eu heffeithio'n negyddol oherwydd oediadau neu darfu oherwydd COVID-19, a mae hyn yn gallu cael ei weld yn y tabl Materion yn yr adran ddilynol. Mae hyn yn cynnwys oediadau i raglenni fel y prosiect peilot Ysgolion Cymunedol a redir â Chwarae Cymru, oedd yn cynnwys cymryd gweithgareddau ychwanegol ar ôl ysgol ac ymgysylltu â rhieni, yn ogystal ag oediadau i raglenni digwyddiadau chwarae ac adnewyddiadau cyfarpar neu ailddatblygu parciau, weithiau oherwydd prinderau llafur.

Ers i gyfyngiadau ddechrau ysgafnhau, mae'r Awdurdod Lleol wedi gallu cynnal digwyddiadau chwarae eto fel yr Haf o Hwyl, Gaeaf Llesiant a Playfest, mae'r adborth cadarnhaol llethol o'r digwyddiadau hyn yn dangos pwysigrwydd y fath weithgareddau i gynorthwyo adferiad o COVID-19 a darparu cyfleoedd cyfoethog i blant chwarae eto, yn enwedig wrth gynorthwyo plant i oresgyn teimladau o fod yn anniogel neu'n bryderus yn gymdeithasol oherwydd y pandemig, a gafodd ei adrodd gan gyfran uchel o blant oed cynradd.

Yn nhermau datblygu hyfforddiant a gweithlu, mae hyn hefyd wedi gweld oediadau oherwydd COVID-19 a'r anallu i redeg hyfforddiant wyneb yn wyneb am nifer o fisoedd. Roedd prinderau staff hefyd yn brif broblem yn ystod y pandemig. Nododd rhai lleoliadau orfod atal eu darpariaeth chwarae o dan do yn ystod y pandemig a gorfod gweithredu â niferoedd gostyngol o staff neu wirfoddolwyr.

Mae canfyddiadau o ymgynghori yn dangos bod y ganran o blant a phobl ifanc sy'n mwynhau ac yn cyrchu gweithgareddau chwarae'r tu allan wedi codi ers y PSA diwethaf, ar draws pob grŵp oedran. Roedd chwaraeon awyr agored hefyd yn boblogaidd iawn fel prif weithgareddau chwarae plant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae cynnydd wedi bod yn y nifer o blant yn cerdded neu'n reidio ar feic, sgwter ac ati i'w mannau chwarae ers y ADC diwethaf, ac adroddodd y rhan fwyaf o rieni a phlant am fwynhau chwarae'r tu allan, cymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan, neu chwarae yn eu tŷ neu ardd eu hunain neu yn nhŷ neu ardd ffrind. Mae'r derbyniad hwn mewn gweithgareddau awyr agored yn gallu bod yn rhannol oherwydd y pandemig a'r angen i fynd allan a bod ym fwy dychmygus mewn perthynas â chwarae oherwydd cau darpariaethau chwarae a mannau hamdden.

I rai plant a phobl ifanc, fodd bynnag, adroddodd rhieni'r effaith i'r gwrthwyneb fod eu plant wedi colli hyder o beidio gallu mynd allan a chymdeithasu ac roedden nhw'n fwy cyndyn yn awr i fynd allan a chyda phlant iau, i wneud ffrindiau. Mae nifer arwyddocaol o rieni'n teimlo bod COVID-19 wedi effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol eu plant, gyda rhai yn dweud bod eu plentyn wedi datblygu gorbryder o ganlyniad i ynysu.

Mae'r farn hon yn cael ei chefnogi gan ddwy draean o Ddarparwyr Chwarae a ddywedodd fod y pandemig wedi cael effaith 'enfawr' neu 'gymedrol' ar eu lleoliad. Nododd darparwyr chwarae mewn rhai achosion, nad yw plant wedi dod yn ôl i chwarae yn eu lleoliad a bod niferoedd wedi syrthio'n

eithafol, yn enwedig â phlant hŷn sydd wedi tyfu dros y pandemig ac sydd â llai o ddiddordeb yn awr yn narpariaeth y chwarae ac wedi peidio mynychu. Mewn cytundeb â rhieni, gwnaethant ddatgan ei bod yn ymddangos bod eisiau rhagor o weithgareddau technoleg ar blant hŷn a nododd darparwyr eu bod yn gorfod trefnu a bod yn fwy creadigol i wrthweithio hynny.

# 9. Materion

**Mater A: Poblogaeth**

**Beth sydd wedi newid yn nhermau poblogaeth a thueddiadau demograffig ers Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2019?**

Mae gan Fwrdeistref Sirol Merthyr Tyudful boblogaeth o tua 60,000; mae hynny'n fwy o bobl fesul km sgwâr na Chymru ar y cyfan. Mae crynodeb byr o'r Fwrdeistref Sirol, mewn cymhariaeth â gweddill Cymru, yn dangos bod gan Ferthyr Tudful y:

- 4edd ganran uchaf o bobl o dan 16 yng Nghymru
- 3edd ganran isaf o bobl dros 65 yng Nghymru
- 2il ganran uchaf o bobl yn hawlio budd-daliadau yng Nghymru
- 3ydd band D treth cyngor uchaf ar gyfartaledd yng Nghymru

(Ffynhonnell: www.mylocalcouncil.info, Chwefror 2022)

Yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020 o Ystadegau Cymru, mae 12,880 o blant 0 i 17 oed yn byw ym Merthyr Tudful, cynnydd o 504 o blant ers 2017. Mae hyn yn cynrychioli ychydig dros 22% o'r boblogaeth gyfan sydd yn unol â'r tueddiadau a nodir yn yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae blaenorol. O'r plant hyn, mae 3494 neu 27% yn 0 i 4 oed (Blynyddoedd Cynnar), gostyngiad o 2% ers y PSA blaenorol. Mae 5331 neu 41% rhwng 5 a 12 oed (y gellid cyfeirio ato fel 'canol plentyndod'), gostyngiad o 4%, gan awgrymu bod y ddemograffeg yn symud tuag at lai o blant iau ac mae 3244 neu 26% rhwng 13 a 17 oed (blynyddoedd yr arddegau neu lasoed) sydd yn unol â ffigurau blaenorol.

Mae tabl i yn amlinellu'r boblogaeth o rai 0-17 oed wedi'i alinio i bob ward yn ardal Merthyr Tudful fel y rhagwelwyd gan yr Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 ar gyfer wardiau 2020 ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr 2021 fesul Blwyddyn Unigol o Oed a Rhyw.

Tabl 1 - Poblogaeth rhai 0–17 oed yn wardiau Merthyr Tudful

| Enw'r ward | Rhai o dan 2 oed | Rhai 2 oed | Rhai 3-4 oed | Rhai 5-7 oed | Rhai 8-11 oed | Rhai 12-14 oed | Rhai 15-17 oed | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bedlinog** | 106 | 39 | 96 | 155 | 199 | 132 | 116 | **843** |
| **Cyfarthfa** | 161 | 103 | 215 | 341 | 437 | 290 | 242 | **1,789** |
| **Dowlais** | 159 | 80 | 171 | 226 | 276 | 226 | 191 | **1,329** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gurnos** | 148 | 72 | 149 | 276 | 361 | 243 | 225 | **1,474** |
| **Ynysowen** | 82 | 50 | 105 | 139 | 180 | 132 | 134 | **822** |
| **Parc** | 76 | 40 | 99 | 111 | 171 | 148 | 129 | **774** |
| **Penydarren** | 134 | 67 | 143 | 273 | 362 | 225 | 211 | **1,415** |
| **Plymouth** | 84 | 50 | 101 | 207 | 241 | 174 | 150 | **1,007** |
| **Y Dref** | 140 | 101 | 169 | 243 | 356 | 290 | 229 | **1,528** |
| **Treharris** | 149 | 66 | 157 | 210 | 274 | 197 | 195 | **1,248** |
| **Y Faenor** | 67 | 43 | 72 | 92 | 140 | 121 | 116 | **651** |
| **Cyfansymiau** | 1,306 | 711 | 1,477 | 2,273 | 2,997 | 2,178 | 1,938 | **12,880** |

Mae Tabl 2 yn dangos dull amgen o alinio'r boblogaeth o rai 0-17 oed i LSOAau.

Tabl 2 - Poblogaeth rhai 0-17 oed yn ardal Merthyr Tudful wedi'u halinio i ward (Ffynhonnell: ONS 2019)

| LSOA | Rhai 0-2 oed | Rhai 3-4 oed | Rhai 5-7 oed | Rhai 8-11 oed | Rhai 12-14 oed | Rhai 15-17 oed | Cyfanswm rhai 0-17 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W01001289 Bedlinog 1 | 48 | 31 | 49 | 58 | 53 | 40 | **279** |
| W01001290 Bedlinog 2 | 97 | 65 | 106 | 141 | 79 | 76 | **564** |
| W01001291 Cyfarthfa 1 | 86 | 46 | 97 | 129 | 85 | 80 | **523** |
| W01001292 Cyfarthfa 2 | 77 | 76 | 107 | 132 | 79 | 62 | **533** |
| W01001293 Cyfarthfa 3 | 52 | 57 | 69 | 88 | 61 | 53 | **380** |
| W01001294 Cyfarthfa 4 | 49 | 36 | 68 | 88 | 65 | 47 | **353** |
| W01001295 Dowlais 1 | 69 | 51 | 63 | 53 | 53 | 46 | **335** |
| W01001296 Dowlais 2 | 43 | 36 | 44 | 63 | 47 | 48 | **281** |
| W01001297 Dowlais 3 | 71 | 41 | 53 | 78 | 66 | 50 | **359** |
| W01001298 Dowlais 4 | 56 | 43 | 66 | 82 | 60 | 47 | **354** |
| W01001299 Gurnos 1 | 83 | 55 | 79 | 114 | 70 | 56 | **457** |
| W01001300 Gurnos 2 | 62 | 40 | 101 | 104 | 77 | 77 | **461** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W01001301 Gurnos 3 | 75 | 54 | 96 | 143 | 96 | 92 | **556** |
| W01001302 Ynysowen 1 | 53 | 45 | 47 | 49 | 41 | 55 | **290** |
| W01001303 Ynysowen 2 | 41 | 31 | 38 | 61 | 48 | 31 | **250** |
| W01001304 Ynysowen 3 | 38 | 29 | 54 | 70 | 43 | 48 | **282** |
| W01001305 Parc 1 | 31 | 18 | 31 | 55 | 39 | 43 | **217** |
| W01001306 Parc 2 | 45 | 33 | 45 | 70 | 54 | 46 | **293** |
| W01001307 Parc 3 | 40 | 48 | 35 | 46 | 55 | 40 | **264** |
| W01001308 Penydarren 1 | 46 | 30 | 75 | 116 | 73 | 57 | **397** |
| W01001309 Penydarren 2 | 43 | 39 | 99 | 92 | 64 | 57 | **394** |
| W01001310 Penydarren 3 | 51 | 35 | 52 | 76 | 42 | 58 | **314** |
| W01001311 Penydarren 4 | 61 | 39 | 47 | 78 | 46 | 39 | **310** |
| W01001312 Plymouth (Merthyr Tudful) 1 | 41 | 23 | 54 | 54 | 43 | 44 | **259** |
| W01001313 Plymouth (Merthyr Tudful) 2 | 33 | 26 | 61 | 70 | 43 | 43 | **276** |
| W01001314 Plymouth (Merthyr Tudful) 3 | 60 | 52 | 92 | 117 | 88 | 63 | **472** |
| W01001315 Y Dref 1 | 65 | 35 | 39 | 50 | 55 | 42 | **286** |
| W01001316 Y Dref 2 | 72 | 49 | 107 | 165 | 122 | 86 | **601** |
| W01001317 Y Dref 3 | 44 | 38+ | 46 | 79 | 70 | 55 | **332** |
| W01001318 Y Dref 4 | 60 | 47 | 51 | 62 | 43 | 46 | **309** |
| W01001319 Treharris 1 | 47 | 46 | 36 | 58 | 41 | 45 | **273** |
| W01001320 Treharris 2 | 43 | 15 | 53 | 55 | 47 | 53 | **266** |
| W01001321 Treharris 3 | 56 | 47 | 58 | 89 | 55 | 60 | **365** |
| W01001322 Treharris 4 | 69 | 49 | 63 | 72 | 54 | 37 | **344** |
| W01001324 Y Faenor 2 | 71 | 47 | 47 | 74 | 74 | 77 | **390** |

Dogfen Llywodraeth Cymru: Mae rhagamcanion poblogaeth Awdurdodau Lleol 2018-2019 i Gymru wedi'u hadolygu (hyd at 2043) yn amlinellu yn gyffredinol, y rhagwelir y bydd poblogaeth ardal Merthyr Tudful yn **cynyddu** o 2.8% rhwng 2018 – 2028.

Yn nhermau rhagolygon poblogaeth ychwanegol, mae'r gronfa Stats Cymru yn rhag-weld (eto, tuedd gynyddol)y bydd:

- Rhwng y cyfnod 2022-2025 poblogaeth breswyl ym Merthyr Tudfufl yn cynyddu o 0.7% (452 o breswylwyr) a
- Rhwng y cyfnod 2022-2027 poblogaeth breswyl ym Merthyr Tudfufl yn cynyddu o 1.1% (694 o breswylwyr) a

Amlinellodd dogfen Llywodraeth Cymru, *Rhagamcanion poblogaeth Awdurdodau Lleol i Gymru: 2018*, a gafodd ei gyhoeddi yn haf 2020 sut mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u rhagamcanu i gael poblogaeth o rhwng 100,000 a 200,000 erbyn 2028.

Yn nhermau cyfraddau geni ar gyfer ardal Merthyr Tudful, mae Tabl 3 isod yn manylu ar fetrigau ym mhob un o wardiau'r ardal ar gyfer y flwyddyn 2019.

Tabl 3 - Blwyddyn 2019 cyfraddau geni ar gyfer ardal Merthyr Tudful (Ffynhonnell: ONS 2019)

| Enw'r ward | 2019 Genedigaethau preswylwyr |
|---|---|
| **Bedlinog** | 57 |
| **Cyfarthfa** | 72 |
| **Dowlais** | 84 |
| **Gurnos** | 70 |
| **Ynysowen** | 48 |
| **Parc** | 33 |
| **Penydarren** | 64 |
| **Plymouth** | 45 |
| **Y Dref** | 73 |
| **Treharris** | 72 |

| | |
|---|---|
| **Y Faenor** | 29 |
| **Cyfansymiau** | 647 |

Mae Tabl 3 yn dangos mai'r ward â'r nifer uchaf o enedigaethau newydd cyn y pandemig oedd y Dref, wedi'i dilyn mewn amlder (cydradd) gan wardiau Cyfarthfa a Threharris.

Mae Tabl 4 yn dangos mudo mewnlifol a mudo all-lifol wedi'u halinio ag ardal Merthyr Tudful am y cyfnod 2018-2019 (Ffynhonnell: ONS 2019)

Mae'r Tabl yn dangos bod mewnlif, yn enwedig mewnlif rhyngwladol yn uwch nac all-lif o bobl. Roedd blynyddoedd blaenorol wedi dangos yr un peth yn union yn digwydd ac roedd y gyfran o fewnlif o gymharu ag all-lif wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

| | Canol 2018 - Canol 2020 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Merthyr Tudful** | Rhagamcan Poblogaeth 2019 = 60326 | Mudo Rhygwladol Parhaol | | Mudo Mewnol o'r tu mewn i'r DU | |
| | | Mewnlif | All-lif | Mewnlif | All-lif |
| | | 129 | 86 | 1,682 | 1,605 |
| | Rhagamcan Poblogaeth Canol 2020 = 60424 | Mudo Rhyngwladol Parhaol | | Mudo Mewnol o'r tu mewn i'r DU | |
| | | Mewnlif | All-lif | | Mewnlif |
| | | 132 | 63 | 1,406 | 1,336 |

Yn nhermau ethnigrwydd, mae Tabl 5 yn dangos bod nifer o blant oedd yn byw yn yr ardal yn 2019 o gefndiroedd penodol.

Tabl 5 - nifer o blant a phobl ifanc yn byw yn ardal Merthyr Tudful yn 2019 o, gefndiroedd ethnig penodol (Ffynhonnell: ONS 2019)

| Oedran | Gwyn | Gwyn Prydeinig | Cymysg | Asiaidd | Du | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **0** | 0 | 640 | 613 | 7 | 8 | 1 |
| **1** | 1 | 698 | 668 | 7 | 9 | 1 |
| **2** | 2 | 712 | 682 | 7 | 10 | 1 |
| **3** | 3 | 721 | 690 | 8 | 10 | 1 |
| **4** | 4 | 783 | 750 | 8 | 10 | 1 |
| **5** | 5 | 698 | 668 | 7 | 9 | 1 |
| **6** | 6 | 725 | 694 | 8 | 10 | 1 |
| **7** | 7 | 756 | 723 | 8 | 10 | 1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **8** | 8 | 736 | 704 | 7 | 9 | 1 |
| **9** | 9 | 696 | 663 | 11 | 9 | 0 |
| **10** | 10 | 731 | 693 | 15 | 8 | 0 |
| **11** | 11 | 747 | 716 | 12 | 10 | 2 |
| **12** | 12 | 688 | 662 | 15 | 9 | 0 |
| **13** | 13 | 653 | 628 | 13 | 9 | 2 |
| **14** | 14 | 610 | 592 | 13 | 15 | 0 |

Yn nhermau amlder siaradwyr Cymraeg yn ardal Merthyr Tudful mae cronfa Stats Cymeu yn dangos yn 2019, roedd bron 1:5 o

boblogaeth Merthyr Tudful yn gallu siarad Cymraeg, fel y gwelwyd yn Nhabl 6 isod. (Ffynhonnell: Stats Cymru

| Ardal | Pawb dros 3 oed | Ie, gallu siarad Cymraeg | Na, ddim yn gallu siarad Cymraeg | Canran o bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 3,025,400 | 892,500 | 2,131,600 | 29.5% |
| **Merthyr Tudful** | 57,500 | 10,400 | 47,100 | 18% |

Datganodd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Merthyr Tudful 2017 yn 2013, fod dros chwarter yr holl blant yn yr ardal yn byw mewn tlodi (fel y diffiniwyd gan y ganran o blant yn byw mewn teuluoedd incwm isel). Roedd hyn yn amlwg yn arwyddocaol uwch na'r ffigur i Gymru (20.5%). Roedd pocedi hefyd o dlodi plant helaethach o fewn Merthyr gan gynnwys mwy na 40% o'r plant yn byw mewn tlodi yn ward Gurnos.

Wedi'u halinio â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019), y parth incwm, yr awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig oedd Casnewydd, **Merthyr Tydfil** a Chaerdydd, pob un o gwmpas 20%.

Roedd gan Flaenau Gwent y ganran uchaf o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (85.1% neu 40 ardal). Yr un nesaf uchaf oedd ardal **Merthyr Tudful**, â 77.8% (neu28) o'i hardaloedd yn hanner fwyaf difreintiedig Cymru.

Ymhellach, mae proffil amddifadedd WIMD 2019 yn dangos bod Penydarren yn gorwedd o fewn y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer parthau Incwm ac Addysg i Gymru a'i fod hefyd yn gorwedd o fewn y 10% mwyaf difreintiedig (y 191 ardal uchaf) yn nhermau Cyflogaeth, Iechyd a Thai yn y wlad. Mae dangosydd data WIMD yn dangos bod 46% o bobl ym Mhenydarren 1 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn nhermau cyfraddau cyflogaeth a diweithdra ar draws ardal Merthyr Tudful ym Medi 2021, cafodd 71.9% o boblogaeth oedolion eu dosbarthu'n economaidd weithredol ac mewn cyflogaeth. Cafodd 4.8% o'r boblogaeth oedolion eu dosbarthu'n ddiwaith ac roedd hyn 0.6% yn uwch na'r cyfartaledd i Gymru. Gellir nodi

bod Sefydliad Joseph Rowntree yn adrodd: Amlygodd Tlodi yng Nghymru sut mae gan ardaloedd o Gymru niferoedd uchel iawn o hawlwyr diwaith fesul swydd wag ac mai Rhondda Cynon Taf (37 hawliwr fesul swydd wag) a Merthyr Tudful (35 hawliawr fesul swydd wag) yw'r ardaloedd â mwy na 30 o hawlwyr diwaith fesul swydd wag.

MaeTabl 7 yn dangos mynychter plant ag ADY sy'n byw yn ardal Merthyr Tudful yn ystod y cyfnod 2020-2021, ac roedd 1,921 o blant ag angen/anghenion dysgu ychwanegol, a'r mathau mwyaf cyffredin o angen (wedi'u hadrodd gan Stats Cymru) yn anawsaterau dysgu cyffredinol, wedi'u dilyn o ran amlder gan Awtistiaeth ac yna anabledd(au) corfforol.


Tabl 7 - Mynychter plant ag ADY ym Merthyr Tudful yn 2020-2021 Stats Cymru

| **Lleoliad** | **Pob Angen Addysgol Arbennig** | | | | **Pob Angen Dysgu Ychwanegol** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi cael datganiad | Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond dim Datganiad o Angen Addysgol Arbennig | | Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond dim Datganiad o Angen Addysgol Arbennig | |
| | | Gweithredu'r Ysgol | Gweithredu'r Ysgol Plws | | |
| **Cymru** | 14,082 | 46,790 | 31,816 | 78,606 | 92,688 |
| **Merthyr Tudful** | 284 | 904 | 733 | 1,637 | 1,921 |

Mae Cynllun Datlygu Lleol Amgen Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (2016 - 2031)[2] yn amlinellu rhagolwg y bydd angen adeiladu 2,250 o gartrefi newydd hyd at gyfnod 2031.

[2] https://www.merthyr.gov.uk/resident/planning-and-building-control/replacement-local-development-plan-2016-2031/first-replacement-local-development-plan-2016-2031/

Diagram 4 - Cynllun Datblygu Lleol – Diagram Allweddol yn dangos ardal(oedd) prif dwf arfaethedig




© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100025302. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Yn ôl data datblygu tai, y wardiau fydd yn cyfrif am y rhagolwg uchaf o niferoedd tai newydd yw (yn nhrefn niferoedd):

1. Ward Plymouth - â 462 o anheddau newydd erbyn 2031 a 231 annedd newydd yn ystod y cyfnod 2022-2027
2. Ward Treharris - â 200 o anheddau newydd erbyn 2031 a 160 annedd newyd yn ystod y cyfnod 2022-2027
3. Ward Cyfartha - â 240 o anheddau newydd erbyn 2031 a 112 annedd newydd yn ystod y cyfnod 2022-2027

**Sut mae/fydd yr Awdurdod lleol yn defnyddio'i ddata poblogaeth i gynllunio ar gyfer digon o gyfleodd chwarae yn lleol.**

Er mwyn llunio'r asesiad hwn cafodd taenlen ei chynhyrchu gan ddarparu dadansoddiad o'r nifer o blant o oedran gwahanol ym mhob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is a ward etholiadol a'r ganran o'r boblogaeth maen nhw'n ei chynrychioli ym mhob ardal. Cafodd hyn ei gyfuno â data ar ddwysterau poblogaeth, graddiadau o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a chanlyniadau o'r arolygon bodlonrwydd digonolrwydd chwarae. Er bod nifer yr ymatebion i'r arolygon bodlonrwydd yn syweddol uwch na'r ADC blaenorol, roedd diffyg cynrychiolaeth o ward Bedlinog (ac ymateb isel o Dreharris ac Ynysowen) ar gyfer disgyblion uwchradd a Chyfarthfa, Ynysowen, Treharris a'r Faenor ar gyfer disgyblion oed cynradd. Daeth ymatebion i arolwg y rhai o dan 5 o Ynysowen, Parc, Penydarren, Plymouth a'r Dref yn unig.

**Oes heriau wedi bod?**

Oherwydd y pandemig, nid yw llawer o'r data a ddefnyddiwyd wedi cael eu diweddaru ers 2019 neu 2020. Gallai ffynonellau data fel (ond heb fod yn gyfyngedig i) y cyfrifiad ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn dilynol, cronfa ddata PLASC, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Asesiadau Mannau Agored a gwybodaeth ar wasanaethau a ddelir gan FIS gael eu cyfuno i greu proffilau cymuned, a allai wedyn helpu i lywio ymyriadau i gynorthwyo. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Ymhellach, nid oes un o'r setiau data hyn yn darparu arwydd o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant y tu hwnt i hygyrchedd mannau agored cyhoeddus dynodedig a'r gwasanaethau gofal plant sydd ar gael.

Nid yw dadansoddiad lefel ward o'r data bodlonrwydd digonolrwydd chwarae o reidrwydd yn gynrychioladol o ardaloedd llai neu stadau penodol o fewn y wardiau hyn. Er enghraifft, er yr awgrymodd yr arolwg bodlonrwydd fod y rhan fwyaf o blant oed cynradd yn byw yn ward Plymouth wedi graddio bodlonrwydd uchel, mewn realiti mynychodd y plant hyn ddwy ysgol benodol ac ysgolion eraill yn y ward ddim yn cymryd rhan yn yr arolwg. O ganlyniad, gall plant yn byw mewn rhannau penodol o'r ward fod wedi cael eu tangynrychioli yn yr arolwg.

Mae'r arwydd fod gan GBSMT (yn unol ag awdurdodau lleol Cymreig eraill) boblogaeth sy'n heneiddio yn awgrymu y dylai'r Cyngor ystyried datblygu cyfleoedd chwarae i blant hŷn yn ewnwedig.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

Gallai data a gynhyrchir o'r arolwg bodlonrwydd gael eu hychwanegu at ddata demograffig presennol eraill, data mannau agored cyhoeddus a darpariaeth gwasanaeth i greu proffilau cymuned sy'n darparu awgrym o ddigonolrwydd cyfleoedd plant i chwarae, fyddai'n gofyn am gwmpasu wardiau'n llawn wrth gwblhau arolygon. Gellir defnyddio data cod post i adnabod ardaloedd lle mae cyfranogaeth yn yr arolwg bodlonrwydd ae ei isaf, a thargedu'r ardaloedd hyn.

**Argymhelliad: Cynnal arolwg bodlonrwydd dilynol yn 2025 sy'n sicrhau cwmpasu ysgolion a phlant ar draws y sir gyfan, i sefydlu unrhyw newid mewn lefelau bodlonrwydd a adroddir ac i adnabod meysydd i'w hymchwilio ymhellach. Er mwyn sicrhau cyfraddau ymateb uchel, dylai ysgolion gael eu cymell ymhellach i gymryd rhan.**

**Statws RAG i Fater A**

| | |
|---|---|
| Atebwyd y meini prawf yn llawn. | |
| Atebwyd y meini prawf yn rhannol. | x |
| Ni chafodd y meini prawf eu hateb | |

**Mater B: Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol**

Dylai'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae gyflwyno data am sut mae'r Awdurdod Lleol a phartneriaid yn anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac yn annog pob plentyn i chwarae a chyfarfod â'i gilydd.

**Statws RAG:**

| | |
|---|---|
| Atebwyd meini prawf yn llawn | |

| | |
|---|---|
| Atebwyd meini prawf yn rhannol | x |
| Ni chafodd y meini prawf eu hateb | |

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| B1 | Mae gofynion chwarae plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ynysig yn cael eu deall a darperir ar eu cyfer | | | Yn Chwefror 2021, comisiynodd y Cyngor brosiect ymchwil gan Ludicology, a edrychodd i mewn i chwarae plant â nodweddion wedi'u diogelu ac yn benodol y rheini o ardaloedd gwledig ynysig. Dangosodd canfyddiadau fod plant yn yr ardaloedd hyn yn adrodd am gael rhyddid i chwarae'r tu allan a phwyntiodd ymatebion at ddiwylliant chwarae cymunedol cryf a hirhoedlog. Ni chafodd | Adroddodd rhai plant ifanc o ardaloedd gwledig am broblemau â thrafnidiaeth gyhoeddus, oedd naill ai'n brin neu'n anaml. Mae'n rhaid i'r bobl ifanc hyn ddibynnu ar oedolion i fynd â nhw mewn ceir er mwyn cyrraedd rhai ardaloedd lle maen nhw am chwarae. | • Dadansoddi a defnyddio data cyfrifiad, cyn gynted ag y bydd ar gael, i wella cyfleoedd chwarae mewn ardaloedd a gafodd eu nodi â'r angen mwyaf amdanynt.<br>• Dilyn ar ganfyddiad o adroddiad Ludicology i asesu a oes gwelliannau wedi cael eu gwneud mewn ardaloedd gwledig â materion a gafodd eu hadnabod trwy ymgynghori ychwanegol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | anfantais ar gyfer y grŵp allweddol hwn ei adrodd. Adroddodd plant hefyd am gael amser digonol i chwarae'r tu allan. | Dangosodd y canfyddiadau o adroddiad Ludicology fod sbwriel, gwydr wedi torri, baw cŵn, mieri wedi gordyfu, yn ogystal â chyfarpar chwarae hen a rhydlyd wedi cael eu hadnabod fel problemau arwyddocaol. Gofynnodd merched hefyd yn benodol am amrediad ehangach o gyfarpar yn eu hardaloedd chwarae lleol, yn ogystal a chysgod oddi wrth y glaw a llwybrau trwy'r goedwig.<br><br>Bydd data o Gyfrifiad 2021, cyn gynted ag y bydd ar gael, yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu | • Codi proffil Chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg ac adnabod ac ymgysylltu â phartneriaid sy'n gallu darparu cyfleoedd chwarae yn y Gymraeg.<br>• Gweithio â'r adran parciau i sicrhau cyllid ar gyfer cyfarpar chwarae sefydlog newydd ac ateb anghenion plant ag ADY.<br>• Gweithio â'r Swyddog Datblygu Safleoedd Teithwyr Sipsiwn i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae diogel i blant a phobl ifanc<br>• Gweithio â phartneriaid i gynyddu'r swm o chwaraeon anabledd ar gael ledled Merthyr Tudful, sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at hyn<br>• Canfod anghenion chwarae ieuenctid LHBT+<br>• Ystyried sefydlu fforwm ieueunctid ADY ac anabledd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyfleoedd chwarae'r dyfodol. | penodol sy'n gweithio'n agos â'r Awdurdod Lleol fel bod lleisiau'r plant hyn yn cael eu clywed.<br>• Sicrhau bod plant a phobl ifanc o wardiau na dderbyniodd ymatebion ymgynghoriad yn cael eu hymgynghori yn y dyfodol i ganfod eu hanghenion<br>• Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried sut mae trefnu bod cyfarpar chwarae ac adnoddau, a chyfarpar chwarae darnau rhydd ar gael i'r cyhoedd i'w benthyg fel bod teuluoedd sydd dim yn gallu ei fforddio fel arall yn cael mynediad |
| B2 | Gofynion chwarae plant sy'n siarad Cymraeg yn cael eu deall a darperir ar eu cyfer | | | Mae llawer o blant a phobl ifanc yn adrodd bod yn well ganddynt siarad Saesneg. Ychydig sy'n well ganddynt siarad Cymraeg. Mae'r iaith Gymraeg wedi'i hintegreiddio i waith ieuenctid ledled CBSMT.<br><br>Yn ddiweddar, mae darpariaeth chwarae'r tu allan cyfrwng Cymraeg wedi cael ei gychwyn. | | |
| B3 | Mae gofynion chwarae plant o gefndir diwylliannol gwahanol yn cael eu deall a darperir ar eu cyfer | | | Mae'r Cyngor yn cymryd ymagwedd gynhwysol at holl ardaloedd chwarae, gan sicrhau ei fod yn ateb anghenion y boblogaeth gyfan. Mae'r rhan fwyaf o'r bologaeth yn Wyn Cymreig, tra bod cymunedau Pwylaidd a Dwyrain Ewropeaidd eraill yn gyffredin. Ymgynghorwyd â | Mae lle ac adnoddau yn y ganolfan yn gyfyngedig. Ychydig iawn o blant yn y grŵp hwn a adroddodd fod ganddynt y rhyddid symudiad i gyrchu cyfleoedd yn | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | phlant o amrediad o gefndiroedd diwylliannol gan PAG fel rhan o'r PSA hwn.<br><br>Edrychodd yr adroddiad Ludicology a gomisiynwyd yn 2021 hefyd i mewn i chwarae plant â Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Mae gan blant â Saesneg fel iaith ychwanegol fynediad at ganolfan am addysg iaith Saesneg wythnosol, sy'n eu galluogi i fod yn unedig ac i chwarae gyda'i gilydd. Mae plant sy'n siarad Saesneg fel iaith Ychwanegol yn cael eu cynorthwyo yn oed cynradd i symud ymalen i ganolfannau ieuenctid a chael cyswllt â'r tîm ieuenctid wedi'i leoli ar strydoedd. | annibynnol wrth chwarae'r tu allan. | |
| B4 | Mae gofynion chwarae ac anghenion cymorth plant anabl yn cael eu deall a darperir ar eu cyfer. | | | Mae canfyddiadau o ymgynghori yn awgrymu mai ychydig o blant a phobl | Mae rhieni wedi mynegi angen am ragor o gyfarpar chwarae'r tu allan | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ifanc sy' ystyried eu hunain yn anabl. | sy'n gweddu ag Anghenio Dysgu Ychwanegol neu anableddau.<br><br>Nid oes fforwm ieuenctid ADY neu anabledd ar hyn o bryd i eirioli dros farn plant a phobl ifanc. | |
| B5 | Mae gan brosiectau chwarae a darparwyr fynediad at amrediad o adnoddau sy'n cefnogi cynhwysiant | | | Mae mynediad at chwarae i blant ag ADY yn gwella ond mae ffordd bell i fynd o hyd.<br><br>Mae Bridging the Gap yn darparu gofal y tu allan i'r ysgol i blant ag anghenion cymhleth.<br><br>Mae Heini Merthyr yn cynnig sesiynau chwaraeon anabledd hefyd. | Nid yw Bridging the Gap yn cynnig digon o gymorth yn ystod gwyliau'r ysgol (e.e amseroedd gostyngol, ar gau am wythnosau ar y tro yn ystod yr haf) ac mae'n unig ddarparwr ar hyn o bryd sy'n targedu plant ag ADY yn benodol.<br><br>Er bod Heini Merthyr yn cynnig sesiynau chwaraeon anbledd, nid yw'r rhain yn aml | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ac mae canfyddiadau o'r ymgynghoriad yn awgrymu bod angen rhagor o'r mathau hyn o sesiynau.<br><br>Mae rhieni'n gofyn yn barhaus am ragor o ddarpariaeth i ateb anghenion plant ag ADY, yn enwedig anghenion ymddygiad. Mae eisiau amgylchedd diogel ar rieni i'w plant, â chyfarpar synhwyraidd a chyfarpar chwarae sy'n addas i'r pwrpas. | |
| B6 | Mae mecanwaith adnabyddus a chytunedig sy'n cael ei ddefnyddio i adnabod yr angen am ddarpariaeth ar wahân i blant anabl | | | Mae hyn yn cael ei wneud ar sail achosion unigol, bydd yr Awdurdod Lleol yn cwblhau asesiad ar blentyn ag anabledd a gweld beth sydd ar gael o fewn y gymuned i ateb ei | Nid oes mecanwaith cytunedig ar waith.<br><br>Mae'r tîm anabledd yn awyddus i gynorthwyo'r tîm | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | anghenion. Mae gwasanaeth cyswllt hamdden hefyd, sy'n darparu tri gweithiwr sy'n gweithio â phlant anabl y tu allan i oriau gwaith arferol. | chwarae i roi mwy yn ei le ar gyfer plant anabl, ond ar hyn o bryd nid oes ganddynt yr adnoddau i wneud hynny. | |
| B7 | Ymgymerir ag archwiliadau mynediad ar gyfer pob darpariaeth chwarae fel y disgrifir yn y cyfarwyddyd | | | Ymgymerir â hyn ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw safleoedd newydd | Nid oes proses ffurfiol ar waith ar hyn o bryd. | |
| B8 | Mae mannau chwarae dynodedig yn cael eu darparu a'u cynnal yn dda ar safleoedd teithwyr sipsiwn | | | Canfu'r adroddiad Ludicology ddiwylliant chwarae cryf yn safle'r Teithwyr. Er nad oes cyfarpar chwarae ffurfiol ar y safle, mae'n cael ei gwmpasu gan ymyl twmpathog â gwair a choed sy'n darparu cyfleoedd i chwarae, mae'r ffordd i mewn i'r safle hefyd yn darparu arwyneb caled ar gyfer pethau fel pêl-droed neu reidio beic, ac mae siglen rhaff a gafodd ei chodi beth amser | Mae'r safle wedi'i nythu rhwng ffordd ddeuol heb fynediad palmant. Mae'n debygol y gallai plant fod yn unarddeg oed cyn cael eu hystyried yn ddigon abl i gyrchu neu fynd i mewn i'r safle yn annibynnol ac yn ddiogel, sy'n golygu bod mynediad plant iau i ac o'r safle yn | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn ôl gan dîm o weithwyr chwarae oedd yn arfer ymweld â'r safle. Mae plant teithwyr sipsiwn a phobl ifanc yn defnyddio'r ganolfan gymunedol a adeiladwyd yn bwrpasol.<br><br>Roedd hon ar gau am ychydig ac yna caeodd trwy gydol y pandemig ond mae'n cydymmffurfio yn awr ac wedi agor eto. Mae'r Awdurdod Lleol wedi buddsoddi mewn rôl Swyddog Datblygu fel cymorth.<br><br>Mae plant teithwyr sipsiwn yn cyrchu clybiau ar ôl ysgol fel bocsio, llesiant, celfyddydau creadigol, cerddoriaeth ac ysgrifennu caneuon. | dibynnu ar gwmni oedolyn.<br><br>Nid oes gan yr Awdurdod Lleol dîm chwarae a allai gynorthwyo na darparu cymorth/darpariaeth chwarae ychwanegol yn safle'r teithwyr sipsiwn.<br><br>Dylai ymarfer ar gyfer plant teithwyr Sipsiwn fod yn fwy cynhwysol a heb ei wahanu oddi wrth wasanaethau eraill. Dylai'r gwasanaethau hyn gael eu cydblethu i mewn i bob gwasanaeth (e.e. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn tynnu ar gymorth gan sefydliad arall fydd yn cynnig yr un ddarpariaeth ond yn y Ganolfan Gymunedol ar foreau dydd Mawrth. | gwasanaethau ieuenctid, yn hytrach na'u gwahanu). | |
| B9 | Mae gofynion gofalwyr ifanc yn cael eu deall a darperir ar eu cyfer | | | Mae gofalwyr ifanc yn cymryd rhan mewn amrediad eang o weithgareddau'n seiliedig ar chwarae, llawer ohonynt wedi'u hwyluso gan Barnardo's, ac roedden nhw hefyd wedi defnyddio'u sesiynau ar-lein yn ystod y pandemig i baratoi llyfr o farddoniaeth roedden nhw wedi ennill gwobr amdano. | Roedd natur cyfrifoldebau gofal plant a phobl ifanc yn golygu nad oedd llawer yn gallu mynd allan a chware cymaint ag yr hoffent, yn enwedig yn ystod y pandemig pan oedd rhaid cynnal grwpiau gofalwyr ar-lein. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Roedd gweithgareddau mae aelodau'r grŵp yn cymryd rhan ynddynt yn cynnwys canu mewn côr, celf a chrefftau, chwaraeon, chwarae offerynnau cerddorol, clwb drama, Cadetiaid Tân, cymdeithasu a defnyddio'r parc sglefrio, campfa neu bwll. | Roedd materion a godwyd gan ofalwyr ifanc yn cynnwys teimlo'n anniogel yn mynd allan i chwarae oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol eraill, sbwriel, diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol a'r pandemig yn cael effaith ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc, oherwydd diffyg cymdeithasu yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Nododd gofalwyr ifanc fod gan y Cyngor gyfleusterau nofio cyfyngedig iawn ar hyn o bryd, y mae'r plant a'r bobl ifanc yn eu methu. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| B10 | Mae gofynion plant lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LGB) yn cael eu deall a darperir ar eu cyfer | | | Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i fynychu digwyddiadau mis Pride ac mae digwyddiadau ymwybyddiaeth LHBT+ wedi cael eu cynnal o'r blaen, wedi'u cefnogi gan weithwyr ieuenctid. Nid oes ceisiadau diweddar wedi cael eu gwneud gan blant a phobl ifanc am weithgareddau chwarae LHBT+ penodol. | O'r blaen, mae'r Cyngor wedi cael grwpiau penodol ar gyfer ieuenctod LHBT+, ond ar hyn o bryd nid oes grwpiau na phrosiectau penodol yn rhedeg ar gyfer y plant a phobl ifanc hyn. Gall plant a phobl ifanc o fewn y gymuned LHBT+ beidio teimlo bod rhywle i fynd neu grŵp i'w gyfarfod sy'n ateb eu hangenion yn llawn. | |

**Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol**

**Sut mae data wedi cael eu defnyddio (neu sut fydd y data'n cael eu defnyddio) i fynd i'r afael â'r rhwystrau mae plant ag anghenion amrywiol yn eu hwynebu wrth gyrchu cyfleoedd cynhwysol a hygyrch i chwarae?**

Mae'r data o'r arolygon wedi dangos bod tua hanner darparwyr chwarae yn teimlo bod gan blant ag anableddau anhawster mewn cyrchu gweithgareddau hamdden, tra'r adroddodd 16% o rieni fod eu plant yn cael trafferth i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae penodol, a'r rheswm mwyaf yn ADY neu anabledd. Ers y ADC blaenorol, mae'r adroddiad Ludicology wedi darparu mewnwelediad i anghenion plant â nodweddion wedi'u diogelu ac mae'r argymhellion o'r adroddiad hwn ar y gweill.

**Oes heriau wedi bod?**

Mae heriau wedi bod mewn datblygu'r ganolfan gymunedol er mwyn iddi ateb amrywiaeth o anghenion, yn enwedig yn nhermau adnoddau. Nid oes cymorth penodol ar waith ar hyn o bryd ar gyfer ieuenctid LHBT+. Nododd plant a phobl ifanc ag anghenion amrywiol anawsterau hefyd mewn cyrchu trafnidiaeth addas i gyrraedd cyrchfannau chwarae a dibynent ar oedolion yn eu cludo neu gerdded. Mae diffyg darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth i blant ag anghenion cymhleth y tu allan i oriau gwaith arferol (9am-5pm) ledled y wlad, a diffyg canfyddedig o gyfarpar chwarae sefydlog addas i blant ag ADY.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

Dylai rhagor o ymchwil gael ei gynnal i anghenion ieuenctid LHBT+ ac ystyriaeth gael ei rhoi i sut mae adnoddau yn gallu cael eu datblygu i ateb anghenion ADY cynyddol. Gan mai dim ond un darparwr tu allan i'r ysgol sydd ar hyn o bryd o ddarpariaeth yn benodol i blant ag ADY, dylai lleoliadau gael eu cynorthwyo i ddarparu rhagor o gymorth. Dylai Cyfarpar Chwarae Sefydlog i ateb anghenion plant a phobl ifanc ag ADY fod yn flaenoriaeth ar gyfer trafodaethau a dyrannu cyllid wrth symud ymlaen.

**Argymhelliad: Adolygu digonolrwydd darpariaeth ADY i sicrhau ei bod yn ateb anghenion y cymunedau o fewn Merthyr Tudful. Cymryd ymagwedd gydlynedig at ddarparu ADY, gweithio ag ysgolion, gweithwyr chwarae, asiantaethau allanol, Iechyd ac ati i sicrhau bod darpariaeth chwarae yn cael ei hywyddo ac yn effeithiol. Parhau i gyfeirio cyllid at gyfarpar addas ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.**

**Argymhelliad: Cynnal rhagor o ymchwil i anghenion ieuenctid LHBT+ o fewn y gymuned ac os yn briodol, sefydlu grwpiau neu gynlluniau penodol i sicrhau bod ieuenctid LHBT+ yn teimlo wedi'u cynnwys o fewn gweithgareddau chwarae.**

**Argymhelliad: Gweithio â Theithio Gweithredol i sicrhau bod trafnidiaeth yn galluogi plant a phobl ifanc i gyrraedd cyrchfannau chwarae o'u dewis.**

**Mater C: Mannau ar gael i blant chwarae Mannau Agored a mannau chwarae Awyr Agored dynodedig heb eu staffio**

Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod bod pob man agored o fewn eu hardal yn adaloedd pwysig posibl lle mae plant yn gallu chwarae neu fynd trwyddynt i gyrraedd ardaloedd chwarae eraill neu fannau maen nhw'n mynd iddynt.

**Statws RAG:**

| | |
|---|---|
| Atebwyd y meini prawf yn llawn | |
| Atebwyd y meini prawf yn rhannol. | x |

| | |
|---|---|
| Ni chafodd y meini prawf eu hateb | |

**Mannau Agored**

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C1 | Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgymryd ag Asesiad Mannau Agored (OSA) sy'n mapio ardaloedd sy'n cael eu defnyddio, neu a allai gael eu defnyddio ar gyfer chwarae fel y rhestrir yn y Cyfarwyddyd Statudol | | | Ymgymerwyd â'r asesiad yn 2016.<br>Cafodd yr OSA ei fabwysiadu gan y Cyngor ar ddiwedd 2016 ac mae'n cwmpasu amrediad eang o fannau agored, gan gynnwys mannau chwarae, mannau tyfu, parciau a gerddi, coridorau hamdden | Roedd yr Asesiad Mannau Agored i fod i gael ei adolygu llynedd, ond oherwydd heriau COVID nid yw hyn wedi digwydd eto. Cafodd y ddogfen gynllunio ei pharatoi ar gais cynllunio ar gyfer y Cynllun Datblygu | • OSA i'w adolygu a'i ddefnyddio i ddyrannu cyllid yn effeithiol.<br>• Archwiliadau mynediad newydd i gael eu cyflawni.<br>• Pennu gweithdrefnau i asesu gwerth chwarae<br>• Sicrhau bod arwyddion Blaenoriaeth Chwarae yn cael eu codi ledled Merthyr Tudful a bod teuluoedd yn cael eu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwyrdd, rhandiroedd a gerddi, mannau gwyrdd amlswyddogaeth.<br><br>Ar yr adeg y cafodd y strategaeth ei chwblhau, cafodd cynlluniau gweithredu eu datblygu i weld pa fannau oedd â'r cyfleoedd mwyaf i gyflawni gwelliannau. Asesodd yr Awdurdod lleol y ddemograffeg leol a'r hyn roeddent yn gwybod ei bod yn brin ohono.<br><br>Rhodwyd £50,000 i'r Awdurdod lleol i wario ar ddatblygu'r parciau llai, lle roedd buddsoddi wedi cael ei anwybyddu o'r blaen.  Paratodd yr Awdurdod Lleol raglen o ddigwyddiadau hefyd; cafodd hon ei hatal oherwydd COVID-19, ac maen nhw wedi buddsoddi'r arian hwn yn | Lleol, ac mae hyn i gael ei adolygu erbyn yr adeg y bydd y Cynllyn Datblygu Lleol wedi'i gwblhau.<br><br>Bydd adolygiad yr OSA yn bwysig mewn dyrannu cyllid.<br><br>Mae prinderau llafur oherwydd COVID-19 wedi arwain at oediadau mewn gweithredu cyfarpar. | gwneud yn ymwybodol o'u pwrpas. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | y parciau. Mae 4 o'r 5 parc hyn wedi gwella gydag un yn ennill graddfa Baner Werdd.<br><br>Mae Cyllid Partneriaeth Natur Lleol gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio i weithredu tri phrosiect yn llwyddiannus, gan gynnwys Parc Trelewis, ardaloedd gwlyptir, creu seddi ychwanegol a llwybr troed, drysfa helyg a gardd rhoddion natur.<br><br>Cafodd £140,000 ei ddarparu hefyd i Ysbyty'r Tywysog Charles sy'n cynnwys rhwydwaith o lwybrau troed a seddi.<br><br>Cafodd tua £33,000 ei ddarparu hefyd allan o'r AWPOG i gynyddu/gwella cyfarpar chwarae, oedd yn cynnwys cyfarpar chwarae cerddorol y tu allan. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C2 | Mae'r Awdurdod lleol wedi ymgymryd ag Astudiaeth Gofod Gwyrdd sy'n mapio ardaloedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer chwarae | | | Mae hyn ar gael ar yr haen GIS ac wedi cael ei fapio allan. | | |
| C3 | Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd ag archwiliadau mynediad ac yn gweithredu cynigion i wella mynediad a diogelwch | | | Mae archwiliadau'n cael eu cwblhau ac yn rhoi trosolwg glir o'r hyn sydd angen ei weithredu i ateb anghenion teuluoedd. Mae Chwarae Cymru wedsi cael eu comisiynu i ymchwilio i sut mae ysgolion yn agor mannau ar gyfer chwarae gweithredol.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol wedi dynodi ysgolion i gael eu defnyddio fel mannau chwarae agored. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi bod yn gweithio ar gau strydoedd i weithredu mannau chwarae agored diogel. | Nid oes gweithdrefn ffurfiol ar waith ar gyfer archwiliadau mynediad. Mae angen i archwiliadau mynediad newydd gael eu cyflawni oherwydd cyfarpar a safleoedd newydd ar waith ers yr archwiliad diwethaf. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C4 | Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu ei Safonau Mannau Agored ei hun yn unol â chyngor a gofynion Polisi Cynllunio Cymru | | | Strategaeth Mannau Agored CBSMT ar waith ac yn aros am adolygiad. Mae safonau wedi bod ar waith ers 2016, ac ymgymerwyd ag adolygiad er mwyn diweddaru pellterau. Mae'r safonau Mannau Agored yn ddefnyddiol mewn adnabod ardaloedd o amddifadedd yn nhermau mannau agored ac ansawdd mannau agored. | | |
| C5 | Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd â ac yn gweithredu asesiadau gwerth chwarae mewn mannau agored cyhoeddus | | | Ymgymerwyd â hyn yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. | Nid oes proses ffurfiol ar gyfer hyn ar hyn o bryd, ac nid oes asesiadau gwerth chwarae wedi cael eu cynnal yn ddiweddar oherwydd prinder adnoddau. | |
| C6 | Mae safleoedd tir llwyd dan berchnogaeth yr Awdurdod | | | Mae hyn yn digwydd fel rhan o'r Strategaeth | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lleol yn cael eu hasesu am y potensial i'r safle gael ei adhawlio i ddarparu ar gyfer chwarae plant | | | Mannau Agored ac er bod safleoedd Tir llwyd wedi cael eu hystyried bob amser, yn ddiweddar mae newid cadarnhaol wedi bod mewn meddylfryd gan ddatblygwyr ym mhwysigrwydd defnyddio'r rhain ar gyfer dibenion penodol.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol wedi bod yn ymgymryd ag ailddatblygu safle Tir llwyd presennol i ddatblygu parc sglefrio newydd. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn defnyddio'r grant Partneriaethau Natur Lleol i droi 'mannau llwyd yn fannau gwyrdd'. Mae ardaloedd newydd a ddatblygir ar safleoedd tir llwyd yn cael eu datblygu â chwarae o dan ystyriaeth bob amser. | | |
| **Mannau Chwarae ynodedig Heb eu Staffio yn yr Awyr Agored** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol** | **Meini Prawf** | **Statws RAG: 2019** | **Statws RAG 2022** | **Tystiolaeth i gefnogi cryfderau** | **Diffygion** | **Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu** |
| C7 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod wedi'i ddiweddaru o'r holl fannau agored dynodedig fel y disgrifir yn y Cyfarwyddyd Statudol. | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod o bob ardal chwarae sefydlog a mannau chwarae dynodedig o fewn y fwrdeistref. | | |
| C8 | Mae'r Awdurdod Lleol yn asesu mannau chwarae am werth chwarae a photensial i gynyddu mewn defnydd chwarae fel yr amlinellir yn y Cyfarwyddyd Statudol | | | Mae hyn yn cael ei gwblhau'n rhannol o dan fannau agored OSA a'i wneud ar sail yn ôl yr angen; lle mae safleoedd yn cael eu datblygu neu'u gwella, edrychir ar y rhain yn unigol.<br>Safleoedd unigol i edrych arnynt lle maen nhw'n cael eu datblygu. | Dim proses ffurfiol ar waith i asesu mannau chwarae am werth chwarae. | • Datblygu proses asesu.<br>• Tîm Chwarae a thîm Blynyddoedd Cynnar i gynorthwyo darparwyr chwarae i ymgymryd â phecyn cymorth QA Cymru Gyfan pan gaiff ei gyflwyno. |
| C9 | Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd ag archwiliadau ym mhob man chwarae | | | Yn debyg i'r uchod, bydd safleoedd chwarae sefydlog - yn cael eu | Adroddodd rhai plant a phobl ifanc nad ydynt byth yn | • Monitro sut mae'r cyllid dynodedig yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | dynodedig ac yn gweithredu cynigion i wella mynediad a diogelwch | | | ffactora i safleoedd newydd sy'n cael eu hadeiladu.<br><br>Mae safleoedd chwarae sefydlog o dan ddatblygiad neu'n cael eu hadeiladu yn cael eu hasesu'n unigol. | teimlo'n ddiogel wrth chwarae neu dreulio amser y tu allan. | cyfarpar chwarae sefydlog dros y rhaglen 5 mlynedd a bwydo hyn yn ôl i mewn i'r ADC. |
| C10 | Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu a chytuno ar safon darpariaeth chwarae sefydlog newydd | | | Mae'r safonau yn unol â Safonau Prydeinig, mae archwiliadau ar ôl gosod yn cael eu cynnal gan archwilwyr chwarae i gadarnhau bod darpariaeth yn ateb safonau.<br><br>Mae £280,000 wedi caei ei wario ar bedwar safle newydd fel rhan o rhaglen dreigl £580,000 dros 5 mlynedd, fydd yn adnewyddu'r rhan fwyaf o ardaloedd a safleoedd chwarae sefydlog. | Nid oes safon ffurfiol drosfwaol, mae hyn yn adrannol.<br><br>Mae rhai ardaloedd chwarae sefydlog wedi bod yn eu lle ers y 1990au, fodd bynnag gweithredir ar hyn trwy'r rhaglen 5 mlynedd. | • Fel uchod |
| C11 | Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd â ac yn | | | Mae asesiadau mannau chwarae dynodedig yn | Nid oes proses ffurfiol ar waith, | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gweithredu asesiadau mannau chwarae mewn mannau chwarae dynodedig | | | cael eu gwneud gan y Swyddog Archwilio Lleoedd Chwarae.<br><br>Mae pellter mannau lleol ar gyfer chwarae (LAP), mannau â chyfarpar chwarae lleol (LEAP) a mannau â chyfarpar Chwarae i'r gymdogaeth (NEAP) yn cael eu hystyried. | nid yw hyn syrthio o dan gylch gorchwyl Y Strategaeth Mannau Agored. | |
| C12 | Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflwyno lleoedd chwarae di-fwg<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 sy'n gofyn i leoedd chwarae yng Nghymru fod yn ddi-fwg. | | | Mae gan bob lle chwarae arwyddion dim ysmygu clir i fyny. | | |
| C13 | Mae'r Awdurdod Lleol wedi tynnu arwyddion 'dim gemau â phêl i annog rhagor o blant i chwarae yn y gymuned | | | Nid yw'n eglur os yw'r holl arwyddion wedi cael eu tynnu.<br><br>Adroddodd plant a phobl ifanc am chwarae'r tu | Mae'r Awdurdod Lleol i fod i adolygu a sicrhau bod hyn yn cael ei wirio a'i gadarnhau. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | allan a mwynhau pêl-droed yn enwedig fel eu hoff weithgaredd chwarae. Ni chafodd problemau eu hadrodd am gyrchu mannau cyhoeddus i chwarae gemau pêl ynddynt. | | |
| C14 | Mae'r Awdurdod Lleol wedi codi arwyddion megis Arwyddion Blanoriaeth Chwarae i annog rhagor o blant i chwarae yn y gymuned | NEWYDD | | Nid oes gweithredu wedi bod ar hyn eto. | | |
| C15 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys cydnabyddiaeth o bwysigrwydd caeau chwarae i chwarae plant pan fydd unrhyw benderfyniadau gwaredu yn cael eu gwneud | | | Mae hyn yn cael ei gydnabod gan yr adran gynllunio ac ystadau o fewn eu deddfwriaeth. | Dylai'r Awdurdod Lleol wirio'r prosesau sydd ar waith ar gyfer hyn. | |
| C16 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys plant a'u teuluoedd mewn unrhyw ymgynghoriadau ynglŷn â | | | Lle bynnag y bo'n bosibl mae ymgynghoriad yn digwydd. | Mae ymgynghori ar y penderfyniadau hyn yn y gorffennol wedi wynebu beirniadaeth ADC 2019). Mae'r | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | phenderfyniadau i gael gwared â chaeau chwarae. | | | | Awdurdod Lleol wedi gweithredu camau i sicrhau y bydd ymgynghoriadau'r dyfodol yn rhedeg yn effeithiol er mwyn i bob teulu allu rhoi mewnbwn. | |
| C17 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at gyfarwyddyd ynghylch creu mannau chwarae hygyrch wrth adnewyddu neu ddatblygu meysydd chwarae newydd | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau y glynir at y Safonau Prydeinig. | | |

**Mannau Agored**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau cydweithrediad rhwng Asesiadau Mannau Agored / Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ac Asesiadau Digonolrwydd Chwarae i wella mannau ar gyfer chwarae?**

Mae'r Asesiad Mannau Agored a'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae yn cyd-fynd a'i gilydd. Mae'r ddwy ddogfen yn hyrwyddo chwarae plant ac yn adnabod lleoedd diogel i chwarae.  Mae buddsoddiad arwyddocaol yn cael ei roi i mewn i barciau a mannau agored ers y PSA blaenorol, i wneud hyn yn fwy ymarferol i'w cymunedau a hyrwyddo'r defnydd o fannau gwyrdd. Mae arwyddion wedi cael eu gosod i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol fel ysmygu mewn parciau.

**Oes heriau wedi bod?**

Amlygodd adborth ymgynghoriad gan lawer o'r plant, pobl ifanc a'r cyhoedd bryderon mewn perthynas â'u hardaloedd chwarae lleol. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i herio'r materion hyn a wynebir yn aml o fewn mannau agored. Mynegodd rai plant eu pryderon am rai yn eu harddegau yn meddiannu eu hardaloedd

chwarae statig, sbwriel neu wydr wedi torri a theimlo'n anghyfforddus yn mynd iddynt am y rhesymau hyn, ac nid yw'r rhan fwyaf o rieni yn teimlo'n ddiogel yn caniatáu i'w plant chwarae'r tu allan.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

Dylai'r Tîm Chwarae hyrwyddo'r defnydd o fannau gwyrdd ar gyfer chwarae a gweithio'n agos â'r tîm llesiant a pharciau i sicrhau bod y rhain yn ateb anghenion plant a phobl ifanc. Cyn gynted â bod buddsoddiad wedi digwydd ac mae mannau wedi cael eu gwella, yn enwedig wrth i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc gyfeirio at fynd allan a chwaraeon fel eu gweithgareddau chwarae mwyaf pleserus a'r rheini maen nhw'n cynryd rhan ynddynt fwyaf. Dylai arwyddion fod yn eu lle i'w gwneud yn glir pa ardaloedd sydd yn benodol ar gyfer chwarae. Nid oes gweithdrefnau ffurfiol ar waith ar hyn o bryd i asesu gwerth chwarae a dylai hyn gael ei ystyried wrth edrych ar Fannau Agored ar gyfer chwarae.

**Argymhelliad: Cwblhau adolygiad o'r Asesiad mannau Agored a defnyddio'r canfyddiadau o'r rhain i ffurfio cynllunio strategol ar gyfer chwarae ac i ddyrannu cyllid lle mae ei angen fwyaf.**

**Argymhelliad: Dylai rhagor o drafod ddigwydd i weithredu gweithdrefnau ffurfiol i asesu gwerth chwarae.**

**Argymhelliad: Sicrhau bod mannau gwyrdd ac yn enwedig y rheini sydd wedi derbyn buddsoddiad yn cael eu hyrwyddo o fewn y cymunedau fel bod yr holl deuluoedd yn ymwybodol eu bod ar gael fel mannau chwarae. Mae hyn yn gallu cael ei wneud trwy gyfryngau cymdeithasol, gwefan yr Awdurdod Lleol, ymestyn at y gymuned leol a thrwy'r ysgolion ac ysgolion meithrin.**

**Argymhelliad: Sicrhau bod ymgynghoriad llawn, effeithiol yn cael ei redeg ynghylch unrhyw waredu â chaeau chwarae yn y dyfodol.**

**Mannau chwarae dynodedig heb eu staffio yn yr awyr agored**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried holl faterion hygyrchedd mewn datblygu mannau chwarae?**

Mae cyllid arwyddocaol wedi cael ei gyfeirio at wella mannau chwarae dynodedig heb eu staffio yn yr awyr agored, fel cyfarpar chwarae sefydlog, dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn targedu cymunedau sydd ei angen fwyaf.

**Oes heriau wedi bod?**

Nis oes proses ar waith ar hyn o bryd i asesu gwerth chwarae, a nid oes gweithdrefnau ffurfiol ar waith ar gyfer ymgymryd ag asesiadau mannau chwarae mewn mannau chwarae dynodedig.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

**Argymhelliad: Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod arwyddion Blaenoriaeth Chwarae yn cael eu codi ledled y Fwrdeistref Sirol a bod teuluoedd yn ymwybodol o'u pwrpas.**

**Argymhelliad: Dylai rhagor o gydweithredu ddigwydd rhwng y Tîm Chwarae ac Asesiadau Mannau Agored/ Strategaethau Seilwaith Gwyrdd i sefydlu gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer asesu gwerth chwarae, a ddylai gael ei ddefnyddio i ffurfio strategaeth chwarae'r dyfodol.**

**Mater D: Darpariaeth dan oruchwyliaeth**

Dylai'r Awdurdod Lleol anelu at amrediad o ddarpariaeth chwarae wedi'i goruchwylio.

**Statws RAG:**

| | |
|---|---|
| Atebwyd y meini prawf yn llawn | |
| Atebwyd y meini prawf yn rhannol. | x |
| Ni chafodd y meini prawf eu hateb | |

**Darpariaeth gwaith chwarae**

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| D1 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod wedi'i ddiweddaru o'r holl fannau agored dynodedig | | | Proses ffurfiol a chofnodi yn cadw ar waith. System ar waith i fonitro Darparwyr gofal plant cofrestredig CIW | | • Gweithio ag Ymddiriedolaeth Hamdden i ymchwilio i ba fannau sydd ar gael at defnydd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | fel y disgrifir yn y Cyfarwyddyd Statudol. | | | gan gynnwys darpariaeth gwyliau ar ôl ysgol a gofalwyr plant.<br><br>Mae'r Tîm Chwarae yn cadw cofnod o ddarparwyr Chwarae Mynediad Agored.<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfeirlyfr hyfforddi a chalendr yn ei le ar gyfer gweithwyr chwarae a darpariaeth chwarae gofrestredig i'w cyrchu.<br><br>Mae cymorth busnes Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar ar waith trwy ymagwedd wedi'i chomisiynu. | | chwarae, a sut y gallant roi'r rhain allan am ddim i weithwyr chwarae. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| D2 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig darpariaeth gwaith chwarae i gynnig amgylcheddau chwarae cyfoethog fel y disgrifir yn y Cyfarwyddyd Statudol | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo gwerth chwarae ac yn gweithio â gofal plant cofrestredig a darparwyr chwarae mynediad agored i ddatblygu a chynnig amgylchedd chwarae cyfoethog.<br><br>Mae Swyddog Chwarae dynodedig mewn swydd i gysylltu a chynnig cymorth.<br><br>Mae cyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynnig ar draws y sector, ac mae digwyddiadau penodol wedi cael eu cynllunio a'u targedu, hynny yw, 30 Diwrnod o Chwarae a Playfest, gweithdai ac mewn cydweithrediad â Chwarae Cymru - Cynhadledd Chwarae. | | |
| D3 | Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod partneriaid yn cynnig darpariaeth gwaith chwarae i gynnig | | | Fel uchod. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | amgylcheddau chwarae cyfoethog fel y disgrifir yn y Cyfarwyddyd Statudol | | | | | |
| D4 | Mae darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio mae'r Awdurdod Lleol yn ei darparu yn ateb y gofynion rheolaethol a'r Isafswm Safonau Cenedlaethol | | | Nid yw hyn yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol. | | |
| D5 | Mae darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio mae'r Awdurdod Lleol yn ei gyllido yn ateb y gofynion rheolaethol a'r Isafswm Safonau Cenedlaethol | | | Ie, yn unol â sylwadau uchod ynglŷn â chymorth hyfforddiant a bunes i'r sector. | | |
| D6 | Mae darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio mae partneriaid yr Awdurdod Lleol yn ei darparu yn diwallu'r anghenion rheoleiddiol ac Isafswm Safonau Cenedlaethol. | | | Fel uchod. | | |
| D7 | Mae darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio ar draws yr Awdurdod Lleol yn gweithio | | | Wedi'i rheoli a'i gweithredu trwy'r Blynyddoedd Cynnar a chymorth busnes wedi'i gomisiynu. | Mae Chwarae Cymru ar hyn o bryd yn datblygu rhaglen Sicrwydd Ansawdd Cymru Gyfan ond nid | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | tuag at raglen sicrwydd ansawdd gydnabyddedig. | | | Cyfleoedd grantiau ar gyfer darparwyr gofal plant i gynorthwyo Sicrwydd Ansawdd yn ei le. | yw hon yn barod eto i'w chyflwyno. | |
| D8 | Mae'r Awdurdod Lleol yn blaenoriaethu materion ansawdd wrth ymgysylltu â/comisynu'r sector preifat i ddarparu gweithgareddau hamdden i blant. | | | Mae'r holl gomisiynu yn cael ei weithredu trwy reoliadau caffael a chontractio'r Awdurdod Lleol.<br><br>Mae Cymryd Rhan wedi'u comisiynu i ddarparu cymorth busnes.<br><br>Mae Dechrau'n Deg wedi datblygu 'Teclyn Monitro Ymarfer Da' i gynorthwyo lleoliadau gofal plant. | I adolygu ac archwilio teclyn monitro tebyg gyda darparwr chwarae mynediad agored | |
| D9 | Maer Awdurdod Lleol yn darparu adeilad cyngor a lle am ddim i sefydliadau sy'n cynnig darpariaeth gwaith chwarae am ddim (ar bwynt mynediad) i blant | | | | Mae'r sector gofal plant yn gweithredu o fannau sy'n gofyn am daliadau e.e ysgolion, neuaddau cymuned, sy'n creu rhwystrau rhag darpariaeth gynaliadwy. | |

| Gweithgareddau hamdden wedi'u strwythuro i blant | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol** | **Meini Prawf** | **Statws RAG: 2019** | **Statws RAG 2022** | **Tystiolaeth i gefnogi cryfderau** | **Diffygion** | **Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu** |
| D10 | Mae chwaraeon, gweithgaredd corfforol a chynlluniau hamdden gweithredol awdurdod lleol yn cyfrannu at gynyddu gweithgareddau chwarae a hamdden am ddim | | | Rhedeg grwpiau yn unol â 3Rs sy'n cynorthwyo datblygiad plant.<br>Mae'r Rhaglen Nofio Genedlaethol Am Ddim gan Chwaraeon Cymru wedi cael ei hyrwyddo i rai o dan 16 a thalebau nofio am ddim i deuluoedd wedi cael eu rhoi i deuluoedd penodol.<br>Mae Heini Merthyr yn darparu gweithgareddau chwarae am ddim fel troeon cerdded teuluoedd, troeon cerdded bingo, geoguddio mewwn parciau lleol ac ati.<br>Mae cyllid wedi'i sefydlu i gynorthwyo plant i wneud | Mae cyllid wedi'i gynorthwyo ar gyfer rhai grwpiau yn unig.<br>Mae cynlluniau wedi cael eu cychwyn i hyrwyddo chwarae a chwaraeon i deuluoedd sydd ddim yn cymryd rhan ar hyn o bryd, ond mae bwlch gwybodaeth o hyd o fewn rhai grwpiau ynglŷn a phwysigrwydd cyrchu gweithgaredd corfforol. | • Parhau i hyrwyddo cynlluniau am ddim i sicrhau bod teuluoedd yn manteisio ar weithgareddau chwaraeon a hamdden sydd ar gael iddynt.<br>• Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw'n weithredol nid yn unig i blant a phobl ifanc ond i rieni hefyd<br>• Bwriadu datblygu startegaeth sy'n caniatáu i'r Awdurdod Lleol weithredu ymagwedd gydlynedig at hamdden, chwaraeon a gweithgareddau hamdden i blant a phobl ifanc trwy ddod â'r Awdurdod Lleol, yr Ymddiriedolaeth hamdden a darparwyrr eraill ynghyd e.e yn debyg i'r sesiynau stori, odl a chwarae sy'n digwydd yn y |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gweithgareddau corfforol megis reidio beic ac ati. | Nid oes strategaeth ffurfiol ar waith ar hyn o bryd ar gyfer hyn. Er bod yr Ymddiriedolaeth Hamdden wedi'u contarctio i ddarparu gwasanaethau ar ran yr awdurdod mae model y contract yn gyfarwyddol iawn ac nid yw'n caniatáu rhyddid i weithredu ac addasu i'r mathau o weithgaredd sydd eu heisiau a'u hangen yn yr ardal leol. | llyfrgelloedd ag elfen lythrennedd gorfforol<br>• Archwilio llwybrau hyfforddiant chwarae i Staff Ieuenctid. |
| D11 | Mae'r agenda chwaraeon yn cyfrannu at ddarparu gweithgareddau hamdden digonol i blant | | | Mae Heini MerthyrTudful yn datblygu darpariaeth chwaraeon a gweithgaredd corfforol ae draws CBSMT mewn nifer o ffyrdd. Maen nhw'n gweithio'n agos ag | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ysgolion i gynorthwyo'r datblygiad o gyfleoedd allgwrwicwlaidd ac uwchsgilio staff ysgol, cynorthwyo clybiau, grwpiau a sefydliadau lleol â cheisiadau am gyllid, cyngor a chyfleoedd datblygu a datblygu cynlluniau newydd i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cymryd rhan a sicrhau bod pawb ar draws Merthyr yn cael y cyfle i fod yn gorfforol weithredol. Maen nhw hefyd yn eirioli dros ac yn hyrwyddo buddion chwaraeon a gweithgaredd corfforol ac wedi rhedeg rhaglen Arweinyddion Ifanc i ddsysgu plant hŷn sut i hyrwyddo chwarae yn yr ysgol i blant iau.<br><br>Yn ogystal â hyrwyddo gweithgareddau chwarae am ddim, mae Heini Merthyr hefyd yn cynorthwyo darparwyr i | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ddarparu gweithgareddau taledig fel pêl-droed plant bach, rygbi a gweithgaredd dŵr i blant bach, yn ogystal â gemau hwyliog wedi'u seilio o gwmpas gymnasteg i hywyddo chwaraeon pleserus i blant iau. | | |
| D12 | Mae'r agendâu diwylliannol a chelfyddydau yn cyfrannu at ddarparu gweithgareddau hamdden digonol i blant | | | Mae'r Ymddiriedolaeth Hamdden wedi bod yn llwyddiannus i gael grant Cyngor y Celfyddydau i ddod a phobl greadigol ynghyd o fewn Merthyr o gwmpas model 'fforwm'.<br><br>Mae Canolfan Blant Integredig Cwm Golau yn darparu gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydau. Mae gweithgareddau Ysgol Coedwig ar gael hefyd yn ystod yr haf ac mae cyfarwyddyd yn cael ei roi ynghylch hyfforddiant.<br><br>Mae'r grŵp gofalwyr ifanc yn cynnig cyfleoedd megis | Nid oes agenda ddiwylliannol na chelfyddydol ym Merthyr Tudful, a dim gweithwyr proffesiynol Celfyddydau na swyddogion datblygu wedi'u cyflogi yn yr Awdurdod lleol am nifer o flynyddoedd.<br><br>Mae rhwystrau'n gallu cael eu creu weithiau oherwydd talu am gyfranogi. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | côr, ysgrifennu barddoniaeth ac ymweliadau theatr. Mae cymorth i ddiwylliant a'r celfyddydau yn ei le ar gyfer rhai 3-5 oed. | | |
| D13 | Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn darparu ar gyfer cyfleoedd hamdden a chymdeithasu plant. | | | Mae'r tîm ieuenctid yn darparu clybiau ieuenctid, canolfannau ieuenctid a gwaith stryd, wedi'i dargedu'n bennaf at rai 11-25 oed. Maen nhw'n darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol a chyfleoedd i chwarae'r tu allan trwy'r cynllun 'Dewch Allan'. | Er bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hateb, nid oes llwybr cymhwyso chwarae trawsnewidiol ar gyfer Staff Ieuenctid.<br>Mae cyfranogaeth rhieni yn faes i'w ddatblygu. | |

**Darpariaeth chwarae o dan oruchwyliaeth**

**Lle mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu lleoliadau fel rhan o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (CSAau), sut mae'r lleoliadau hyn wedi cael eu hasesu mewn perthynas â chyfleoedd ansawdd chwarae maen nhw'n eu darparu a'u cynnig?**

Mae'r tîm Blynyddoedd Cynnar yn sicrhau bod darpariaeth chwarae yn y ateb y gofynion rheolaethol a'r Isafswm Safonau Cenedlaethol. Mae Teclyn Monitro Ymarfer Dechrau'n Deg wedi cael ei ddatblygu i gynorthwyo lleoliadau mewn codi safonau i ddysgu plant a gwella ansawd darpariaeth cyn-ysgol ledled Merthyr Tudful.

**Sut mae'r ddarpariaeth nad yw'n rhan o'r ADGP wedi cael ei hasesu mewn perthynas â chyfleoedd ansawdd chwarae maen nhwn eu darparu a'u cynnig?**

Er mai dewis darparwyr chwarae yw cwblhau rhaglenni sicrwydd ansawdd, mae cyfleoedd grantiau i ddarparwyr gofal plant i geisio amdanynt i gynorthwyo'r cynllun hwn. Yn ystod yr ymgynghoriad a gyflawnwyd fel rhan o'r ADC, ymgynghorwyd â phlant, rhieni, a darparwyr chwarae ar ansawdd darpariaeth chwarae. Adroddodd darparwyr chwarae am adborth tu hwnt o gadarnhaol gan rieni ar ansawdd darpariaeth ac roedd plant i raddau helaeth yn hapus â'r lleoedd roeddent yn gallu chwarae, gan gynnwys y grŵp o dan 5 oed.

**Oes heriau wedi bod?**

Mae'r holl leoliadau chwarae'n talu ar hyn o bryd am eu mangreoedd. Yn ogystal, er bod digon o gyfleoedd hamdden ar gael i blant a phobl ifanc ym Merthyr, gan gynnwys gweithgareddau am ddim yn ogystal â rhai y telir amdanynt, mae'n fwlch gwybodaeth neu ymwybyddiaeth weithiau gan deuluoedd pam mae cyrchu'r gweithgareddau hyn yn fuddiol i blant a phobl ifanc. Dim ond un pwll nofio cyhoeddus sydd ym merthyr Tudful ar hyn o bryd ac nid yw derbyniad o'r Rhaglen Nofio Genedlaethol Am Ddim a thalebau nofio teulu wedi bod mor uchel ag y gallai fod. Mae llawer o strategaethau unigol ynghylch chwarae, teithio gweithredol, datblygu chwaraeon ac ati ond dim byd sy'n dod â'r llinynnau hyn at ei gilydd at nod cyffredin. Ar hyn o bryd mae diffyg meddwl cydlynedig ynghylch sut mae pob un o'r meysydd a'r gwasanaethau yn bwydo i mewn i'r blaenoriaethau corfforaethol a dim mesuriadau ystyrlon o effeithiau sefydliadau. Hefyd yn brin mae ffordd i'r sefydliadau gael adborth ynghylch effeithiau.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

Lledaenu negeseuon am bwysigrwydd cyfleoedd hamdden a diwylliannol a chyfle i gyrchu gweithgareddau am ddim trwy bartneriaid allweddol. Codi ymwybyddiaeth o gadw'n weithredol twy barhau i hyrwyddo gwewithgareddau fel y rheini wedi'u targedu at famau newydd ynghylch deall pwysigrwydd bod yn weithredol â'u plant. Parhau i ymestyn at grwpiau cymunedol i hyrwyddo hamdden ac ystyried sybsideiddio neu gyllido mangroedd ar gyfer gwaith chwarae, yn enwedig mewn ardaloedd dan anfantais. Dod â sefydliadau ynghyd i adeiladu strategaeth sy'n mynd i'r afael â phrif faterion fel gordewdra ym Merthyr a chael dulliau ar waith i fesur effaith y strategaeth hon.

**Argymhelliad: Mynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth trwy barhau i weithio'n agos â Heini Merthyr a hyrwyddo gweithgareddau hamdden am ddim, wedi'u targedu'n benodol at deuluoedd dan anfantais.**

**Argymhelliad: Parhau i hyrwyddo cynlluniau fel tabebau nofio am ddim i deuluoedd trwy gyfryngau amrywiol a thrwy ysgolion i sicrhau bod y teuluoedd â'r angen mwyaf yn cael eu targedu.**

**Argymhelliad: Cymryd ymagwedd gydlynedig at hamdden, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, Ymddiriedolaeth Hamdden a darparwyr eraill i sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at nod cyffredin.**

**Mater E: Codi taliadau am ddarpariaeth chwarae**

Dylair Awdurdod Lleol ystyried pa gyfleoedd chwarae sy'n cynnwys codi tâl a'r graddau y bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried y taliadau hyn wrth asesu ar gyfer cyfleoedd chwarae digonol i blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel fel yr amlinellir yn y Cyfarwyddyd Statudol.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Atebwyd y meini prawf yn llawn | |
| Atebwyd y meini prawf yn rhannol. | x |
| Ni chafodd y meini prawf eu hateb | |

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| E1 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel | | | Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw fel rhan o'r ADGP, yn ogystal ag at bwrpas y prosiect ysgol Coedwig ar Haf o hwyl/Gaeaf Llesiant. | | • Defnyddio rhagor o wybodaeth cyn gynted â'i bod ar gael o Gyfrifiad 2021 i gynllunio darparu gweithgareddau hamdden i blant mewn teuluoedd incwm isel.<br>• Sefydlu mecanweithiau i gofnodi darpariaeth dim |
| E2 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o | | | Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi fel rhan o'r ADGP (gweler Mater A) ac | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | blant sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd. | | | at ddibenion cadanhau cymhwyster ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg. | | cost/cost isel a mangreoedd ar gyfer chwarae<br>• Ymchwilio i sut mae trafnidiaeth wedi'i sybsideiddio yn gallu cael ei darparu i gynyddu'r amrediad o chwarae ar gael i blant, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig. |
| E4 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig | | | Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi fel rhan o'r ADGP (gweler Mater A) ac at ddibenion cadarnhau cymhwyster ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg. | | |
| E5 | Maer Awdurdod Lleol yn cadw cofnodiom o'r nifer o blant anabl a'r rheini ag anghenion neilltuol. | | | Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi fel rhan o'r ADGP ac at ddibenion cadanhau cymhwyster ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg.<br>Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw gan ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol hefyd. | | |
| E6 | Mae'r Awdurdod lleol yn cofnodi'r ddarpariaeth ddim cost sydd ar gael | | | Maer Awdurdod Lleol yn cofnodi'r ddarpariaeth ddim cost sydd wedi'i | Byddai hyn yn gofyn i'r holl ddarpariaethau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chofrestru â'r FIS sydd ar gael. | chwarae gofrestru â'r FIS. | |
| E7 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cofrestru'r ddarpariaeth o fangreoedd dim cost / cost isel a ddarperir ar gyfer darpariaeth chwarae | | | Mae cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer hyn. | Mae adolygiad o'r data hyn yn ofynnol. | |
| E9 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi'r darpariaethau lle mae grantiau neu gymorthdaliadau ar gael i ddarparwyr chwarae | | | Maer Awdurdod Lleol yn cofnodi hyn ar gyfer darpariaethau wedi'u cofrestru fel gofal plant. Mae gan yr Awdurdod Lleol restr o bob darparwr sydd wedi cael grantiau. | | |
| E8 | Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu trafnidiaeth â chymorthdal i blant sy'n teithio i gyfleoedd chwarae | | | Mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu cyrchu eu lleoliadau chwarae o fewn pellter cerdded.<br><br>Mae nifer fach o leoliadau chwarae mynediad agored cymunedol a'r grwpiau gofalwyr ifanc, yn darparu eu trafnidiaeth eu hunain | Nid yw'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn darparu unrhyw drafnidiaeth â chymorthdal i blant sy'n teithio i gyfleoedd chwarae neu leoliadau Blynyddoedd Cynnar. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wedi'i gyllido fel bysiau mini. | Adroddodd llawer o blant a phobl ifanc eu bod yn gorfod cael oedolyn i fynd â nhw i gyrraedd lle roeddent am chwarae neu dreulio amser. | |

**Codi taliadau am ddarpariaeth chwarae**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod plant yn cael mynediad at ddarpariaeth ddim cost neu gost isel?**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o ddarpariaeth gost isel a dim cost, yn ogystal â chynorthwyo teuluoedd i gyrchu hawliau wedi'u cyllido ar gyfer lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a darpariaeth Dechrau'n Deg. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cadw cofnodion o bob darparwr chwarae sydd wedi cael grantiau.

**Oes heriau wedi bod?**

Mae trafnidiaeth yn broblem ledled Merthyr Tudful ac nid yw'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn darparu trafnidiaeth â chymorthdal i unrhyw leoliadau.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

Dylai'r Awsurdod Lleol ystyried sut mae'n gallu darparu trafnidiaeth â chymorthdal i leoliadau, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig neu i grwpiau o blant â nodweddion gwarchodedig.

**Argymhelliad: Asesu lle mae'r pwyntiau poen mewn perthynas â thrafnidiaeth i leoliadau chwarae ac ystyried cyfeirio cyllid tuag at deithio a chymorthdal i'r ardaloedd hynny.**

**Mater F: Mynediad at le/darpariaeth**

Dylair Awdurdod Lleol ystyried yr holl factorau sy'n cyfrannu at fynediad plant at chwarae neu symud o gwmpas eu cymuned.

**Statws RAG:**

| | |
|---|---|
| Atebwyd y meini prawf yn llawn | |
| Atebwyd y meini prawf yn rhannol. | X |
| Ni chafodd y meini prawf eu hateb | |

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| F1 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod wedi'i ddiweddaru o'r nifer o barthau 20 mya/parthau diogelwch ysgol mewn ardaloedd preswyl | | | Mae'r Awdurdod lleol wedi diweddaru'r hen system yn ddiweddar ac mae cofnod o hyn yn cael ei gadw yn awr ar y GIS. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu gwneud 20mya yn ddiofyn mewn ardaloedd preswyl â dyddiad targed o Fedi | | • Parhau i weithio â Theithio Gweithredol i sicrhau bod ardaloedd chwarae, nid cyfleusterau hamdden yn unig, yn cael eu mapio a llwybrau diogel yn cael eu hadnabod.<br>• Ymgymryd â thrafodaeth ynghylch y posibilrwydd o ragor |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2023, fel na fydd angen rhai o'r parthau hyn mwyach. | | o ffyrdd yn cael eu cau ar gyfer chwarae<br>• Parhau i roi cynigion am gyllid Diogelwch Ffyrdd |
| F2 | Mae gan yr Awdurdod Lleol fecanwaith wedi'i adnabod ar gyfer asesu effaith gostwng cyflymder a mesurau diogelwch ffyrdd eraill ar y cyfle i blant chwarae'r tu allan yn eu cymunedau | | | Mae mecanwaith ar waith i sicrhau gostwng cyflymder a thraffig. Mae'r Awdurdod Lleol a Theithio Gweithredol wedi cynnal arolygon cyflymder ac arolygon traffig, gan wella mynediad at ysgolion trwy gyllid Teithio Gweithredol a grantiau diogelwch ffyrdd.<br><br>Nid yw parciau wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth, ond mae Teithio Gweithredol wedi'u hystyried wrth asesu effaith. | Mae hyn wedi bod yn bennaf o gwmpas ysgolion, yn hytrach nac ardaloedd chwarae yn gyffredinol. | |
| F3 | Mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun(iau) i leihau effaith negyddol ffyrdd a chyffyrdd prysur trwy gyflwyno mesurau lleihau cyflymder a darpariaeth o | | | Cyflwynodd Teithio Gweithredol fap rhwydwaith Teithio Gweithredol i Lywodraeth Cymru, sy'n dangos llwybrau presennol a | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | fannau/llwybrau croesi i gerddwyr a seiclwyr | | | llwybrau cerddwyr i'r dyfodol a ddymunir wedi'u hadnabod gan breswylwyr, yn dilyn misoedd o ymgynghori.<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol restrau blaenoriaeth ar gyfer croesfannau/llwybrau newydd, fydd yn helpu i benderfynu lle mae cyllid yn cael ei ddyrannu. Mae hyn yn cael ei asesu'n flynyddol a'i weithredu gan ddefnyddio cyllid Teithio Gweithredol, cyllid Llwybr Diogel, cyllid cyfalaf diogelwch ffyrdd a chyllid refeniw diogelwch ffyrdd. | | |
| F4 | Mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun(iau) i wella mynediad cerdded a seiclo i barciau, cyfleusterau chwarae awyr agored a chanolfannau hamdden lleol o ardaloedd preswyl. | | | Cyflwynodd Teithio Gweithredol fap rhwydwaith Teithio Gweithredol i Lywodraeth Cymru, sy'n dangos llwybrau presennol a llwybrau cerddwyr i'r dyfodol a ddymunir wedi'u | Dylair Awdurdod Lleol sicrhau ystyried parciau, ardaloedd chwarae, MUGAau a chyfleusterau chwarae awyr | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hadnabod gan breswylwyr, yn dilyn misoedd o ymgynghori. Ystyriwyd canolfannau hamdden wrth greu'r map. | agored eraill wrth ddiweddaru'r map. | |
| F5 | Mae potensial i'r Awdurdod Lleol weithredu ymhellach i leihau cyflymder traffig a gwella diogelwch ffyrdd i hyrwyddo cyfleoedd chwarae | | | Bydd cynllun Llywodraeth Cymru i leihau cyflymderau mewn ardaloedd preswyl yn cael ei gyflwyno erbyn Medi 2023. Bydd yr Awdurdod Lleol a Theithio Gweithredol yn parhau i gynnal arolygon cyflymder a thraffig. | Mae rhieni'n dweud nad ydynt yn teimlo bod eu plant yn ddiogel o gwmpas ffyrdd, gyda ffyrdd prysur a rhai cerbydau'n gyrru'n beryglus. | |
| F6 | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio grantiau diogelwch ffyrdd a/neu gyllid arall i gynorthwyo darparu hyfforddiant seiclo i blant i safonau cenedlaethol | | | Mae cryn nifer o blant yn seiclo i leoedd i chwarae, ac mae'r Awdurdod lleol yn gweithio i gynorthwyo plant i ddysgu sut i reidio beic.<br><br>Mae cyllid refeniw yn darparu arian ar gyfer hyfforddiant seiclo i ddisgyblion ysgol gynradd. Mae'r Awdurdod Lleol | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hefyd yn darparu'n flynyddol: hyfforddiant cerddwyr, hyfforddiant gallu cydbwyso, sesiynau dysgu i reidio a hyfforddiant lefel 3 i blant hŷn i seiclo'n ddiogel ar y ffordd. | | |
| F7 | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio grantiau diogelwch ffyrdd a/neu gyllid arall i ddarparu hyfforddiant diogelwch cerddwyr i blant | | | Mae'r Awdurdod Lleol wedi penodi hyfforddwr plant i gerdded i ddarparu hyn mewn ysgolion cynradd, wedi'i dargedu at blant Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae hyn yn hyfforddiant ymarferol ar y ffordd. | | |
| F8 | Mae gan yr Awdurdod Lleol ffordd hygyrch ac adnabyddus o drefnu cau ffyrdd dros dro, i gynorthwyo rhagor o blant i chwarae y tu allan i'w cartrefi | | | Mae mecanwaith ar waith i gau ffyrdd ar gyfer digwyddiadau. Mae teithio gweithredol wedi cyfarfod hefyd â'r Grŵp Llywio Chwarae i roi proses gadarnach ar waith ar gyfer chwarae yn benodol. | Mae Teithio Gweithredol a'r Grŵp Llywio Chwarae ar hyn o bryd yn trafod i ddatrys materion ynghylch sut mae hyn yn rhedeg, sut mae'n cael ei gyllido ac ati. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| F9 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at *Manual for Streets* wrth ystyried datblygiadau newydd a newidiadau i rwydwaith y priffyrdd/tirlun trefol | | | Mae hyn wedi cael ei ystyried. Mae cyfarwyddyd cynllunio Teithio Gweithredol wedi cael ei ddatblygu ac mae'n mynd dros ben hyn ar gyfer datblygiadau newydd. | | |
| F10 | Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio i ganllawiau ymarfer da wedi'u cydnabod yn genedlaethol wrth ddatblygu cyfleusterau cerdded a seiclo | | | Mae hyn yn cael ei gwmpasu trwy'r Ddeddf Teithio Gweithredol. | | |
| F11 | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio data dioddefwyr damweiniau ffordd am blant i lunio lleoliad a chynllun ymyriadau fydd yn helpu plant i fynd o gwmpas yn annibynnol yn eu cymunedau | | | Mae unrhyw gynllun wedi'i ddatblygu gan Deithio Gweithredol yn ystyried y data hyn. Mae data damweiniau cerddwyr yn cael eu hystyried bob amser, i oedolion yn ogystal a phlant. | | |
| F12 | Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried anghenion plant i gyrchu cyfleoedd chwarae wrth wneud penderfyniadau | | | Wedi'i ystyried ym map rhwydwaith Teithio Gweithredol | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | am gynllunio a gwario ar drafnidiaeth gyhoeddus | | | | | |
| F13 | Mae gofynion plant anabl yn cael eu deall a darperir ar eu cyfer o fewn cynlluniau traffig a thrafnidiaeth. | | | Mae pob cynllun yn gynhwysol ac wedi'u haddasu yn dibynnau ar angen. | | |
| **Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau:**<br>**Er mwyn i blant a theuluoedd gymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae, gweithgareddau a digwyddiadau hamdden mae'n angenrheidiol iddynt wybod beth sydd ar gael yn eu hardal.** | | | | | | |
| F14 | Mae gan yr Awdurdod Lleol adran wedi'i hadnabod yn glir ar ei wefan sy'n rhoi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae fel y dsgrifir yn y Cyfarwyddyd Statudol ( ardaloedd chwarae, darpariaeth chwarae, clybiau a'u hygyrchedd) | | | Mae gan wefan yr Awdurdod Lleol adrannai penodol ar hamdden, parciau a mannu agored, yn ogystal â thudalennau penodol ar gyfer cynlluniau fel y Gaeaf Llesiant.<br>Mae gwybodaeth am ddigononlrwydd chwarae yn cael ei darparu trw wefan FIS. | | • Sicrhau bod hyn cael ei gadw wedi'i ddiweddaru ag unrhyw gynlluniau chwarae newydd a bod rheini'n gallu cael eu cyfeirio'n hawdd at wybodaeth ar chwarae a phwysigrwydd chwarae, yn ogystal â'r gwasanaethau ar gael.<br>• Ystyried sut i hyrwyddo cyfleoedd i deuluoedd sydd efallai heb gyswllt rheolaidd â'r |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | rhyngrwyd, e.e. trwy bosteri, taflenni yn y gymuned leol<br>• Gweithio gyda'r tîm ieuenctid i ganfod sut y gellir cyrraedd rhieni'n well i ymgysylltu â gweithgareddau ochr yn ochr â'u plant. |
| F15 | Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth ar fynediad at gyfleoedd chwarae a chyswllt ar gyfer cymorth os oes angen | | | Mae hon yn gallu cael ei darparu gan yr Awdurdod Lleol os oes angen, ac ar gael yn agored trwy Wasanaethau Gwybodaeth Teuluoedd | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| F16 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau sy'n annog cyfleoedd a digwyddiadau chwarae i blant a theuluoedd | | | Ydi, mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi ac yn hyrwyddo digwyddiadau fel y defnydd o gyflwyno Ymgyrch 30 Diwrnod o Chwarae, Playfest, Haf o Hwyl, Gaeaf Llesiant a chynlluniau eraill yn flynyddol i annog cyfranogaeth i amrywiaeth o bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. | | |
| F17 | Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth sy'n cyfrannu at agweddau cymunedol cadarnhaol at chwarae | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn hysbysebu pwysigrwydd chwarae a digwyddiadau chwarae parhaol. Oherwydd eu llwyddiant a'r cyllid a ddarperir, mae'r Awdurdod Lleol wedi gallu cynyddu'r nifer o Playfestau mae'n eu cynnal, sy'n cael cyhoeddusrwydd trwy'r FIS a'r wefan gorfforaethol. Mae chwarae'n cael ei hyrwyddo'n gadarnhaol trwy'r Playfestau hyn.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd blynyddol i | Mae'r Tîm Chwarae yn fach ac felly'n brin o gapasiti i redeg ymgyrchoedd hysbysebu/marchnata helaeth.<br><br>Mae llwyddiant yr Awdurdod Lleol mewn rhoi cyhoeddusrwydd a chynnal digwyddiadau sy'n cyfrannu at agweddau cymunedol cadarnhaol at chwarae wedi bod | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Playfest a'r ymgyrch 30 Diwrnod o Chwarae.<br><br>Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi arwain at ddiddordeb cynyddol gan rieni i ddod i mewn i waith chwarae. | oherwydd adnoddau a grantiau ychwanegol i wneud hyn yn bosibl. Er bod y grant Gwaith Chwarae Gwyliau yn grant sy'n cael ei dyfarnu'n flynyddol, ni fydd yn cwmpasu cost yr holl farchnata a hysbysebu. | |
| F18 | Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd a chymorth i rieni i'w helpu i annog eu plant i chwarae | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgysylltu â rhieni trwy ei wefannau, sianelau cyfryngau cymdeithasol a'r FIS i ddarparu gwybodaeth ac anogaeth i chwarae | Mae diffyg canfyddedig o ymgysylltu gweithredol â rhieni yn y sector ieuenctid. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| F19 | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio arwyddion cyfeirio ar safleoedd i ddiogelu a hyrwyddo chwarae | | | Mae arwyddion yn cael eu defnyddio ond yn gyfyngedig i ardaloedd chwarae dynodedig. | Mae angen edrych ar arwyddion y tu hwnt i ardaloedd chwarae dynodedig i hyrwyddo chwarae plant yn y ffordd hon. | |
| F20 | Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgysylltu â'r cyfryngau i annog y portread cadarnhaol o blant yn chwarae yn yr ardal leol | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgysylltu trwy gylchgrawn Connect y Cyngor a thrwy sianelau fel y FIS a rhwydweithiau rhanddeiliaid.<br>Mae gwefannau wedi cael eu datblygu ar gyfer yr Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llesiant sy'n cynnwys dolenni at yr holl ddarparwyr chwarae. | Nid oes gan yr Awdurdod Lleol y cyllid ar hyn o bryd i ymgysylltu ag unrhyw beth heblaw am sianelau cyfryngau am ddim yr Awdurdod Lleol. | |

**Mynediad at le/darpariaeth**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau cydweithrediad i sicrhau bod plant yn gallu symud o gwmpas eu cymunedau i gynyddu mynediad at gyfleoedd i chwarae?**

Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo sawl cynllun cerdded i annog plant i gerdded i ardaloedd chwarae, yn ogystal â darparu llawer o gymorth ar gyfer dysgu seiclo o oedran ifanc a hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r ffordd i blant yng Nghyfnod Allweddol 1.

**Oes heriau wedi bod?**

Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ar gael a phrinder teithio â chymorthdal gan yr Awdurdod Lleol**.** Dim strwythur yn ei le ar gyfer cau ffyrdd at ddibenion chwarae.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

Cyllid uniongyrchol at gynorthwyo lleoliadau â theithio i blant a phobl ifanc Mae Heini Merthyr a'r Tîm Digonolrwydd Chwarae i fod i gyfarfod i drafod mecanweithiau ynglŷn a chau ffyrdd yn symud ymlaen.

**Argymhelliad: Mae Heini Merthyr a'r Tîm Digonolrwydd Chwarae i fod i gyfarfod i drafod mecanweithiau ynglŷn a chau ffyrdd yn symud ymlaen.**

**Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau:**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio gwybodaeth yn gadarnhaol i gynorthwyo mynediad at ddarpariaeth chwarae?**

Mae'r Awdurdod Lleol yn hysbysebu pwysigrwydd chwarae a digwyddiadau chwarae parhaol. Oherwydd eu llwyddiant a'r cyllid a ddarperir, mae'r Awdurdod lleol wedi gallu cynyddu'r nifer o Playfestau mae'n eu cynnal, sy'n cael cyhoeddusrwydd trwy'r FIS a'r wefan gorfforaethol. Mae chwarae'n cael ei hyrwyddo'n gadarnhaol trwy'r Playfestau hyn. Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd blynyddol i Playfest a'r ymgyrch 30 Diwrnod o Chwarae.

**Oes heriau wedi bod?**

Dibyniaeth uchel ar grantiau er mwyn cynnal a hyrwyddo'r gweithgareddau uchod. Mae'r Tîm Chwarae yn fach ac felly'n brin o gapasiti i redeg ymgyrchoedd hysbysebu/marchnata helaeth. Mae llwyddiant yr Awdurdod Lleol mewn rhoi cyhoeddusrwydd a chynnal digwyddiadau sy'n cyfrannu at agweddau cymunedol

cadarnhaol at chwarae wedi bod oherwydd adnoddau a grantiau ychwanegol i wneud hyn yn bosibl. Er bod y grant Gwaith Chwarae Gwyliau yn grant sy'n cael ei dyfarnu'n flynyddol, ni fydd yn cwmpasu cost yr holl farchnata a hysbysebu.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

Parhau i ddefnyddio sianeli hysbysebu am ddim. Ymestyn at y gymuned

**Argymhelliad: Gweithio gyda'r tîm Blynyddoedd Cynnar i adolygu canfyddiadau'r prosiect ymgysylltu â rhieni i ddeall yn well sut i ymgysylltu'n weithredol â rhieni a phlant a phobl ifanc ynghylch gwaith a chwarae ieuenctid.**

**Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae**

Dylai'r Awdurdod Lleol ddarparu gwybodaeth ar strwythur sefydliadol y maes polisi sy'n rheoli'r agenda chwarae a'r gweithlu chwarae.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Atebwyd y meini prawf yn llawn | |
| Atebwyd y meini prawf yn rhannol. | x |
| Ni chafodd y meini prawf eu hateb | |

**Sylwer - Mae'r meini prawf hyn am Waith Chwarae yn unig: Mae gwaith chwarae yn broffesiwn medrus iawn sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae. Mae'n digwydd lle mae oedolion yn cynorthwyo chwarae plant ond nid yw'n cael ei yrru gan addysg na chanlyniadau gofal rhagnodedig. Mae hyn yn cynnwys mynediad agored yn ogystal â lleoliadau gofal plant y tu allan i ysgolion.**

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| G1 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw gwybodaeth gyfredol ynglŷn â'r gweithlu gwaith chwarae ar draws yr Awdurdod Lleol (dylai hyn gynnwys y nifer o weithwyr chwarae, strwythur rheoli gwaith chwarae, lefelau cymhwyster, cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddolwyr) | | | Mae mecanwaith ffurfiol ar waith i gofnodi ar gyfer darparwyr gofal plant cofrestredig<br>Mae systemau ar gyfer darparwyr chwarae mynediad agored wedi bod ac yn parhau i gael eu datblygu | Mae rhagor o waith i'w wneud i sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei chofnodi ar gyfer yr holl weithwyr chwarae.<br><br>Er yr ymgymerwyd yn ddiweddar ag archwiliad hyfforddiant, roedd hyn wedi'i gyfyngu gan ymgysylltiad gwirfoddol cyfyngedig a diffyg capasitii. | • Sicrhau bod mecanweithiau ar waith i gofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am weithwyr chwarae<br>• Defnyddio capasiti ychwanegol i ymgymryd â'r archwiliad hyfforddiant a chreu pecynnau pwrpasol o hyfforddiant sy'n llenwi bylchau anghenion<br>• Gweithio gyda'r grŵp llywio i adnabod sut mae modd ymgymryd â phwysigrwydd chwarae a chodi proffil gwaith chwarae trwy hyfforddiant<br>• Adnabod ffrydiau cyllid tymor hir i sicrhau bod gweithwyr chwarae a rhieni yn gallu parhau i gael eu cymell i |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ymgymryd â hyfforddiant |

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| G2 | Maer Awdurdod Lleol yn cynorthwyo'r holl weithlu i gyflawni'r lefel cymhwyster sydd ei angen gan Isafswm Safonau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru | | | Mae cynllun Datblygu Gweithlu Blynyddoedd Cynnar ar waith, a chyfleoedd hyfforddiant yn cael eu rhannu ar draws darparwyr gofal plant yn ogystal â chwarae mynediad agored. | Mae'r cynllun datblygu gweithlu i fod i gael ei adolygu. | |
| G3 | Mae gan yr Awdurdod Lleol gyllideb datblygu staff wedi'i chlustnodi ar gyfer chwarae, gan gynnwys gwaith chwarae | | | Mae cyfleoedd hyfforddiant chwarae yn cael eu rhannu ar draws y sector chwarae. Mae darparwyr chwarae, mewn gofal plant neu beidio, yn gallu cyrchu hyn. | | |
| G4 | Mae amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus (CPD) ar gael i weithwyr chwarae yn yr ardal | | | Trwy gynllun Datblygu Gweithlu Blynyddoedd Cynnar ac ymagwedd a chytundeb rhanbarthol, mae cyfleoedd hyfforddiant yn cael eu rhannu ar draws y sector darparwyr chwarae | Mae tarfu wedi bod ar Ddatblygu Proffesiynol Parhaus oherwydd y pandemig. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cofrestredig ac anghofrestredig.<br><br>Trwy'r sector Blynyddoedd Cynnar a chysylltiadau â darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned - mae cyfleoedd hyfforddiant megis cymwysterau Chwarae a'r<br><br>cwrs 'Trawsnewid i Waith Chwarae' yn cael ei hyrwyddo | | |
| G5 | Mae hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr a rhieni i ddatblygu eu gwybodaeth ar sgiliau mewn gwaith chwarae | | | Megis uchod, a thrwy fuddsoddiad grant AWPOG, cafodd cynllun cymell hyfforddiant ei gynnig i ddarparwyr chwarae heb eu cofrestru- gan arwain at 5 gwirfoddolwr un darparwr yn cofrestru ar y cwrs Gwaith Chwarae Lefel 1. | Dibyniaeth ar arian grant am gymhellion | |

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| G6 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys gwaith chwarae o fwen ei strategaethau Datblygu Gweithlu | | | Mae gwaith chwarae'n cael ei gynnwys mewn cynllunio a chynlluniau datblygu gweithlu. | Maer cynllun datblygu gweithlu i fod i gael ei adolygu a'i osod yn erbyn polisi newydd LlC. | • Adolygu'r cynllun datblygu gweithlu i asesu newidiadau mewn blaenoriaethau yng ngolau polisi LlC a heriau COVID-19 |
| G7 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynorthwyo partneriaid i ddarparu hyfforddiant priodol i grwpiau cymunedol, rhieni a gwirfoddolwyr | | | Mae gan yr Awdurdod Lleol gontract cymorth busnes ar waith ac mae'n cynorthwyo grwpiau cymunedol i sicrhau bod ganddynt y strwythurau busnes cywir ac i geisio am grantiau allanol. | | |

| Sylwer - mae'r meini prawf hyn ynglŷn â'r gweithlu Chwarae: Mae hyn yn cwmpasu unrhyw un a gyflogir y mae ei rôl yn cael effaith ar blant yn chwarae - y rheini a all naill ai hwyluso'u chwarae, cynllun i chwarae, neu'r rheini a'r pŵer i roi caniatâd i blant chwarae, neu beidio. | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| G8 | Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgymryd â dadansoddiad anghenion hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu chwarae fel y'i diffinnir yng ngeirfa'r pecyn cymorth ac uchod | | | Mae archwiliad hyfforddiant wedi cael ei wneud ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a Chwarae Mynediad Agored. | Nid yw hyn yn cwmpasu'r holl gyflogeion sy'n cael effaith ar blant yn chwarae, fel y diffinnir uchod. | • Sicrhau bod yr archwiliad yn cwmpasu pob maes o chwarae |
| G9 | Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithredu i ehangu'r amrywiaeth o gyfleodd dysgu a datblygu sy'n cael eu cynnig i staff. | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud hyn fel rhan o'i gyfarwyddiaeth hyfforddiant ac mae'n ateb yr Isafswm Safonau Cenedlaethol. | | |
| G10 | Mae amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus ar gyfer amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant | | | Cyfarwyddiaeth Hyfforddiant wedi'i rannu ag amrediad o weithwyr proffesiynol trwy gydol y flwyddyn, hynny yw, darparwyr gofal plant a mynediad agored | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Digwyddiadau rheolaidd a chyfleoedd hyfforddiant a hyrwyddir, hynny yw, mewn cydweithrediad â Chwarae Cymru - ymagwedd gynhadledd Chwarae yn cael ei chyflwyno. | | |
| G11 | Mae sesiynau ymwybyddiaeth o hyfforddiant ar gael i weithwyr proffesiynol a gwneuthurwyr penderfyniadau y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd i chwarae | | | Cyfarwyddiaeth Hyfforddiant ar waith, a thrwy weithdai a digwyddiadau cyfleoedd hyfforddiant yn cael eu hyrwyddo a darparwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan/cofrestru. | | |

**Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi ateb y gofyniad i ymgymryd â neu sicrhau'r swyddogaethau rheolaethol a darparu i gyflawni cyfleoedd chwarae digonol?**

Ers y ADC diwethaf, mae'r Awdurdod Lleol wedi cynyddu'r amser oddi wrth y Swyddog Chwarae i sicrhau bod arweinydd strategol llawn amser o fewn yr Awdurdod Lleol ag amser dynodedig i gynorthwyo gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae. Mae'r swydd hon yn hanfodol i hwyluso partneriaethau, cynnal ymagwedd yn unol â'r datganiad egwyddor, codi proffil y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae a sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i hawl plantyn i chwarae ledled yr awdurdod.

**Sut mae'r Awurdod Lleol wedi sicrhau ei fod yn deall ac yn darparu ar gyfer anghenion datblygu gweithlu y gweithlu chwarae (fel y diffinnir yn *Cymru: Gwlad Gyfeillgar at Chwarae ac uchod)?***

Mae archwiliad hyfforddiant wedi cael ei wneud ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a Chwarae Mynediad Agored. Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfarwyddiaeth hyfforddiant ac mae'n gweithio'n agos ag Addysg i ddarparu cyrsiau mewnol. Mae seicolegwyr addysgol Dechrau'n Deg yn darparu hyfforddiant ELSA. Cyn grantiau cymell, byddai'r Awdurdod Lleol yn annog gweithwyr chwarae i ymgymryd â chymwysterau chwarae am ddim. Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod anghenion cyflogaeth cyffredinol megis diogelu, iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf ac ati, yn cael eu diwallu. Mae'r Tîm Chwarae wedi ymuno a'r calendr hyfforddi Blynyddoedd Cynnar i ddarparu hyn. Bydd y gynhadledd chwarae sydd i ddod yn darparu rhagor o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus

**Sut mae'r Awurdod Lleol wedi sicrhau ei fod yn deall ac yn darparu ar gyfer anghenion datblygu gweithlu y gwethlu chwarae (fel y diffinnir yn *Cymru: Gwlad Gyfeillgar at Chwarae ac uchod)?***

Ers 2015, mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun datblygu gweithlu ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gofal plant a'r gweithlu chwarae. Mae'r cynllun hwn i fod i gael ei adolygu.

Mae LlC wedi cyhoeddi cyfarwyddyd newydd yn ddiweddar ar gyfer datblygiad cynllun gweithlu 10 mlynedd sy'n adnabod amrediad o amcanion ar draws y tair thema o arweinyddiaeth, denu gweithwyr newydd o ansawdd uchel, a chodi sgiliau a safonau ar draws y gweithlu presennol. Mae hyn yn cynnwys amcan clir i *"ganfod lle ar gyfer chwarae sy'n cefnogi cynnig darpariaeth chwarae o ansawdd a datblygiad gweithlu cynaliadwy wedi'i alluogi".*

Mae'r cynllun gweithlu yn cyfeirio at argymhellion o'i asesiadau digonolrwydd chwarae yn 2013 a 2016 a'r asesiad digonolrwydd gofal plant. Wrth wneud hynny mae'n cydnabod yr angen i *"uwchsgilio'r gweithlu plant a phobl ifanc mewn cymwysterau gwaith chwarae"* a'r angen am *"ymagwedd strwythuredig at ddatblygu gweithlu i sicrhau darparu darpariaeth o ansawdd".*

**Oes heriau wedi bod?**

Mae COVID-19 wedi creu heriau o gwmpas darparu hyfforddiant staff a chadw a recriwtio staff. Mae cynnydd wedi bod mewn rhai yn cymryd rhan mewn hyfforddiant, ond mae hyn oherwydd y grant cymell.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

Mae rhieni wedi mynegi diddordeb mewn ymgymryd â chymwysterau gweithwyr chwarae wrth fynychu digwyddiadau. Dylai'r Awdurdod Lleol barhau i gynorthwyo rhieni i ymgymryd â'r mathau hyn o gymwysterau. Dylair Awdurdod Lleol ystyried ffyrdd i annog datblygiad gweithlu sydd ddim yn dibynnol ar grantiau cymell e.e. trwy godi proffil gweithiwr chwarae fel proffesiwn.

**Argymhelliad: Adolygu'r cynllun datblygu gweithlu presennol i sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas.**

**Argymhelliad: Defnyddio'r archwiliad hyfforddiant i ffurfio 'cynllun adferiad COVID-19' i gychwyn rhagor o sesiynau hyfforddiant i uwchsgilio'r gweithlu.**

**Argymhelliad: Parhau i gynnig cymhellion, lle'n bosibl, i weithwyr chwarae a rhieni i gwblhau hyfforddiant. Lle nad yw hyn yn bosibl, codi proffil gwaith chwarae trwy ymgyslltu, cymorth mewn ffeiriau swyddi a hyrwyddo chwarae.**

**Mater H: Ymgysylltu a chyfranogaeth gymunedol**

Dylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori'n eang â phlant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill ar eu barn ar ddarpariaeth chwarae. Dylai hefyd hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol eang mewn darparu cymunedau cyfeillgar at chwarae.

Statws RAG:

| | |
|---|---|
| Atebwyd y meini prawf yn llawn | x |
| Atebwyd y meini prawf yn rhannol. | |
| Ni chafodd y meini prawf eu hateb | |

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| H1 | Maer Awdurdod Lleol yn hyrwyddo cynlluniau i ymgysylltu â grwpiau perthnasol mewn gwella cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardal. | | | Ydi, mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo ymgysylltu â grwpiau perthnasol. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn hyrwyddo digwyddiadau cymunedol amrywiol trwy gydol y flwyddyn ac mae'n hyrwyddo gwerth chwarae yn flynyddol trwy ei Ymgyrch 30 Diwrnod o Chwarae a digwyddiad Playfest. | Mae'r fath gynlluniau a digwyddiadau yn bosibl oherwydd cyllid grant yn unig. | |
| H2 | Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol mewn:<br>- trefnu bod mannau ar gael ac yn addas ar gyfer chwarae<br>- trefnu digwyddiadau chwarae<br>- agweddau cadarnhaol at blant a chwarae<br>- hyfforddiant ar y pwysigrwydd o chwarae. | | | Mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu gwlyptiroedd ac mae wedi cyfeirio cyllid at wella cyfarpar chwarae sefydlog. Mae'r tîm chwarae stryd yn hyrwyddo agwedd gadarnhaol at chwarae i blant a ohobl ifanc ac mae digwyddiadau cymunedol yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymgynghori, roedd plant a phobl ifanc yn gallu esbonio pwysigrwydd chwarae.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn gweithio'n agos ag ysgoliom i ddarparu gweithgareddau ac mae pobl yn dod ato'n aml sydd am ddefnyddio mannau at ddibenion chwarae. Wrth gynllunio mannau, mae ystyriaeth bob amser o'r elfen addysgol/chwarae, y tu hwnt i Gyfarpar Chwarae Sefydlog. Er enghraifft, ystyrir diogelwch - gwneud i fannau deimlo'n ddiogel a chroesawgar. | | |

**Ymgysylltu a chyfranogaeth gymunedol**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio mecanweithiau presennol yn effeithiol ar gyfer cyfranogaeth plant a phrosesau ymgynghori a theuluoedd ynglŷn â chwarae**?

Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithion agos â'r adrannau tai cymdeithasol, cartrefi Merthyr Valleys sydd â'i brosiect ieuenctid a swyddog ymgysylltu a'r gymdeithas tai sydd â'i dîm ymgysylltu cymunedol ei hun. Mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi comisiynu gwasanaethau trwy gronfa waddol, gan gynnwys un sy'n derbyn cyllid craidd gan sefydliad iaith Gymraeg.

Maer Awdurdod Lleol yn sicrhau bod hygyrchedd yn gryf trwy annog cyfranogaeth ar gyfryngau cymdeithasol, hyrwyddo'r tîm ieuenctid, gwefan gwasanaethau cymorth ieuenctid a chynlluniau penodol fel y Gaeaf Llesiant a Haf o Hwyl ac ati. Maer gwasanaeth ieuenctid yn y broses o wella ei gwefan ac archwilio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i fod yn fwy cymwysadwy i blant a phobl ifanc ac i gyrraedd niferoedd helaethach o rieni i geisio ymgysylltiad ehangach. Anogodd y pandemig hefyd waith cymunedol cynyddol, â rhagor o ymgysylltu yn cael ei weld yn ystod y cyfnod hwn oherwydd cymorth fel gweithio â Banciau Bwyd i atenb anghenion teuluoedd.  Mae'r cynllun Dewch Allan, wedi'i redeg gan y clybiau ieuenctid wedi bod yn gynllun defnyddiol hefyd i gynorthwyo ieuenctid i gyrchu darpariaeth chwarae y tu allan.

**Oes heriau wedi bod?**

Hoffai'r Awdurdod Lleol wneud rhagor o ymgynghori i ddeall anghenion chwarae/hyfforddi yn well, ond mae diffyg personél/adnoddau i wneud hynny. Mae angen rhagor o swyddogion chwarae i fynd allan a gweithio o fewn y gymuned.

Er y bydd y rhan fwyaf o rieni yn caniatáu i'w plant gyrchu gweithgareddau chwarae, gallai ymgysylltiad gweithredol gan rieni eu hunain fod yn well.

Gan fod cyfyngiadau COVID-19 wedi llacio yn awr, bydd llai o ymweliadau'n digwydd i gartrefi i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

Mae lleoliadau'n gallu parhau i ymestyn at rieni ac annog ymgysylltiad gan rieni. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyllido gweithgareddau o'r blaen ar gyfer teuluoedd fel gwersylloedd haf, nad oes ganddo'r adnoddau i wneud mwyach. Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod darparwyr chwarae yn ymgysylltu'n weithredol mewn digwyddiadau cymunedol a diwylliannol.

**Sylwadau**

Mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn ymgymryd â phrosiect sy'n ymchwilio i ymgysylltiad mwy effeithiol â rhieni yn y Blynyddoedd Cynnar.

**Argymhelliad: Sicrhau bod agenda o ddigwyddiadau cymunedol a diwylliannol sydd i ddod yn cael ei chylchredeg i'r holl ddarparwyr chwarae a dilyn ar yr ymgysylltu hwn i hyrwyddo blaengaredd**

**Mater I: Chwarae o fewn agendâu pob polisi a gweithredu perthnasol**

Dylai'r Awdurdod Lleol archwilio'i holl agendâu polisi am eu heffaith bosibl ar gyfleoedd plant i chwarae a sefydlu targedau a gweithredu i wella cyfleoedd chwarae plant o fewn yr holl bolisïau a strategaethau o'r fath.

**Statws RAG:**

| | |
|---|---|
| Atebwyd y meini prawf yn llawn | x |
| Atebwyd y meini prawf yn rhannol. | |
| Ni chafodd y meini prawf eu hateb | |

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I1 | Mae unigolyn wedi'i enwi ar y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Lleol sy'n bencampwr chwarae plant ac sy'n sicrhau bod yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a Chynllun Gweithredu yn cyfrannu at | | | Mae cynrychiolydd yn ei le, ac sydd hefyd yn aelod o'r grŵp llywio ADC. | | • Dylai'r Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae adolygu cynllun llesiant corfforaethol Cwm Taf Morgannwg a ddiweddarwyd a chynlluniau strategol eraill, pan yn barod, wrth asesu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ac yn cael eu hymgorffori o fewn y Cynllun Llesiant | | | | | effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu.<br>• Gweithio'n agos â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau ymgorffori chwarae yn y cynllun Llesiant. |
| I2 | Mae'r Cynllun Llesiant yn cydnabod y pwysigrwydd o chwarae ac mae'n cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog | | | Mae'r cynllun Llesiant yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd aelodau o'r ADC yn cymryd rhan yn y broses adolygu | | |
| **Addysg ac ysgolion** | | | | | | |
| **Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol** | **Meini Prawf** | **Statws RAG: 2019** | **Statws RAG 2022** | **Tystiolaeth i gefnogi cryfderau** | **Diffygion** | **Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu** |
| I3 | Mae ysgolion yn sicrhau bod amgylchedd chwarae cyfoethog yn cael ei ddarparu i blant ar gyfer seibiau yn ystod diwrnod yr ysgol | | | Mae cyllid cyngor a grant AWPOG wedi cael eu targedu i mewn i gyfarpar awyr agored/dan do i ysgolion.<br>Teimlai'r rhan fwyaf o blant oed cynradd ac uwchradd yn fodlon neu'n fodlon iawn â chwarae yn eu hardaloedd, a theimlent fod ganddynt ddigon o amser i chwarae. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I4 | Mae ysgolion yn darparu cyfleodd chwarae yn ystod oriau y tu allan i ddysgu | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio â Chwarae Cymru ar brosiect peilot a phump ysgol beilot, sy'n cynnwys adolygu ac edrych ar ehangu gweithgareddau ar ôl ysgol ac ymgysylltu â rhieni.<br><br>Mae'r prosiect Ysgolion Wedi'u Ffocysu ar Gymuned yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae Merthyr Tudful wedi cael ei dewis fel ardal beilot. Mae ymchwil / ymgynhgori wedi cael ei gwblhau, mae canfyddiadau a chamau nesaf yn cael eu cynllunio. | Mae rhai rhieni yn gofyn am ragor o gyfleoedd chwarae ar ôl ysgol.<br><br>Cafodd prosiect peilot Chwarae Cymru ei effeithio gan COVID-19, wrth i gyfyngiadau leihau, ac ysgolion wedi agor bydd y gwaith hwn yn ailddechrau. | |
| I5 | Mae ysgolion yn darparu mynediad at gaeau ysgol ar gyfer chwarae allan o amserau ysgol | | | Maer Awdurdod Lleol yn gweithio â Met Caerdydd ar y peilot ymchwil Ysgolion Wedi'u Ffocysu ar Gymuned.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol a'r Tîm Chwarae yn gweithio | Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn darparu mynediad ar hyn o bryd i'w tir ar gyfer chwarae y tu allan i'r ysgol ac mae ysgolion uwchradd | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gydaq Chwarae Cymru i dreialu ymagwedd ffocws cymunedol ag ysgolion.<br>Mae rhai ysgolion uwchradd yn sicrhau bod caeau'n hygyrch y tu allan i oriau ysgol.<br>Mae trac rhedeg yn ne CBSMT sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc.<br>Mae cae hoci hefyd, tywyrch Astro a chaeau chwarae yng nghanol y sir. | yn gwneud hynny'n unig i raddau helaeth ar gyfer gweithgareddau qar ôl ysgol, nid ar gyfer penwythnosau neu ar adegau eraill. | |
| I6 | Mae ysgolion yn annog plant i gerdded a seiclo i'r ysgol | | | Mae canfyddiadau o ymgynghori yn awgrymu bod tua tri chwarter o blant yn cerdded neu seiclo i'r ysgol.<br>Mae ysgolion a'r Awdurdod Lleol yn gwneud gwaith da mewn annog teithio cynaliadwy, fel darparu raciau beic diogel a chynorthwyo | | |

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | plant i ddysgu reidio beiciau. | | |
| I7 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cyfarwyddyd i sicrhau bod ysgolion yn deall ac yn sicrhau nad yw chwarae y tu allan yn rheolaidd yn cael ei gwtogi | | | Lleihau oriau ysgol - wrth i ysgolion ailagor, cafodd dyddiau ysgol eu hailgyflunio. Mae amser cinio/Diwedd dydd yn cael ei gwtogi sy'n lleihau cyfleoedd i chwarae yn yr ysgol - mwy mewn ysgolion uwchradd, ond mae'r cynradd yn ystyried hyn hefyd. | Mae angen i ysgolion ddeall yr angen am chwarae. Adroddodd rhai 'nad yw plant yn deall sut i chwarae' a gall hyn fod yn rhannol oherwydd y pandemig. | • Mae ysgol cefnogol yn cynyddu cyfleoedd i chware yn ystod y diwrnod ysgol<br>• Parhau i ddarparu cyllid i ysgolion ar gyfer cyfarpar chwarae i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfeoedd cyfoethog i chwarae yn ystod y diwrnod ysgol.<br>• Gweithio â phartneriaid i gynorthwyo ysgolion i weithredu therapi chwarae |

**Cynllunio Gwlad a Thref**

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I8 | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion plant o | | | Mae'r CDLl yn ystyried chwarae ac mae'r Strategaeth Mynediad Agored yn rhan o hyn. Mae | Mae rhieni plant ag anableddau yn teimlo bod angen i ragor gael ei wneud | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | grwpiau oedran amrywiol a galluoedd i chwarae'r tu allan. | | | manylion arwyddocaol yn cael eu darparu ar sail lefel ward ynglŷn â ble mae angen ardaloedd chwarae.<br><br>Mae safleoedd mannau agored yn cael eu diogelu yn y CDLl. O fewn y polisi rhwymedigaethau cynllunio, mae'n rhaid i ddarpariaeth chwarae ar y safle gael ei darparu ar safleoedd o fwy na 10 annedd.<br><br>Mae'r Tîm Blynyddoedd Cynnar wedi darparu gwybodaeth ar 'Plogio' (cyfuniad o loncian a chodi sbwriel) i bob lleoliad gofal plant o fewn y Fwrdeistref gan gynnwys lleoliadau chwarae- cafodd y cyfle hwn ei agor yn eang a'i annog ar gyfer gweithgaredd corfforol.<br><br>Mae Beiciau Cydbwysedd wedi cael eu darparu hefyd rhwng Tachwedd2022 a Mawrth 2022 i gynorthwyo | i'w cynorthwyo. Mae rheini hefyd yn teimlo bod angen ardaloedd chwaraeon sy'n hygyrch i blant iau.<br><br>Diffygion ardaloedd chwarae ffurfiol. un neu 2 ward.<br><br>Mannau agored amlswyddogaethol, mae diogelu'r rhain yn hanfodol | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | plant ifanc i ddatblygu eu cydsymudiad, cydbwysedd a defnydd o feic o gam cynnar iawn. Mae beiciau cydbwysedd yn cynorthwyo'r trawsnewid i feiciau pedal yn fwy effeithiol gan fod plant wedi arfer eisoes â'r angen i gydbwyso a chadw'r beic ar i fyny o'r dechrau, felly mae'r rhan hon o brofiad beic pedal wedi cael ei ddysgu eisoes. Mae'r hyder cynnar hwn yn y defnydd o'r beic yn gallu cynorthwyo gweithgaredd corfforol rheolaidd yn yr awyr agored yn ogystal â darparu'r sgiliau a'r hyder sylfaenol i fod yn weithredol yn rheolaidd. Mae seiclo yn sgìl bywyd yn ogystal â gweithgaredd/camp hamdden ac mae gan Heini Merthyr brif ganlyniadau yn seiliedig ynghylch y defnydd | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | o'r awyr agored ar gyfer gweithgaredd corfforol. | | |

| **Traffig a Thrafnidiaeth** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol** | **Meini Prawf** | **Statws RAG: 2019** | **Statws RAG 2022** | **Tystiolaeth i gefnogi cryfderau** | **Diffygion** | **Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu** |
| I9 | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cydnabod pwysigrwydd strydoedd lleol, ffyrdd a llwybr cerdded a seiclo mewn cynnig cyfleoedd chwarae i blant o oedrannau a galluoedd gwahanol | | | Mae'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol yn furfio ac yn cyfarwyddo rhaglen cynllun Teithio Gweithredol y Cyngor, gan ddarparu seilwaith sy'n glynu wrth gyfarwyddyd cynllun y Ddeddf Teithio Gweithredol, gan ddarparu cyfleoedd chwarae gwell i blant o oedrannau a galluoedd gwahanol. | | |
| I10 | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth lleol yn adnabod ffyrdd o asesu a mynd i'r afael ag anghenion pob grŵp gan | | | Mae'r Cynllun Trafidiaeth Lleol yn ffurfio gofynion y map rhwydwaith teithio gweithredol i | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gynnwys y rheini sydd yn aml ar y cyrion. | | | Lywodraeth Cymru, syn dangos llwybrau presennol a llwybrau cerddwyr a ddymunir i'r dyfodol gan breswylwyr, gan gynnwys y grwpiau hynny sydd yn aml ar y cyrion. | | |
| **Cynlluniau Blynyddoedd Cynnar** | | | | | | |
| **Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol** | **Meini Prawf** | **Statws RAG: 2019** | **Statws RAG 2022** | **Tystiolaeth i gefnogi cryfderau** | **Diffygion** | **Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu** |
| I11 | Mae cynlluniau a gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog i blant iau | | | Ydi, mae pwysigrwydd chwarae yn cael ei gydnabod gan y tîm Blynyddoedd Cynnar a thrwy raglenni Dechrau'n Deg. | | |
| **Polisi a chynlluniau teulu** | | | | | | |

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I12 | Mae cynlluniau cymorth teuluol yn darparu gwybodaeth gyfredol a chymorth i rieni i'w galluogi i gynorthwyo'u plant i chwarae | | | Mae hyn yn cael ei drefnu gan y FIS. | | |
| I13 | Mae gweithredu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn lleol yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at y ddarpariaeth o gyfleoedd chwarae cyfoethog | | | Ydi, mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cyfrannu at y ddarpariaeth o gyfleoedd chwarae cyfoethog ac mae teuluoedd yn gallu cyrchu cyllid am ddarpariaeth ASC os ydynt yn rhan o raglen dlodi. | | |
| I14 | Mae cynlluniau i leihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog | | | Mae pob lleoliad wedi cael cyngor a chymorth ynghylch ACEau - hyfforddiant yn unol â gofynion statudol. | | |

| Polisi a chynlluniau rhwng cenedlaethau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I15 | Mae amrediad o ymagweddau seiliedig ar chwarae i weithgaredd rhwng cenedlaethau. | | | Gwaith wedi'i dreialu a darparwyr i gynnig darpariaeth gwyliau, mae plant wedi ymweld a chymryd rhan mewn gweithgareddau mewn cartrefi preswyl a gofal.<br>Mae cyfleoedd hyfforddi ar hyfforddiant ymarfer rhwng cenedlaethau wedi cael ei ddarparu gan gontract cymorth busnes y Blynyddoedd Cynnar. Mae sawl lleoliad gofal plant yn awr wedi rhoi sesiynau ar waith o fewn eu hymarfer. | | |
| I16 | Mae hon yn ymagwedd greadigol at weithgaredd rhwng cenedlaethau sy'n annog rhyngweithio gwell rhwng plant o oedrannau gwahanol | | | Darparodd yr Awdurdod Lleol gyllid ar gyfer hyn trwy'r gronfa datblygu plant a ddarparoedd brosiect iâr fach yr haf/garddio - daeth â | Mae'r mathau hyn o weithgaredd yn dibynnu'n drwm ar gapasiti a chyllid. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chenedlaethau gwahanol ynghyd.<br>Hyrwyddodd yr Haf o Hwyl a'r Gaeaf Llesiant weithgareddau chwarae rhwng y cenedlaethau hefyd. | | |

**Iechyd a Diogelwch**

| Rhif Cyfeirnod Awdurdod Lleol | Meini Prawf | Statws RAG: 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Gweithredoedd wedi'u hadnabod ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I17 | Mae'r polisïau Iechyd a Diogelwch yn cydnabod yn benodol gwerth plant yn gallu profi risg a her | | | Mae gan yr Awdurdod Lleol brosesau ar waith i hyrwyddo chwarae mentrus i sicrhau bod plant yn datblygu annibyniaeth ac yn gallu asesu sefyllfaoedd peryglus yn gywir. Mae gan gyfarpar chwarae sefydlog, Chwarae Mynediad Agored ac ati oll ddatganiadau/polisïau iechyd a diogelwch mewn | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | grym ac mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn.<br><br>Pan fydd strydoedd yn cael eu cau, mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau eu bod yn derbyn cydsyniad gwybodus gan bob parti perthnasol. | | |
| I18 | Mae'r polisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yn ymgorffori'r ymagwedd risg-budd at asesiadau iechyd a diogelwch fel yr argymhellir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) | | | Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau ledled y cyngor ac ar gyfer gweithgareddau wedi'u trefnu. | Mae'n aneglur o'r dystiolaeth a gafwyd sut mae hyn yn cael ei weithredu yn erbyn ymagwedd risg-budd. | |
| I19 | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig darparu yswiriant trwy'r cynllun Awdurdod Lleol i holl ddarparwyr chwarae trydydd sector a chynghorau cymuned | | | Yn debyg i gynifer o awdurdodau lleol ledled Cymru, gall fod angen i'r Cyngor archwilio a datblygu proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol i gadw amwynderau penodol mewn rhai cymunedau. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae cyfle i ystyried cynllun yswiriant â bathodyn i gynorthwyo cymunewdau lleol i gael mwy o hyder i gymryd rhan. | | |

**Chwarae o fewn agendâu polisi a gweithredu perthnasol**

**Defnyddiwch yr adran hon i amlygu llwyddiannau cydweithredu ar draws meysydd polisi i wella cyfleoedd chwarae.**

Teimlai'r rhan fwyaf o blant oed cynradd ac uwchradd yn fodlon neu'n fodlon iawn â chwarae yn eu hardaloedd, a theimlent fod ganddynt ddigon o amser i chwarae. Mae sawl cynllun wedi'u defnyddio'n dda sydd wedi dod allan o bolisi perthnasol, fel cynlluniau seiclo. Mae ymagwedd gydweithredol gref at chwarae yn gyffredinol.

**Oes heriau wedi bod?**

Eto, mae llawer o'r gweithgareddau gweithredu uchod yn dibynnu'r drwm ar gyllid. Er yn gydweithredol, mae timau yn fach yn aml ac wedi'u hymestyn, gan olygu nad oes ganddynt y capasiti bob amser i sicrhau bod yr agendâu gweithredu yn cael eu cwblhau'n llawn.

**Sut mae'r rhain yn gallu cael eu goresgyn?**

**Argymhelliad: Annog a chymell ysgolion i gyflenwi eu cyfleusterau at ddefnydd chwarae, y tu allan i oriau ysgol, yn ogystal â gweithredu clybiau ar ôl ysgol. Sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o bwysigrwydd chwarae a'r angen am chwarae yn eu lleoliadau.**

**Argymhelliad: Gweithio â staff asiantaeth i sicrhau bod therapi chwarae yn cael ei weithredu mewn ysgolion lle'n briodol.**

# 10. Casgliad

Mae nifer o brif flaenoriaethau yn codi o ganfyddiadau'r ADC, y manylir arnynt isod.

Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod ymagwedd gydlynedig at ddarparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc. Dylai'r Awdurdod Lleol barhau i weithio â'r Bwrdd Iechyd Cyhoeddus i sicrhau bod chwarae yn cael ei flaenoriaethu yn y cynllun Llesiant a adolygwyd ac yn yr un modd, bod chwarae yn cynorthwyo nodau corfforaethol megis lleihau gordewdra.

Yn ogystal, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol barhau'r gwaith da oedd yn digwydd cyn y pandemig gydag ysgolion, i annog chwarae yn ystod y diwrnod ysgol a'r defnydd o dir a chyfleusterau'r ysgol at ddibenion chwarae. Bydd ymagwedd gydlynedig rhwng Hamdden, yr Awdurdod Lleol a darparwyr chwarae, ynghyd â'r strategaeth drosfwaol yn caniatáu i blant a phobl ifanc gyrchu rhagor o gyfleoedd am chwaraeon a hamdden.

Roedd ateb anghenion plant a phobl ifanc ag ADY neu anableddau yn thema gyffredin trwy gydol y ADC. Mae rhai rhieni, darparwyr a rhaddeiliaid yn teimlo bod plant a phobl ifanc ym methu cyfleoedd oherwydd nad yw darpariaeth addas neu staff wedi'u hyfforddi'n addas yn eu lle. Dylai sicrhau bod cyfarpar chwarae sefydlog addas a staff wedi'u hyfforddi'n briodol i ateb anghenion y plant hyn yn flaenoriaeth. Yn ogystal, dylid rhoi fforwm i blant a phobl ifanc eu hunain i eirioli dros chwarae sy'n ateb eu gofynion.

Mae capasiti a chyllid yn ffactorau sy'n cyfyngu i hyrwyddo a darparu chwarae. I barhau i ddarparu cyfleoedd chwarae o'r ansawdd uchaf i'r holl blant yn y sir, bydd angen i'r Awdurdod Lleol ymchwilio i'r cyllid tymor hir a sut y gall hyn gael ei uchafu ac er mwyn iddynt allu parhau i redeg digwyddiadau llwyddiannus sy'n dod â theuluoedd ynghyd.

Dylai gwella trafnidiaeth i gyrchu cyrchfannau chwarae hefyd fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol. Mae hyn yn rhywbeth a gafodd ei godi trwy gydol yr ymgynghoriad ac yn rhywbeth sydd wedi bod yn broblem ym Merthyr ers sawl blwyddyn.

Heb amheuaeth, mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc a sut maen nhw'n dehongli ac yn ymgymryd â gweithgareddau chwarae. Bydd angen amser a buddsoddiad i gael eu gwneud i sicrhau bod effeithiau'r pandemig ar lesiant plant a phobl ifanc yn cael eu lleihau, trwy barhau i ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog a chymorth i deuluoedd.

# 11. Y Ffordd Ymlaen

Mae Cynllun Gweithredu Merthyr Tudful wedi adnabod y themâu blaenoriaeth am y tair blynedd nesaf. Mae hyn wedi cael ei ffurfio gan ddefnyddio adborth gan wasanaethau a phartneriaid sydd wedi cyfrannu at y ADC. Rydym wedi defnyddio'r diffygion a amlygwyd i adnabod meysydd penodol i'w datblygu a gwaith ychwanegol.

Wrth gwblhau'r asesiad, roedd nifer o themâu ailadroddol, gan gynnwys:

- Gostyngiad yn y swm o ddarpariaeth ar ôl ysgol a darpariaeth gwyliau ar gael, yn enwedig darpariaeth benodol i blant ag ADY
- Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus neu â chymorthdal ddigonol i gynorthwyo plant a phobl ifanc i gyrraedd cyrchfannau chwarae
- Ymgysylltu â chymunedau i roi gwerth a buddsoddi yn ein plant a phobl ifanc, gan gynnwys ymgysylltu helaethach â rhieni/gofalwyr ynghylch pwysigrwydd chwarae
- Angen i ddatblygu amrediad o ddeunyddiau marchnata, hyrwyddol a chyhoeddusrwydd i barhau i godi proffil chwarae, gan gynnwys ei fuddion a'i bwysigrwydd, a sicrhau bod teuluoedd o dan anfantais yn ymwybodol o'r cyfleoedd ar gael.
- Mae'r angen am gymorth adfer COVID-19 ar gyfer staff yn ogystal â theuluoedd
- Yr angen am gyllid parhaol, rheolaidd er mwyn gweithredu digwyddiadau chwarae llwyddiannus

Mae'r gweithredoedd a amlinellir yn y tablau uchod yn ystyried y bylchau hyn sy'n codi. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei drafod a'i gytuno gan y Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae.

Mae newidiadau ac aildrefnu o fewn yr Awdurdod Lleol yn nhermau strwythurau, gwasanaethau a phersonél, megis penodiad Pencampwr Plant, yn ogystal â chyllid cynyddol gan Lywodraeth Cymru dros y 3 blynedd diwethaf wedi codi ymwybyddiaeth gynyddol a chydnabyddiaeth o'r agenda chwarae. Ar yr amod fod monitro gofalus a chyllid digonol yn parhau, bydd hyn yn caniatáu i broffil chwarae gael ei godi ledled Merthyr Tudful er mwyn darparu digon o gyfleoedd chwarae i genedlaethau'r dyfodol a iechyd a llesiant cymunedau. Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod blaenoriaethau yn cael eu hail-linio i helpu teuluoedd adfer o'r pandemig trwy gyrchu chwarae yn seiliedig yn y gymuned, gofal y tu allan i'r ysgol, cyfleoedd hamdden a gwasanaethau ieuenctid fel y mae'n briodol.

## 12. Cynllun Gweithredu

**Gweithredoedd i'w cymryd i fynd i'r afael â'r materion/ diffygion a gofnodir yn yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae.**

**Gweithredoedd arfaethedig ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2022 – 31ain Mawrth 2023**

| Mater | Blaenoriaethau | Targedau | Dolenni at Faterion eraill | Adnoddau, yn cynnwys costau | Ffynhonnell gyllido ( FFrydiau cyllido newydd neu bresennol) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mater A: Poblogaeth** | Dadansoddiad o ddata | Cynnal arolwg bodlonrwydd dilynol yn 2025 sy'n sicrhau cwmpasu ysgolion a phlant ar draws y sir gyfan, i sefydlu unrhyw newid mewn lefelau bodlonrwydd a adroddir ac i adnabod meysydd i'w hymchwilio ymhellach. Er mwyn sicrhau cyfraddau ymateb uchel, dylai ysgolion gael eu cymell ymhellach i gymryd rhan.<br>Adolygu data Cyfirifiad cyn gynted â'u bod ar gael a bwydo hyn i mewn i gynllunio digonolrwydd. | Pob Mater | Swyddog Llywodraeth Leol/amser Aelod Etholedig<br>Comisiynu cwmni allanol o bosibl i gynnal PSA nesaf | Cyllidebau presennol Awdurdod Lleol a/neu gyllid wedi'u trefnu i fod ar gael gan Lywodraeth Cymru i gwblhau ADC 2025 os ar gael |
| **Mater B: Darparu ar gyfer anghenion amrywiol** | Datblygu ymchwil<br>Ymagwedd gydlynedig at weithio<br>Ymgysylltu â'r gymuned | Dadansoddi a defnyddio data cyfrifiad, cyn gynted ag y bydd ar gael, i wella cyfleoedd chwarae mewn ardaloedd a gafodd eu nodi â'r angen mwyaf amdanynt.<br>Dilyn ar ganfyddiad o adroddiad Ludicology i asesu a oes gwelliannau wedi cael eu gwneud mewn ardaloedd | Pob Mater | Amser Swyddog Awdurdod Lleol ac amser sefydliad partner | Cyllidebau presennol Awdurdod Lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Chwarae cyfrwng Cymraeg<br><br>Ateb anghenion plant ag ADY ac anableddau | gwledig â materion a gafodd eu hadnabod trwy ymgynghori ychwanegol<br><br>Codi proffil Chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg ac adnabod ac ymgysylltu â phartneriaid sy'n gallu darparu cyfleoedd chwarae yn y Gymraeg.<br><br>Gweithio â'r adran parciau i sicrhau bod cyllid ar gyfer cyfarpar chwarae sefydlog newydd yn cyrraedd ardaloedd gwledig ac yn ateb anghenion plant ag ADY.<br><br>Gweithio â'r Swyddog Datblygu Safleoedd Teithwyr Sipsiwn i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae diogel i blant a phobl ifanc<br><br>Gweithio â phartneriaid i gynyddu'r swm o chwaraeon anabledd ar gael ledled Merthyr Tudful, sicrhau bod cyllid yn cael ei gyfeirio at hyn<br><br>Canfod anghenion chwarae ieuenctid LHBT+<br><br>Ystyried sefydlu fforwm ieueunctid ADY ac anabledd penodol sy'n gweithio'n agos â'r Awdurdod Lleol fel bod lleisiau'r plant hyn yn cael eu clywed.<br><br>Sicrhau bod plant a phobl ifanc o wardiau na dderbyniodd ymatebion ymgynghoriad yn cael eu hymgynghori yn y dyfodol i ganfod eu hanghenion | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried sut mae trefnu bod cyfarpar chwarae ac adnoddau, a chyfarpar chwarae darnau rhydd ar gael i'r cyhoedd i'w benthyg fel bod teuluoedd sydd dim yn gallu eu fforddio fel arall yn cael mynediad | | | |
| **Mater C: Lle ar gael i blant chwarae** | Datblygu ymchwil<br>Asesiad polisi<br>Ymagwedd gydlynedig at weithio<br>Uchafu cyllid | OSA i'w adolygu a'i ddefnyddio i ddyrannu cyllid yn effeithiol.<br>Archwiliadau mynediad newydd i gael eu cyflawni.<br>Pennu gweithdrefnau a phroses asesu i asesu gwerth chwarae<br>Sicrhau bod arwyddion Blaenoriaeth Chwarae yn cael eu codi ledled Merthyr Tudful a bod teuluoedd yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u pwrpas.<br>Tîm Chwarae a thîm Blynyddoedd Cynnar i gynorthwyo darparwyr chwarae i ymgymryd â phecyn cymorth QA Cymru Gyfan pan gaiff ei gyflwyno.<br>Monitro sut mae'r cyllid dynodedig yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cyfarpar chwarae sefydlog dros y rhaglen 5 mlynedd a bwydo hyn yn ôl i mewn i'r ADC. | B, D, E, F, H | Amser Swyddog Llywodraeth Leol<br>Cyllid cyfarpar chwarae sefydlog sy'n weddill (£300k)<br>Cyllid Partnerriaeth Natur Leol | Cyllidebau presennol Awdurdod Lleol<br>Grantiau eraill ar gael, i gael eu hadnabod |
| **Mater D: Darpariaeth dan oruchwyliaeth** | Ymagwedd gydlynedig at weithio | Gweithio ag Ymddiriedolaeth Hamdden i ymchwilio i ba fannau sydd ar gael at | B, C | Amser Swyddog Awdurdod Lleol ac | Cyllidebau presennol Awdurdod Lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ymgysylltu â'r gymuned | defnydd chwarae, a sut y gallant roi'r rhain allan am ddim i weithwyr chwarae.<br><br>Parhau i hyrwyddo cynlluniau am ddim i sicrhau bod teuluoedd yn manteisio ar weithgareddau chwaraeon a hamdden sydd ar gael iddynt.<br><br>Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw'n weithredol nid yn unig i blant a phobl ifanc ond i rieni hefyd<br><br>Bwriadu datblygu strategaeth sy'n caniatáu i'r Awdurdod Lleol weithredu ymagwedd gydlynedig at hamdden, chwaraeon a gweithgareddau hamdden i blant a phobl ifanc trwy ddod â'r Awdurdod Lleol, yr Ymddiriedolaeth hamdden a darparwyr eraill ynghyd e.e yn debyg i'r sesiynau stori, odl a chwarae sy'n digwydd yn y llyfrgelloedd ag elfen lythrennedd gorfforol<br><br>Archwilio llwybrau hyfforddiant chwarae i Staff Ieuenctid. | | amser sefydliad partner | |
| **Mater E: Codi taliadau am ddarpariaeth chwarae** | Dadansoddiad o ddata<br><br>Dadansoddiad o deithio a thrafnidiaeth | Defnyddio rhagor o wybodaeth cyn gynted â'i bod ar gael o Gyfrifiad 2021 i gynllunio darparu gweithgareddau hamdden i blant mewn teuluoedd incwm isel. | B, F, H | Amser Swyddog Awdurdod Lleol ac amser sefydliad partner | Cyllidebau presennol Awdurdod Lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | . | Sefydlu mecanweithiau i gofnodi darpariaeth dim cost/cost isel a mangreoedd ar gyfer chwarae<br><br>Ymchwilio i sut mae trafnidiaeth wedi sybsideiddio yn gallu cael ei darparu i gynyddu'r amrediad o chwarae ar gael i blant, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig. | | | |
| **Mater F: Mynediad at le/darpariaeth** | Ymagwedd gydlynedig at weithio<br><br>Dadansoddiad o deithio a thrafnidiaeth<br><br>Ymgysylltu â'r gymuned | Parhau i weithio â Theithio Gweithredol i sicrhau bod ardaloedd chwarae, nid cyfleusterau hamdden yn unig, yn cael eu mapio a llwybrau diogel yn cael eu hadnabod.<br><br>Ymgymryd â thrafodaeth ynghylch y posibilrwydd o ragor o ffyrdd yn cael eu cau ar gyfer chwarae<br><br>Parhau i roi cynigion am gyllid Diogelwch Ffyrdd<br><br>Sicrhau bod hyn cael ei gadw wedi'i ddiweddaru ag unrhyw gynlluniau chwarae newydd a bod rhieni'n gallu cael eu cyfeirio'n hawdd at wybodaeth ar chwarae a phwysigrwydd chwarae, yn ogystal â'r gwasanaethau ar gael.<br><br>Ystyried sut i hyrwyddo cyfleoedd i deuluoedd sydd efallai heb gyswllt | B, E, H, G | Amser Swyddog Awdurdod Lleol ac amser sefydliad partner | Cyllid diogelwch ffyrdd a grantiau perthnasol eraill |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | rheolaidd â'r rhyngrwyd, e.e. trwy bosteri, taflenni yn y gymuned leol<br><br>Gweithio gyda'r tîm ieuenctid i ganfod sut y gellir cyrraedd rhieni'n well i ymgysylltu â gweithgareddau ochr yn ochr â'u plant. | | | |
| **Mater G Sicrhau a datblygu'r gweithlu** | Datblygu gweithlu<br><br>Ymagwedd gydlynedig at weithio<br><br>Adfer o COVID-19<br><br>Uchafu cyllid | Sicrhau bod mecanweithiau ar waith i gofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am weithwyr chwarae<br><br>Defnyddio capasiti ychwanegol i ymgymryd â'r archwiliad hyfforddiant a chreu pecynnau pwrpasol o hyfforddiant sy'n llenwi bylchau anghenion<br><br>Gweithio gyda'r grŵp llywio i adnabod sut mae modd ymgymryd â phwysigrwydd chwarae a chodi proffil gwaith chwarae trwy hyfforddiant<br><br>Adnabod ffrydiau cyllid tymor hir i sicrhau bod gweithwyr chwarae a rhieni yn gallu parhau i gael eu cymell i ymgymryd â hyfforddiant<br><br>Adolygu'r cynllun datblygu gweithlu 10 mlynedd i asesu newidiadau mewn blaenoriaethau yng ngolau polisi LlC a heriau COVID-19<br><br>Sicrhau bod yr archwiliad yn cwmpasu pob maes o chwarae | B, H, F | Swyddog Llywodraeth Leol/amser Aelod Etholedig | I'w adnabod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mater H: Ymgysylltu a chyfranogaeth gymunedol** | Ymgysylltu â'r gymuned<br><br>Marchnata | Parhau i ymestyn at rieni ac annog ymgysylltiad gan rieni. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyllido gweithgareddau i deuluoedd o'r blaen fel gwersylloedd haf, nad oes ganddo'r adnoddau i wneud bellach.<br><br>Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod darparwyr chwarae yn ymgysylltu'n weithredol mewn digwyddiadau cymunedol a diwylliannol. | Pob Mater | Amser Swyddog Llywodraeth Leol | Grant cynllun chwarae gwyliau<br><br>Cyllideb Bresennol Awdurdod Lleol |
| **Mater I: Chwarae o fewn agendâu pob polisi a gweithredu perthnasol** | Datblygu chwarae<br><br>Datblygu polisi<br><br>Ymagwedd gydlynedig at weithio<br><br>Cymorth ysgol | Dylai'r Grŵp Llywio Digonolrwydd Chwarae adolygu cynllun llesiant corfforaethol Cwm Taf Morgannwg a ddiweddarwyd a chynlluniau strategol eraill, pan yn barod, wrth asesu effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu.<br><br>Gweithio'n agos â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau ymgorffori chwarae yn y cynllun Llesiant.<br><br>Mae ysgolion cefnogol yn cynyddu cyfleoedd i chwarae yn ystod y diwrnod ysgol<br><br>Parhau i ddarparu cyllid i ysgolion ar gyfer cyfarpar chwarae i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfeoedd | Pob Mater | Swyddog Llywodraeth Leol/amser Aelod Etholedig | Cyllideb Bresennol Awdurdod Lleol<br><br>Cyllideb Bresennol Awdurdod Addysg Lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | cyfoethog i chwarae yn ystod y diwrnod ysgol.<br><br>Gweithio â phartneriaid i gynorthwyo ysgolion i weithredu therapi chwarae | | | |

# Atodiad

[Cliciwch yma i ddychwelyd i Adran 4](#).

**Arolwg Ysgolion Cynradd**

Tabl 1 - Oedran ymatebwyr ysgol gynradd

| Oedran y plant (mewn blynyddoedd) | Nifer y plant |
|---|---|
| **7** | 1 |
| **8** | 4 |
| **9** | 16 |
| **10** | 36 |
| **11** | 26 |

Tabl 2 - Dadansoddiad wardiau o ymatebion

| Ward | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| **Bedlinog** | 3 |
| **Cyfarthfa** | 0 |
| **Dowlais** | 7 |
| **Gurnos** | 4 |
| **Ynysowen** | 0 |
| **Parc** | 5 |
| **Penydarren** | 7 |
| **Plymouth** | 21 |
| **Y Dref** | 4 |
| **Treharris** | 0 |
| **Y Faenor** | 0 |
| **n/a**[3] | 22 |
| **Cyfanswm** | **83** |

Tabl 3 - Ysgolion cynradd y derbyniwyd arolygon oddi wrthynt

| Enwau'r ysgolion | Nifer y plant |
|---|---|

[3] Data ddim ar gael neu wedi'u mewnbynnu'n anghywir

| | |
|---|---|
| **Ysgol Gynradd Bedlinog** | 10 |
| **Ysgol Gymuned Abercanaid** | 25 |
| **Ysgol Parc Cyfarthfa** | 12 |
| **Ysgol Gynradd St Aloysius** | 18 |
| **Ysgol Gynradd St Illtyd** | 16 |
| **Ysgol Gynradd Troedyrhiw** | 2 |

Tabl 4 - Ymateb plant i 'Ydych chi'n cael digon o amser i chwarae neu dreulio amser â ffrindiau?

| Dewisiadau Ateb | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **1 (na, dim o gwbl)** | 1 |
| **2** | 2 |
| **3** | 19 |
| **4** | 49 |
| **5 (ydw, llwyth)** | 11 |

Tabl 5 - Ymatebion plant i 'Pan nad ydych chi yn yr ysgol, pa fathau o leoedd ydych chi'n chwarae neu'n treulio amser â ffrindiau?

| Ardaloedd chwarae | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Yn fy ngahrtref fy hun neu yn nhŷ ffrind** | 50 |
| **Yn fy ngardd neu ardd ffrind** | 51 |
| **Mewn cyfleuster chwaraeon lleol e.e. cae pêl-droed neu ganolfan hamdden ac ati.** | 17 |
| **Mewn parc lleol neu gae/man gwyrdd** | 21 |
| **Mewn cae chwarae lleol â siglenni, llithrennau ac ati.** | 32 |
| **Mewn clwb ieuenctid neu ar ôl ysgol** | 13 |
| **Yn y strydoedd yn agos at gartref** | 15 |
| **Mewn parc sglefrio/beiciau lleol** | 5 |
| **Ar y traeth** | 1 |

| | |
|---|---|
| **Yn nhŷ perthynas** | 1 |

Tabl 6 - Ymatebion plant i 'Ble ydych chi'n hoffi chwarae fwyaf?'

| Ardaloedd chwarae | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Yn fy nghartref fy hun neu yn nhŷ ffrind** | 35 |
| **Yn fy ngardd neu ardd ffrind** | 39 |
| **Mewn cyfleuster chwaraeon lleol e.e. cae pêl-droed neu ganolfan hamdden ac ati.** | 26 |
| **Mewn parc lleol neu gae/man gwyrdd** | 17 |
| **Mewn cae chwarae lleol** | 15 |
| **Mewn clwb ieuenctid neu ar ôl ysgol** | 4 |
| **Yn y strydoedd yn agos at gartref** | 4 |
| **Mewn parc sglefrio/beiciau lleol** | 5 |
| **Ar y traeth** | 1 |
| **Nid wyf yn mynd allan** | 1 |

Tabl 7 - Crynodeb o ymatebion i 'Tynnwch lun o'ch hoff weithgaredd pan rydych chi'n chwarae neu allan'

| Atebion. | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Gweithgareddau chwaraeon e.e. pêl-droed, nofio ac ati** | 24 |
| **Gweithgareddau awyr agored e.e cerdded, seiclo** | 8 |
| **Chwarae gartref neu yn nhŷ ffrind** | 11 |
| **Chwarae dychmygus/esgus e.e doliau** | 1 |
| **Gemau fideo** | 11 |
| **Gweithgaredd ar-lein e.e. teclynnau** | 7 |
| **Gwylio'r teledu neu ffilmiau** | 2 |
| **Cae chwarae â siglenni, llithrennau ac ati** | 11 |
| **Celfyddydau a chrefftau** | 4 |

Tabl 8 - Ymatebion plant i 'Â phwy ydych chi'n chwarae fel arfer?'

| Unigolyn | Nifer o ymatebion |
| --- | --- |
| **Ffrindiau** | 48 |
| **Teulu** | 39 |
| **Brodyr/chwiorydd neu gefndryd/cyfnitherod** | 14 |
| **Ar fy mhen fy hun** | 17 |

Tabl 9 - Ymatebion plant i 'Sut ydych chi'n cyrraedd fel arfer i leoedd lle byddwch chi'n chwarae?'

| Ffordd o Deithio | Nifer o ymatebion |
| --- | --- |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio ar fy mhen fy hun** | 25 |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio gyda ffrindiau** | 12 |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio gydag oedolyn** | 11 |
| **Mae oedolyn yn mynd â mi yn y car** | 13 |
| **Rwy'n defnyddio'r bws** | 0 |

Tabl 10 - Ymatebion plant i 'Sut ydych chi'n cyrraedd yr ysgol fel arfer?'

| Ffordd o Deithio | Nifer o ymatebion |
| --- | --- |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio ar fy mhen fy hun** | 14 |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio gyda ffrindiau** | 2 |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio gydag oedolyn** | 9 |
| **Mae oedolyn yn mynd â mi yn y car** | 33 |
| **Rwy'n defnyddio'r bws** | 2 |

Tabl 11 - Ymatebion plant i 'Beth sy'n dda am eich ardal ar gyfer chwarae a threulio amser?'

| Atebion. | Nifer o ymatebion |
| --- | --- |
| **Cyfleusterau chwaraeon e.e. pêl-droed, nofio ac ati** | 12 |
| **Cae chwarae a llithrennau, siglenni ac ati.** | 8 |
| **Ffrindiau yn byw yn lleol** | 6 |
| **Parc sglefrio** | 2 |
| **Tref leol e.e. sinema, arcedau ac ati.** | 6 |
| **Parciau neu gaeau lleol** | 31 |
| **Lleoliad yn gyffredinol e.e. tawel, byw yng nghefn gwlad** | 12 |

Tabl 12 - Ymatebion plant i 'Beth sydd ddim yn dda am eich ardal y mae angen eu gwella ar gyfer chwarae a threulio amser allan?

| Atebion. | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Glendid yr ardal leol** | 21 |
| **Cyfarpar chwarae hen neu wedi'i dorri** | 10 |
| **Diffyg lleoedd yn y dref** | 5 |
| **Caeau chwarae neu barc wedi gordyfu** | 16 |
| **Pobl leol** | 9 |
| **Ffyrdd** | 4 |

Tabl 13 - Ymatebion plant i 'Pa mor hapus ydych chi'n teimlo am chwarae ym Merthyr Tudful?

| Dewisiadau Ateb | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **1 (Ddim yn hapus o gwbl)** | 0 |
| **2** | 3 |
| **3** | 12 |
| **4** | 33 |
| **5 (Hapus iawn)** | 26 |

Tabl 14 - Ymatebion plant i 'Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo am chwarae allan ym Merthyr Tudful?

| Dewisiadau Ateb | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **1 (Ddim yn ddiogel o gwbl)** | 2 |
| **2** | 3 |
| **3** | 24 |
| **4** | 39 |
| **5 (Diogel iawn)** | 11 |

Tabl 15 - Ymatebion plant i 'Ydych chi'n mwynhau chwarae o hyd ers i COVID-19 ddechrau?'

| Dewisiadau Ateb | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **1 (Na, dim o gwbl)** | 7 |
| **2** | 8 |
| **3** | 22 |
| **4** | 34 |
| **5 (Ydw, llwyth)** | 8 |

Tabl 16 - Ymatebion plant i 'Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo am chwarae allan ers COVID-19?'

| Dewisiadau Ateb | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **1 (Ddim yn ddiogel o gwbl)** | 2 |
| **2** | 15 |
| **3** | 27 |
| **4** | 26 |
| **5 (Diogel iawn)** | 9 |

**Arolwg y rhai o dan 5 oed**

**Cliciwch yma i ddychwelyd i Adran 4.**

Tabl 17 - dadansoddiad o wardiau i arolwg y rhai o dan 5 oed

| Ward | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| **Bedlinog** | 0 |
| **Cyfarthfa** | 0 |
| **Dowlais** | 0 |
| **Gurnos** | 0 |
| **Ynysowen** | 2 |
| **Parc** | 3 |
| **Penydarren** | 2 |
| **Plymouth** | 10 |

| | |
|---|---|
| **Y Dref** | 1 |
| **Treharris** | 0 |
| **Y Faenor** | 0 |
| **n/a**[4] | 10 |
| Cyfanswm | **29** |

Tabl 18 - Crynodeb o ymatebion i 'Tynnwch lun o'ch hoff gemau, gyda'ch hoff bobl, yn eich hoff le'

| Gweithgareddau | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Defnyddio teclynnau gartref** | 2 |
| **Chwaraeon yn yr ysgol gyda ffrindiau** | 5 |
| **Chwaraeon y tu allan i'r ysgol gyda ffrindiau neu deulu** | 9 |
| **Chwarae gemau yn y parc (e.e tagio) gyda ffrindiau a theulu** | 5 |
| **Chwarae dychmygus gyda ffrindiau neu deulu gartref neu yn yr ysgol** | 3 |

Tabl 19 - Ymatebion plant i 'Pa mor aml ydych chi'n llwyddo i chwarae?'

| Ateb | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Llawer** | 20 |
| **Yn aml** | 7 |
| **Weithiau** | 6+ |
| **Byth** | 1 |

Tabl 20 - Ymatebion plant i 'Ydych chi'n llwyddo i chwarae bob amser lle rydych chi am chwarae?'

| Ateb | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Bob tro** | 2 |
| **Weithiau** | 12 |
| **Dim yn aml** | 19 |

Tabl 21 - Crynodeb o ymatebion i 'Os gallech chi ddewis unrhye le i chwarae, ble fyddai hynny?'

[4] Data ddim ar gael neu wedi'u mewnbynnu'n anghywir

| Man chwarae | Nifer o luniau |
|---|---|
| **Gartref** | 4 |
| **Cae neu gyfleuster chwaraeon** | 4 |
| **Y parc** | 8 |
| **Ardal chwarae awyr agored** | 3 |
| **Ardal chwarae o dan do** | 3 |
| **Arall** | 5 |

Tabl 22 - Ymatebion plant i 'Pa mor hapus ydych chi'n teimlo am chwarae allan?'

| Graddfa | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **1 (Dim yn hapus)** | 0 |
| **2** | 1 |
| **3** | 1 |
| **4** | 9 |
| **5 (Hapus iawn)** | 18 |

**Arolwg Ysgolion Uwchradd**

**Cliciwch yma i ddychwelyd i Adran 4**.

Tabl 23 - Oedran ymatebwyr ysgol uwchradd

| Oedran | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| **11** | 31 |
| **12** | 110 |
| **13** | 124 |
| **14** | 92 |
| **15** | 67 |
| **16** | 10 |
| **17** | 1 |

Tabl 24 - Dadansoddiad wardiau o ymatebion

| Ward | Nifer yr ymatebion |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Bedlinog** | 0 |
| **Cyfarthfa** | 20 |
| **Dowlais** | 78 |
| **Gurnos** | 175 |
| **Ynysowen** | 2 |
| **Parc** | 4 |
| **Penydarren** | 83 |
| **Plymouth** | 4 |
| **Y Dref** | 4 |
| **Treharris** | 1 |
| **Y Faenor** | 26 |
| **n/a**[5] | 51 |
| **Cyfanswm** | **448** |

Tabl 25 - Ymatebion plant a phobl ifanc i 'Ble ydych chi'n chwarae fwyaf?'

| Dewisiadau Ateb | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| **Gartref neu yn nhŷ ffrind** | 313 |
| **Yn fy ngardd neu ardd ffrind** | 96 |
| **Yn y strydoedd ger fy nhŷ** | 200 |
| **Mewn man glaswelltog yn lleol** | 165 |
| **Mewn man lle mae llwyni, coed a blodau** | 91 |
| **Mewn man chwarae lle mae siglenni, llithrennau chyfarpar arall i chwarae arno** | 152 |
| **Yn y coed ger fy nhŷ** | 72 |
| **Ar faes pêl-droed neu gae chwaraeon** | 165 |
| **Ar iard chwarae'r ysgol** | 58 |
| **Mewn man lle mae dŵr neu dywod** | 31 |
| **Ar y beic neu barc sglefrio** | 91 |

[5] Data ddim ar gael neu wedi'u mewnbynnu'n anghywir

| | |
|---|---|
| **Mewn canolfan gymunedol neu ganolfan hamdden** | 80 |
| **Mewn clwb ieuenctid** | 49 |
| **Mewn clwb brecwast** | 13 |
| **Mewn clwb ar ôl yr ysgol** | 37 |
| **Mewn clwb gwyliau** | 3 |
| **Mewn lle chwarae antur** | 12 |
| **Mewn cynllun chwarae** | 2 |
| **Mewn gwasanaeth gwarchod plant** | 1 |
| **Mewn canolfan chwarae dan do** | 23 |
| **Neu rywle arall?** | 103 |

Tabl 26 - Ymatebion plant a phobl ifanc i 'Oes rhywun yn gofalu amdanoch cyn neu ar ôl ysgol sydd ddim yn ddarparwr chwarae neu'n riant/gofalwr i chi?'

| Dewisiadau Ateb | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| **Mam-gu neu dad-cu** | 247 |
| **Brawd neu chwaer hŷn** | 109 |
| **Rhywun arall yn y teulu** | 139 |
| **Ffrindiau mam** | 69 |
| **Cymdogion mam neu dad** | 23 |
| **Rhywun arall** | 119+ |

Tabl 27 - Ymatebion plant a phobl ifanc i 'Enwch 5

| Ateb | Cyfanswm |
|---|---|
| **Celf** | 15 |
| **Pêl-fasged** | 34 |
| **Arwain cymeradwyaeth** | 3 |
| **Sinema** | 14 |
| **Drama** | 6 |
| **Pêl-droed** | 127 |
| **Rygbi** | 73 |
| **Crefftau Ymladd** | 35 |

| | |
|---|---|
| **Pêl-rwyd** | 30 |
| **Gemau cyfrifiadaur** | 39 |
| **Chwaraeon eraill (nofio, troed rolio, sglefrfyrddio, golff, criced, pêl-foli, rhedeg)** | 90 |
| **Gwylio'r teledu** | 12 |
| **Mynd allan/i'r dref/parc/treulio amser gyda ffrindiau** | 211 |
| **Dawnsio** | 18 |
| **Chwarae neu wrando ar gerddoriaeth neu ganu** | 29 |
| **Seiclo** | 27 |
| **Marchogaeth** | 9 |
| **Chwarae gemau** | 16 |
| **Clwb ieuenctid** | 29 |
| **Coginio/pobi** | 4 |
| **Chwarae ar eu ffôn** | 12 |

Tabl 28 - Ymatebion plant i 'Sut ydych chi'n cyrraedd fel arfer i leoedd lle byddwch chi'n chwarae?'

| Ffordd o Deithio | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio ar fy mhen fy hun** | 84 |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio gyda ffrindiau** | 148 |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio gydag oedolyn** | 36 |
| **Mae oedolyn yn mynd â mi yn y car** | 116 |
| **Rwy'n defnyddio'r bws** | 10 |
| **Rwy'n defnyddio'r trên** | 1 |

Tabl 29 - Ymatebion plant i 'Sut ydych chi'n cyrraedd yr ysgol fel arfer?'

| Ffordd o Deithio | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio ar fy mhen fy hun** | 60 |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio gyda ffrindiau** | 69 |
| **Rwy'n cerdded neu'n beicio gydag oedolyn** | 31 |
| **Mae oedolyn yn mynd â mi yn y car** | 195 |

| | |
|---|---|
| **Rwy'n defnyddio'r bws** | 33 |
| **Rwy'n defnyddio'r trên** | 1 |

**Arolwg Rhieni**

Cliciwch yma i ddychwelyd i Adran 4.

Tabl 30 - Dadansoddiad wardiau o ymatebion

| Ward | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| **Bedlinog** | 9 |
| **Cyfarthfa** | 17 |
| **Dowlais** | 7 |
| **Gurnos** | 13 |
| **Ynysowen** | 27 |
| **Parc** | 49 |
| **Penydarren** | 22 |
| **Plymouth** | 21 |
| **Y Dref** | 16 |
| **Treharris** | 17 |
| **Y Faenor** | 8 |
| **n/a**[1] | 9 |
| **Cyfanswm** | **215** |

Tabl 31 - Ymatebion rhieni i 'Faint o blant sydd gennych chi?'

| Nifer y plant | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| **0** | 4 |
| **1-2** | 172 |
| **3-4** | 33 |
| **5+** | 3 |

Tabl 32 - Ymatebion rhieni i 'Ble ydych chi'n caniatáu i'ch plant chwarae neu dreulio amser?'

| Dewisiadau Ateb | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| **Gartref neu yn nhŷ ffrind** | 142 |
| **Yn yr ardd neu ardd ffrind** | 140 |
| **Yn y strydoedd ger fy nhŷ** | 40 |
| **Mewn man glaswelltog yn lleol** | 44 |

| | |
|---|---|
| **Mewn man lle mae llwyni, coed a blodau** | 22 |
| **Mewn man chwarae lle mae siglenni, llithrennau a chyfarpar arall i chwarae arno** | 122 |
| **Yn y coedwigoedd ger y tŷ** | 20 |
| **Ar faes pêl-droed ger y tŷ** | 35 |
| **Mewn man lle mae dŵr neu dywod** | 21 |
| **Ar feic neu barc sgelfrio** | 32 |
| **Mewn canolfan gymunedol neu ganolfan hamdden** | 33 |
| **Mewn clwb ieuenctid** | 13 |
| **Mewn clwb ar ôl yr ysgol** | 39 |
| **Mewn lle chwarae antur neu gynllun chwarae** | 56 |
| **Mewn canolfan chwarae dan do** | 93 |
| **Yn rhywle arall – (dywedwch ble wrthym)** | 22 |

Tabl 33 - Ymatebion rhieni i 'Pa weithgareddau chwarae mae'ch plant yn mwynhau eu gwneud fwyaf?'

| Gweithgaredd | Nifer o ymatebion |
|---|---|
| **Bod y tu allan/troeon cerdded/parc** | 91 |
| **Celfyddydau a chrefftau** | 7 |
| **Nofio** | 11 |
| **Gwylio'r teledu** | 1 |
| **Beic/sgwter/sglefrio** | 21 |
| **Gemau fideo** | 5 |
| **Ardaloedd chwarae meddal o dan do** | 11 |
| Mynd i **dŷ ffrind** | 5 |
| **Pêl-droed** | 35 |
| **Rygbi** | 5 |
| **Trampolîn** | 10 |
| **Clwb ieuenctid** | 2 |
| **Gemau bwrdd** | 4 |
| **Pobi/coginio** | 3 |

| | |
|---|---|
| **Dawnsio** | 1 |
| **Teganau/doliau** | 6 |